

CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 270 - 50c
Chwefror 2009

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Gweinidog
yn ymweld
ag ysgolion**



Tudalen 2

**Cadwyn
arall o
gyfrinachau**



Tudalen 14

**Cyflwyno
sieciau
hael**



Tudalen 26

Rhodd hael i Ysbyty Prifysgol Cymru



Yn dilyn sioe lwyddiannus yng Nghwmsychbant yn ystod yr haf, cyflwynwyd elw o £4,250 gan aelodau'r pwyllgor i Ward Heulwen, Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd a'r Tîm Chwarae ar Ward Heulwen. Rhannwyd yr elw yn gyfartal rhyngddynt. Yn y llun, o'r chwith, mae Wendy Jenkins a Wendy Davies, Ysgrifenyddion; Hefin Jenkins, Cadeirydd; Jean Evans, Llywydd; John Jones, Trysorydd; Emma Mitchell a Sue Simpson o Ward Heulwen.



Rhian Bellamy yn ennill cwpan y Cadeirydd Gorau a Manon Richards â chwpan y Siaradwr Gorau dan 26oed



Timau Cwis Llyfrau Ail Iaith Ysgol Ffynnonbedr

Disgyblion y cylch



Y Gweinidog Addysg, Jane Hutt, yn ymweld ag Ysgol Ffynnonbedr.



Y Gweinidog Addysg, Jane Hutt yn ymweld ag Ysgol Y Dderi ac yn gwyllo'r plant lleiaf yn addurno boncyff Nadolig gyda'r dirprwy brifathrawes, Lilian Jones.



Rhai o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 Ysgol Carreghirfaen a fu'n rhan o'r Prosiect Celtaidd a gynhaliwyd ar dir yr ysgol yn ystod y flwyddyn gyda chymorth Live Lightly. Yn ddiweddar, fe fu'r disgyblion yn brysur yn creu modelau o adeiladau Celtaidd, ffynau daear a chlwydi helyg gyda chymorth Nigel Lishman o Live Lightly. Mae'r gwaith yn cyd-fynd â maes llafur y Cyfnod Sylfaen.



Jan Young, Arweinydd Chwarae (trydydd o'r chwith) gyda rhai o rieni a phlant Canolfan Deulu Llanybydder sydd newydd dderbyn grant tuag at le chwarae tu fas.



Tîm Pêl-rwyd Ysgol Y Dderi a fu'n fuddugol yn y Cylch.



Disgyblion Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Llanwenog gyda chast Merched y Gerddi yn Ysgol Cwrtnewydd



Meinir Davies, ysgrifennydd; Helen Williams, arweinydd; Kay Lewis, cadeirydd; Louise Evans, arweinydd; a Donna Hage, cynorthwy-ydd chwarae gyda phlant Cylch Meithrin Llanybydder.



Cystadleuaeth Cogurdd yn Ysgol Ffynnonbedr. Yn fuddugol oedd:- 1af. Gareth Wyn Jones, 2ail. Jaxom Fallom, 3ydd. Teon Rees/ Caryl Jacob. Yn absennol o'r llun:- Robert J, Ben S, Meirion, Rhiannon, Gavin, Ciaran a Jaxom.

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Chwefror a Mawrth Elaine Davies, Penynant, Alltyblaca 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies,
Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan

Dylunydd: Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590

e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipyddion Nia Davies, Maesglas 480015
Joy Lake, Llambled

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Meinir Evans, Rhydfechan 421359

Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922

Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies

Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507

Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238

Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856

Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407

Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325

Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218

Llanwnnen Meinir Ebbsworth, Brynamlwg 480453

Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257

Pencarreg Linda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk

Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490

Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856

Ffotograffwyr Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Terry Jones, Awel y Grug, Cwmann 421173

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

• Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.

• Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.

• Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.

• Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.

• Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk

• E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk

• Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun.

• Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost i cadeirydd@clonc.co.uk.

• Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.

• Gellir tanysgrifio i Clonc am £12 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.

• Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Blwyddyn Newydd Dda –

Fe fydd dau fis wedi mynd ers y rhifyn diwethaf. Roeddwn yn meddwl fod sbel cyn yr un nesaf, ond fel y gwyr pawb – mae amser yn diflannu. Dilyn cyngor o'r Beibl sydd orau "Daliwch ar eich cyfle, oherwydd mae'r dyddiau'n ddrwg"‡Dyna fe 'does dim yn newid, felly mae'n rhaid bwrw ati a gwneud y gorau o'n hamser.

‡Efesiaid 5.16 (Rhag ofn fod rhywun yn chwilio am destun erbyn y Sul).

Tywydd Caled.

Do, fe ddaeth y rhew a llawer wedi gweld y tapiau wedi rhewi am y tro cyntaf ers blynnyddoedd. Rhai yn dweud fod angen y tywydd caled yma ar ein tir er mwyn lladd llawer o ddrygau tymhorol. Ar ben popeth cawsom doriad gweddol hir yn y trydan; rhyfedd oedd darllen yng ngolau kannwyll. Gwers fach arall i ni fod yn barod gyda modd i ferwi tegell heb ddibynnu ar y trydan, a bod 'torch' wrth law i gael dod o hyd i'r canhwylau.

Diwrnod i'w gofio.

Yn wir, roedd y weithred o sefydlu Obama yn Arlywydd America yn ddatblygiad sydd bron yn anghredadwy. O feddwl am y modd y cafodd y dyn du ei drin ond ychydig ddegawdau yn ôl, mae'r newid yn wyrthiol ond yn dderbyniol iawn. Pob hwyl iddo. Sylwais nad oedd wedi addo gwyrrthiau yn ei araith; yntau yn ein hannog i 'ddal ar ein cyfle'. Wrth beidio ag addo gormod fe fydd yn medru cadw at ei air. Gwers arall i ni ddaearolion gofio!

Adroddiadau.

Mae dechrau blwyddyn yn dod â digon o waith i adolygu a pharatoi adroddiadau'r capeli. Nid yw'n waith hapus iawn. Colli aelodau, a neb yn dod yn eu lle. Llauer o aelodau wedyn yn cyfrannu, ond am lawer o resymau heb fod yn mynychu'r un oedfa. Dyna fe, ydy bod yn aelod yn golygu unrhyw beth i lawer heddiw? Hoffais drafodaeth a glywais yn siop y barbwr yn ddiweddar. Person yn diffinio beth oedd credo'r 'dyneiddiwr' (humanist) Y ficer lleol oedd yn holi person ac am wybod pa gapel neu eglwys a fynychai. "Humanist ydw i" meddai. "Beth mae na'n feddwl?" meddai'r ficer. Cafodd ateb syml iawn, "Os cwympwch chi, fe goda i chi lan". Swnio fel y Samariad Trugarog, ond yw e!

Cadw at y rheolau –

Odw, rwy'n treio 'ngorau i gadw at reolau'r ffordd fawr, ond mae'r gorau'n methu. Mae treth y car yn ddyledus nawr, felly dyma chwilio am yr MOT. Dim sôn amdani. Minnau o'r farn fy mod wedi ei cholli. Y DVLA yn dweud fod modd cael un newydd am £10 o'r garej lle y cafodd y car y prawf. Cael cyngor wedyn sy'n werth ei roi i chi. Ar waelod chwith eich MOT mae darn yn dod yn rhydd. Medrweh roi hwnnw ar ffenestr eich car neu yn eich dyddiadur. Mae'n rhwydd anghofio os yw'r MOT a'r dreth yn gorffen ar fis gwahanol. Diolch na chefais fy stopio!

Pob hwyl – *Cloncyn.*

Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk



CHWEFROR

- 6 Sesiwn Ymarfer Corff gan Js Workout 8 – 9y.h. Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni.
- 10 Noson yng nghwmni Fflur Dafydd a Rhys y Barf a Twmpath gyda John Thomas yn galw am 7.30y.h. yn Neuadd yr Ysgol Llanfihangel ar Arth.
- 13 Sesiwn Ymarfer Corff gan Js Workout 8 – 9y.h. Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni.
- 15 Rihysal y Bedyddwyr yng Nghapel Noddfa, Llambled am 2y.p.
- 16 – 20 + 23 Wythnos Cystadleuaeth Pantomeim C.Ff.I. Ceredigion yn Theatr Felinfach.
- 20 Sesiwn Ymarfer Corff gan Js Workout 8 – 9y.h. Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni.
- 21 Cwmni Troed y Rhiw yn dychwelyd gyda Priodas Cwmffradach - gwahoddiad i bawb ymuno â'r par am 7.30y.h. yn Neuadd yr Ysgol Llanfihangel ar Arth.
- 23 Cawl a Chân Bro'r Dderi i ddechrau am 7y.h.
- 24 Perfformiadau'r 3 Panto gorau C.Ff.I. Ceredigion yn Theatr Felinfach.
- 27 Sesiwn Ymarfer Corff gan Js Workout 8 – 9y.h. Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni.

MAWRTH

- 1 Cinio Hwyl Ddewi ac Ocsiwn i godi arian at Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 gan y Pwyllgor Cyhoeddusrwydd yng Ngwesty'r Plu, Aberaeron. Gŵr Gwadd: Dai Jones, Llanilar. Arwerthwr: Dylan Davies, Morgan & Davies. Tocynnau £20 oddi wrth Nia Davies 01570 480015.
- 5 Noson Bingo yn Cefnhafod, Gorsgoch am 7.30y.h. Bydd yr elw yn mynd tuag at Gylch Meithrin Drefach.
- 6 Cawl a Chân yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen am 7.00y.h. Eitemau gan Blant yr ysgol a'r grŵp 'Ffrindiau'.
- 6 Dawns Dewis Swyddogion C.Ff.I. Ceredigion yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth.
- 7 'Swper Cawl' i ddathlu Gŵyl Dewi gyda Chôr y Llan, Llanelli yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers am 7.30y.h.
- 11 Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambled yn Neuadd Ysgol Gyfun Llambled.
- 14 Noson caws a gwin yn y Llew Du Llanybydder dan nawdd Cangen Llanybydder Cymdeithas Diabetes UK Cymru.
- 18 Eisteddfod Dawns ac Aelwydydd Rhanbarth Ceredigion yn Neuadd Fawr Aberystwyth.
- 18 Cynhelir yr Arwerthiant Blynnyddol yn Festri Aberduar am 7 o'r gloch. Agorir y noson gan Marc Griffiths (Tower Cottage gynt).



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Gwesty'r Grannell

Llanwnnen



Bwyd cartref ardderchog,
Ystafell wydr newydd,
Yn arlwyio ar gyfer pob
achlysur,
Ystafelloedd en-suite,
Trwydded ar gyfer priodas.
Cysylltwch â Susan neu Siriol
☎ 01570 480476



Gall y driniaeth yma eich helpu, os
ydych yn dioddef o'r canlynol:

- * Blinder / diffyg egni
- * Meigrin
- * Sciatica
- * Irritable Bowel Syndrome
- * Menstrual problems
- * a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

**Arnold Davies
Vincent Evans**

33 Stryd Fawr, Llanbedr
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Lle aeth pawb?



YSGOL SILIAN – 1961. Rhes Gefn: Llewellyn Merralls; Henry Evans; Meurig Lloyd Edwards; Eddie Thomas; Brian Morgan; Daniel Rees; Anthony Jones. Mrs Marsden James (Athrawes); Miss Jane Jones (Cogyddes). Rhes Ganol: Shirley Evans; Eleri Oliver; Susan Jones; Mary Rees; Kitty Evans; Ann Jones; Rose Jones; Dafydd Lloyd Jones; Miss Evans (Prif Athrawes). Rhes Gyntaf: John Lewis; Huw Williams; Delyth Williams; Angela Jones; Howard Joyner; Meryl Evans; Graham Evans.

Diolch i Eddie Thomas am y llun. Os oes gan unrhyw un arall hen lun diddorol, cysylltwch â'r golygydd.

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC



Wrth i'r Cynulliad ailymgynnull yn ystod mis Ionawr, daeth y cyhoeddiad y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu bron i £1.1 miliwn i ariannu gwaith Cymunedau'n Gyntaf yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Ceredigion. Mae hyn yn golygu y bydd y cynllun yn parhau i weithredu yn ardal Penparcau a Gorllewin Aberystwyth, ynghyd ag ym mhentrefi Ucheldiroedd Tregaron, dros y tair blynedd nesaf. Bwriad cynllun Cymunedau'n Gyntaf yw dod â thrigolion lleol at ei gilydd i geisio ymdrin â phroblemau lleol, ac rwy'n gobeithio y bydd y sicrwydd ariannol newydd hwn yn galluogi'r cymunedau yma i ddechrau cynllunio eu gweithgareddau dros y blynyddoedd nesaf.

Dros y misoedd diwethaf rwyf wedi bod yn casglu manylion tai a busnesau Ceredigion sy'n parhau i fethu â derbyn cyswllt â'r rhyngwyd fand-eang er mwyn i Lywodraeth y Cynulliad edrych ar ffyrdd i wella'r sefyllfa. Yn sgil hyn, fe ddaeth cadarnhad oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones AC, cyn y Nadolig bod pentref Cilcennin yn un o chwe ardal yng Nghymru ble fydd BT yn gwella'r isadeiledd telegyfathrebu lleol er mwyn galluogi'r ardal i gael cyswllt rhyngwyd cyflym. Mae hyn yn sicr yn ddatblygiad cadarnhaol iawn ac rwy'n gobeithio y bydd modd edrych ar ffyrdd i ddelio â'r un broblem mewn ardaloedd eraill yng Ngheredigion dros y misoedd nesaf.

Yn olaf, rwyf wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau ar draws Ceredigion yn ystod y mis diwethaf, gan gynnwys bore coffi llwyddiannus y Maer yn Aberystwyth. Roeddwn hefyd yn falch i allu mynychu dangosiad arbennig yn y Senedd o ffilm am Fynyddoedd y Cambria a chael cyfle i gwrdd â thrigolion o'r ardal.

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Dantethion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045

Terry Jones



Ffotograffydd

www.terrywjones.co.uk

1 Cwrt Deri

Cwmann

Llanbedr Pont Steffan

01570 421 173

07970825724

**MILFEDDYGON
STEFFAN**

Llanbedr Pont Steffan

a Thregaron

01570 422322

www.steffanvets.com

9 - 9.30am Dydd Llun i Ddydd Gwener
Meddygfa Agored.

1.30 - 2.30pm Dydd Llun i Ddydd Gwener
Apwyntiadau.

6 - 6.30pm Dydd Mawrth a Dydd Gwener
Meddygfa Agored.

9 - 10am Dydd Sadwrn **Meddygfa Agored.**

Oriau Swyddfa 9am - 5pm Dydd Llun i Ddydd Gwener
heblaw Dydd Mercher 9am i 4pm.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Daniel Davies, Llys Helen a Helen James, Cwmann ar eu dyweddiad dros y gwyliau Nadolig, a dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt ar gyfer y dyfodol. Roeddent ar eu gwyliau yn Efrog Newydd, ac ar gopa yr 'Empire State Building' pan ofynnodd Daniel y cwestiwn. Pwy fedrai wrthod?

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Richard Phillips, Werndywyll a Carys Thomas, Penywaun – y ddau ohonynt wedi dathlu eu pen-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Ray Davies, Peronne, a'r teulu oll, yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Mrs M.E. Davies, Tyncoed, Cellan. Yn yr un modd, cydymdeimlir â Mrs Rhiannon Lewis, Llwynberllan ynghyd â'r teulu yn dilyn marwolaeth ei thad, Mr John Gareth Matthews, Bronhaul, Bronwydd.

Diolch

Dymuna Mrs Ray Davies, Peronne a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli brawd a chwaer annwyl yn ddiweddar.

Neuadd Bro Fana

Ar y 6ed o Ragfyr, cafwyd cyfle i groesawu Parti Cut Lloi o Sir Drefaldwyn ynghyd â'u harweinydd, Sian James, i'r Neuadd i gynnal Noson Lawen. Braf oedd gweld y Neuadd yn llawn, a phawb yn mwynhau yr amrywiaeth o adloniant a gyflwynwyd. Llywydd y noson oedd Mrs Gladys Lewis, Dyffryn, Cae Dash, ac roedd yn hyfryd gael y cyfle i'w chroesawu 'nôl i'r ardal a hithau bellach wedi ymgartrefu yn Llanbedr Pont Steffan.

Cynhaliwyd Cinio Blynyddol y Cyngor Rheolaeth yng Ngwesty'r Llew Coch, Llangadog ar y 19eg o Ragfyr, a chafwyd noson hwylus dros ben, a phryd bwyd blasus. Diolch i berchnogion a staff y gwesty am y croeso arbennig. Diolch i Ethel Davies a Judy Jenkins am drefnu'r cwis a'r raffl eleni eto.

Mae'r Cyngerdd a'r Noson o Garolau a gynhelir yn y Neuadd ar y Sul cyn y Nadolig bellach yn draddodiad yn yr ardal, ac fel arfer, 'roedd aelodau'r capeli a'r Eglwys leol yn barod i gymryd at y rhannau arweiniol a chynulleidfa dda yn ymuno i ganu'r carolau. Eleni, croesawyd Ina Morgan, Llanfynydd yn unawdydd, a chafodd y gynulleidfa ei swyno gan ei chanu. Diolch i Ina a Meinir Jones Parry, Caerfyrddin a oedd yn cyfeilio. Mae elw'r noson i'w gyflwyno i elusen 'Ffagl Gobaith' yng Ngheredigion.

Nos Sadwrn y 24ain o Ionawr,

cynhaliwyd cyngerdd clasurol yn y Neuadd gyda Cherddorfa Siambr Llanbedr Pont Steffan a'r pianydd Angela Brownridge. Perfformiwyd dau ddarn enwog sef yr Emperor Concerto gan Beethoven, a Symffoni Rhif 5 gan Schubert. Roedd y Neuadd yn llawn ar gyfer y perfformiad a phawb wedi mwynhau noson o gerddoriaeth safonol – a gwydryn o win twym.

Eglwys Llanyerwys

Llongyfarchiadau i'r Gwir Barchedig Andy John ar gael ei ethol yn Esgob Bangor. Yn ei wasanaeth olaf yn Ficer Llanyerwys, cyflwynodd Wardeniaid yr Eglwys, Mrs Judy Jenkins a Mrs Charlotte Morgan, rodd iddo yn arwydd o werthfawrogiad am ei wasanaeth yn y Plwyf ac i ddymuno'n dda iddo ef a'i deulu ym Mangor. Ymunodd aelodau o Eglwys Llanyerwys gydag aelodau o Blwyf Pencarreg mewn cinio yng Ngwesty'r Glyn Hebog i ffarwelio â'u ficer wrth iddo baratoi i symud i'r gogledd.

Yn y llun, gwelir Mrs Judy Jenkins a Mrs Charlotte Morgan yn cyflwyno rhodd i'r Gwir Barchedig Andy John wrth iddo ymadael â'r ardal i'w sefydlu yn Esgob Bangor.

Cynhaliwyd cyngerdd dan nawdd Eglwys Llanyerwys yn y Neuadd nos Sadwrn y 29ain o Dachwedd gyda Chôr Bois y Castell, Llandeilo. Llywydd y noson oedd y Dr. John David, Henffordd, brodor o'r ardal. Cafwyd cyngerdd gwych a'r gynulleidfa wedi mwynhau'r adloniant yn fawr iawn. Cafodd y noson ei noddi gan Banc Barclays drwy'r cynllun £1 am £1, a diolchwyd i Lowri Davies o Fanc Barclays am ei chymorth parod. Llwyddwyd i wneud elw o £2,021 tuag at yr Eglwys. Llun ar dudalen 22.

Y nos Lun ganlynol, cafwyd Gyrfa Chwist flynyddol yr Eglwys gyda Mrs Eleri Davies, Cothi Vale yng ngofal y gweithgaredd.

Archif Luniau

Yn dilyn prosiect a sefydlwyd ddechrau 2008 i greu archif o hen luniau sy'n berthnasol i fywyd ym mhlwyfi Cynwyl Gaeo a Llanyerwys, profodd y cynllun yn llwyddiant mawr gyda thros 1500 cant o luniau wedi eu sganio a'u cadw ar gyfrifiadur. Ar yr 31ain o Ionawr a'r 1af o Chwefror 2009, cynhelir arddangosfa o ryw 200 o'r lluniau yma yn y Neuadd fel bod cyfle i'r rhai a ddaeth â'r lluniau, a'r rhai hynny a fu wrthi yn cofnodi'r holl wybodaeth, weld cynnyrch yr ymdrech. Bydd y penwythnos yn agored i bawb, ac yn ogystal â'r lluniau fydd wedi eu hargraffu, bydd cyfle i weld y gweddill ar gyfrifiaduron yn y Neuadd. Mae'n archif arbennig gydag amrywiaeth

Cyflwyno



Yn 2008, 'roedd Mr a Mrs Gomer Davies, Troed y bryn yn dathlu nifer o ddigwyddiadau pwysig yn eu bywydau, ond 'roeddent yn bendant nad oeddent am dderbyn anrhegion. Yn lle hynny, estynnwyd gwahoddiad i'w teulu a'u cyfeillion, os oeddent yn dymuno, gyfrannu arian tuag at ddwy elusen a ddewiswyd ganddynt, sef 'Tenovus' a 'RABI'. Derbyniwyd cyfanswm o £3,600, a rhoddwyd £1,800 i 'Tenovus' a £900 yr un i 'RABI' yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin. Cyflwynwyd yr arian i gynrychiolwyr yr elusennau mewn noson arbennig yn Neuadd Bro Fana nos Fawrth, yr 2ail o Ragfyr. Dymuna Mr a Mrs Davies ddiolch i bawb am eu haelioni.

Yn y llun uchod gwelir Mr a Mrs Gomer Davies yn cyflwyno sieciau i gynrychiolwyr elusennau 'Tenovus' a 'RABI'.

eang o luniau yn olrhain bywyd yr ardal yma dros gyfnod o ganrif a mwy. Cofiwch felly alw heibio i weld y lluniau.

Ambiwlans Awyr Cymru

Llongyfarchiadau i Lowri Davies ar ei llwyddiant yn rhedeg Hanner Marathon Caerdydd ym mis Hydref 2008. Llwyddodd i godi £1,755 tuag at Ambiwlans Awyr Cymru, ac yn ogystal â chael ei noddi gan lu o ffrindiau a theulu, derbyniodd hefyd nawdd oddi wrth ei chyflogwyr, Banc Barclays, drwy'r cynllun £1 am £1.

Parc Bro Fana

Mae'r cytundeb bellach wedi ei osod i ddatblygu Parc Chwarae i'r plant ar Barc Bro Fana. Derbyniodd y Parc grant oddi wrth Gronfa'r Loteri Fawr i ddatblygu'r adnodd pwysig yma ar gyfer plant yr ardal, ac mi fydd cwmni Kompan yn dechrau ar y gwaith yn gynnar yn y gwanwyn.

Mae CLONC ar werth yn:

- Awen Teifi, Aberteifi
- Caxton, Llambled
- Compton, Llanybydder
- Eryl Jones, Llambled
- Garej Checkpoint, Harford
- Garej LSS, Llandeilo
- Glennydd, Cwrtnewydd
- Gwasg Gomer, Llandysul
- Inc, Aberystwyth
- J H Williams, Llambled
- Lomax, Llambled
- Medical Hall, Tregaron
- Siop y Bont, Llanybydder
- Aeron Booksellers, Aberaeron
- Siop Llangybi
- Siop y Cennen, Rhydaman
- Spar, Llanybydder
- Swyddfa Bost, Felinfach
- Swyddfa Bost, Llanllwni
- Swyddfa Bost, Llanwnnen
- Swyddfa Bost, Pontsian
- Tafarn Cefnhafof, Gorsgoch
- Tafarn Glanyrafon, Talgarreg
- t-hwnt, Caerfyrddin
- W D Lewis a'i Fab Pumsaint

Cellan

Capel Undodaidd Caeronnen

Am 5.00 o'r gloch ar brynhawn Sul olaf y flwyddyn, 28 Rhagfyr 2008, cynhaliwyd Gwasanaeth y Gannwyll yn y capel. Croesawyd pawb i'r gwasanaeth gan y Parchedig Cen Llwyd. Cymerwyd rhan gan Rhian Armstrong, Heledd a Gwenllian Llwyd, Lowri Daniel a Pharti'r Gannwyll. Y cyfeilyddion oedd Ceinwen Roach, Lena Daniel a Carys Evans. Casglwyd at waith Ffagl Gobaith a Chronfa'r Capel.

Ar ddiwedd y gwasanaeth darparwyd lluniaeth a oedd wedi ei baratoi gan deulu Nantgwyn a diolchwyd iddynt am eu cyfraniadau hael.

Cynhelir y gwasanaethau arferol yn y capel unwaith y mis am 3.00 y prynhawn a hynny ar Sul olaf pob mis. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlo

Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Maggie Evans, Ty'n Coed. Estynnwn gydymdeimlad mawr â Melfyn, Delia a'r teulu oll.

Dydd Calan

Braf oedd gweld yr hen draddodiadau yn cael eu parchu Ddydd Calan gyda theuluoedd Glanteifi a Llys y Barcud wedi ymdrechu i hel calennig o gwmpas y pentref. Codwyd swm sylweddol i ddechrau cronfa Cellan tuag at Apêl Eisteddfod yr Urdd. Go lew chi!



Drefach a Llanwenog

Diolch

Dymuna teulu'r diweddar Bill Evans, Vale of Cledlyn, Drefach, ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Carwyn Lewis, Gwarcoed Einon ar ei lwyddiant yn y Ffair Aeaf yn Llanellwedd gyda'r "Gwartheg Duon Cymreig", ac hefyd yn y Sioe yng Nghastell Newydd Emlyn.

18 oed

Dathlodd Dwynwen Hedd, Penpompren ei phen-blwydd yn 18 oed yn ystod mis Ionawr.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Mair Davies, Dolwerdd a'r teulu ar golli ei brawd yng nghyfraith yn ddiweddar.

Y Gymdeithas Hŷn

Cyfarfod mis Ionawr: croesawyd pawb yn gynnes i Festri Capel y Groes gan Dilwen George y Cadeirydd, a diolchodd i wragedd y capel am eu croeso hwythau.

Cydymdeimlwyd â thair o aelodau yn eu profedigaeth wrth golli brawd-yng-nghyfraith; dymunwyd gwellhad i'r rheiny sydd heb fod yn hwylus yn ddiweddar, a chyfarfod tair o aelodau ar ddathlu pen blwydd yn ystod y mis.

Darllewyd cofnodion mis Rhagfyr, a gynhaliwyd ym Mrynteg, gan yr ysgrifennydd, cyn mynd ati i ddewis rhai mannau i ymweld â nhw yn ystod yr haf: Ebrill - Amgueddfa Aberystwyth; Mai - Caerffili; Mehefin - Wrecsam ac Erddig. Pleser y Cadeirydd oedd cael cyflwyno'r gŵr gwadd, sef y Parchedig Cen Llwyd, a rhoddodd ychydig o'i gefndir i'r aelodau. Testun ei ddarlith oedd "Jacob", - sef y Parchedig Jacob Davies, Alltyblaca. Rhoddodd hanes y gŵr annwyl, aml dalentog hwn. Roedd yn adnabyddus fel bardd, llenor, storiwr, hanesydd, golygydd, sgriptiwr, arweinydd a beirniad eisteddfodol, darlledwr, a gwleidydd, ond yn fwy na dim, fel pregethwr. Cyhoeddodd 18 o lyfrau; bu'n ysgrifennu colofn wythnosol i'r Cymro am 10 mlynedd; ysgrifennodd 3,000 o sgriptiau radio; golygodd sawl cylchgrawn, Yr Ymofynnydd am 27 mlynedd. Ef oedd y Cymro cyntaf i'w ethol yn Llywydd yr Undodiaid dros Brydain gyfan. Doedd dim pall ar ei ddoniau, yn y llon a'r lleddf. Dyfynnodd Cen sawl enghraifft o'i waith, a'r aelodau wrth eu bodd yn eu clywed. Diolchwyd yn ddiffuant i Cen Llwyd gan Irene Jones, hithau'n cofio cymryd rhan mewn cyflwyniad

Rhaglen Nodwedd o waith Jacob. Mwynhawyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan chwiorydd Capel y Groes, a diolchwyd iddynt gan Eluned James. Enillwyd y raffl gan Irene Jones, Annie Bowen a Dilwen George.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Eglwys Llanwenog, ar Chwefror 11eg, pan fydd Ieuan Roberts yn sôn am ei daith i Batagonia.

Cymorth Cristnogol

Caed ymateb gwyh dros gyfnod y Nadolig oddi wrth gapeli Alltyblaca, Capel y Cwm, Capel y Bryn, Seion, Brynhaod, Capel y Groes, Bethel, Brynteg, ac Eglwys Llanwenog. Daeth cyfanswn y casgliadau a'r cyfraniadau yn £299-90. Diolch yn fawr i chi gyd.

Eglwys Santes Gwenog

Mae'r Nadolig wedi hen ddiflannu, ond pleser yw cofnodi rhai digwyddiadau. Cafwyd perfformiad gwyh gan blant ysgol Llanwenog yn eu drama 'Santa ar Streic'. Mwynhaodd y gynulleidfau luosog eitemau ar lafar, cân ac offeryn - y cyfan yn safonol iawn. Diolch i'r Brifathrawes Miss Heddwyn Davies, Mrs Margaret Evans, a'r staff i gyd am hyfforddi'r plant mor drwyadl. Rhoddwyd rhan o'r casgliad at elusen 'Build Africa'.

Nos Sul 22ain o Ragfyr cynhaliwyd Cymanfa Ganu gan drefnwyr cylch yr Urdd. Gyda tharged ariannol yr ardal wedi ei gyrraedd, noson gymdeithasol oedd hon dan arweiniad medrus Manon Richards, Lowtre a Carys Evans, Penffordd yn cyfeilio. Diolchodd Y Parch Bill Fillery i'r tair ysgol leol am eu cyfraniadau.

Noswyl y Nadolig, daeth cynulleidfau dda i ymuno gyda'r ficer yng ngwasanaeth y Cymun Bendigaid. Bu'r gwagedd yn brysus yn addurno'r adeilad hynafol â gosodiadau celfydd iawn. Diolch i bawb fu'n cynorthwyo, ac i deulu Rhydiau am eu rhodd o goeden ysblennydd.

Daeth tristwch ddechrau'r flwyddyn gyda'r newydd fod Edward Evans (Ned) Quarry Villa, Gorsgoch wedi darfod. Bu'r angladd cyhoeddus ar y 5ed o Ionawr yng ngofal y Parch Bill Fillery a thalwyd teyrnged i Ned gan y Parch Goronwy Evans. Roedd Ned yn hannu o deulu Romani a ymgartrefodd yng Ngorsgoch. Fe'i ganed mewn carafan cyn i'r teulu ymsefydlu yn Quarry Villa, ei rieni yn barchus iawn yn y gymdogaeth, ac adnabuwyd hwy fel Mr a Mrs Evans, Quarry Villa, yn wahanol i bobol cefn gwlad a alwyd wrth eu henwau cyntaf gyda'u crefft yn dilyn! Cydymdeimlwn â'i chwaer Annie, a'i frodyr Malcolm a Billy.

Cofiw'n am yr aelodau sy'n anhwylyd, Mrs Eva Davies yn

Ysbyty Glangwili, Mrs Moira Bone a Mrs Bronwen Jones, Greenhill sy'n sâl yn eu cartrefi.

Enillwyr Clwb 100 Rhagfyr. Elizabeth Fillery £15. Viria Jones £10. Dan Jones £5.; Gwobrau bonws o £5 yr un i Iwan Brain; Huw Morgan; Geoff Bone; a Nancy Light Fillery.

Ysgol Llanwenog

Yn ôl cynnig y Parch. B. Fillery, cytunwyd cyfuno'r arian a gasglwyd yng Ngwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Llanwenog ag Ysgol Llanllwni. O ganlyniad danfonwyd £90 at 'Build Africa Chicken-Rearing Project'. Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd yr ysgol. Oherwydd eich ymdrechion mae nifer o bobl sy'n llawer llai ffodus na ni wedi elwa.

Cafwyd ddiwrnod hynod o lwyddiannus ar 'Ddiwrnod Plant Mewn Angen' pan gawsom wledd o eitemau amrywiol yn ein 'Sioe Talent Llanwenog'. Bu'r plant yn ddiwyd iawn yn casglu eu ceiniogau i orchuddio Pudsey. Braff oedd eu gweld wedi gwisgo dillad ffansi lliwgar a diddorol iawn. Diolch hefyd i holl aelodau staff yr ysgol a wnaeth gyfrannu at lwyddiant y dydd. Braff yw nodi ein bod wedi casglu swm anrhydeddus o £152.52 at yr achos teilwng yma.

Mae Adran Urdd yr Ysgol yn cwrdd ar nos Lun ac mae bron pob plentyn yn yr Adran Iau a blwyddyn dau yn cyfarfod bob bythefnos. Trefnwyd cwis y tymor diwethaf, ac roedd y cystadlu yn frwd! Mwynhaodd y plant gymryd rhan gan ymdrechu'n galed i geisio datrys amryw o bosau a baratowyd ar eu cyfer gan Ms Nia Evans. Diolch hefyd i Mrs Lucy Jones a Mrs Carys Davies sy'n cydweithio gyda Nia er mwyn paratoi a rhedeg yr Adran. I gloi'r tymor cafwyd sesiynau Crefftâu'r Nadolig a noson Disgo a Pharti Nadolig.

Ar ddiwrnod braff arall o Hydref cerddodd y Babanod draw i Fferm Bwlchmawr, sef fferm tad-cu a mam-gu Sioned Fflur, i weld yr amrywiol anifeiliaid. Ar ôl edmygu'r moch a'r cŵn bach, gweld y gwartheg a'r ieir, croesawyd pawb i'r tŷ yn gynnes iawn gan Mr. a Mrs. Davies a oedd wedi paratoi gwledd arbennig ar ein cyfer. Carwn fel ysgol ddiolch o galon i deulu Bwlchmawr am eu gwahoddiad a'u croeso twymgalon i ni fel ysgol. Edrychwn ymlaen yn awr at weld yr ŵyn bach yn y gwanwyn!

Cymerodd blant hŷn yr ysgol ran mewn Gŵyl Rygbi ym mis Tachwedd. Cynhaliwyd yr ŵyl ar gaeau Ysgol Uwchradd Llanbed. Yn ystod y dydd cafodd y plant y cyfle i chwarae nifer helaeth o gêmiau a buont yn ddigon ffodus i fedru chwarae gyda'u ffrindiau o

Ysgol Cribyn mewn nifer ohonynt. Diolch i Gareth Williams, swyddog WRU, am drefnu'r achlysur gystal. Edrychwn ymlaen at yr un nesaf yn nhymor y Gwanwyn!

Treuliodd Ms Annwen James o Landysul gyfnod o dair wythnos yn cynorthwyo yn y Dosbarth Babanod. Diolch iddi am ei hymroddiad a gobeithiwn ei chroesawu yn ôl i'r ysgol yn fuan iawn eto.

Cynhaliwyd gweithdy 'Crefftiau ar gyfer y Nadolig' i'r Dosbarth Babanod, Cylch Meithrin Gwenog a'r rhieni. Darparwyd yr holl adnoddau a'r hyfforddiant gogyfer â'r gweithdy gan Ms Karen Edwards sy'n gweithio i 'Sgiliau Sylfaenol Cymru'. Diolch yn fawr iawn iddi am drefnu'r gweithdy.

Ddiwedd mis Tachwedd cawsom noson gymdeithasol o Fingo gyda'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon a Chylch Meithrin Gwenog yng Nghlwb Rygbi Llanybydder. Roedd yn fendigedig gweld cymaint wedi dod i gefnogi ac i fwynhau'r Bingo. Cafwyd arwerthiant ar gyfer pâr o docynnau i'r gêm rygbi rhwng Cymru ac Awstralia. Diolch i Mr & Mrs O'Keeffe am y tocynnau ac i Mr. Mark Evans am werthu. Diolch hefyd i bwyllgor Cylch Gwenog am gynnal y noson.

Cymerodd Nancy Doyle, Ffion Evans a Carys Jones ran yng nghyngerdd Cerddorfa Ceredigion yn Neuadd Ciliau Aeron ddechrau mis Rhagfyr. Mae'r plant yn ffodus iawn i gael y cyfle yma i berfformio gyda disgyblion o ysgolion eraill. Llongyfarchiadau iddynt ar eu perfformiad cofiadwy a graenus.

Teithiodd disgyblion Dosbarth y Babanod ynghyd â disgyblion Ysgol Feithrin Gwenog i Bentre Bach i weld Siôn Corn ac roedd anrheg ganddo i bawb yn ei sach! Mwynhaodd y plant sgwrsio gydag ef a chyn troi am adre buont yn canu eu hoff ganeuon Nadolig iddo.

Ac yn ôl ei arfer fe wnaeth Siôn Corn ymweld â'r ysgol ar ddiwrnod ein parti Nadolig. Diolch i bawb a wnaeth y diwrnod yn un mor lwyddiannus. Mwynhaodd y staff a'r plant hefyd ginio Nadolig blasus iawn eleni eto wedi ei baratoi yn arbennig ar ein cyfer gan Ms. Eleri Davies, ein cogyddes. Diolchwyd iddi am ei gwaith diflino gan Jac Jones ac Anna Evans.

Perfformiwyd ein sioe Nadolig ni eleni sef 'Santa ar Streic' yn Eglwys Santes Gwenog y pnawn Sul cyn i'r ysgol gau am y gwyliau. Braff oedd gweld yr eglwys yn orlawn gyda chefnogaeth y gymuned gyfan. Roedd y plant yn amlwg wedi mwynhau perfformio'r sioe ddifyr yma a chlodforwyd hwy gan bawb a ddaeth i'w gweld. Diolch i'r Ficer ac aelodau'r eglwys am ein gwahoddi ni eleni eto.

Ddechrau'r tymor yma croesawyd

dri disgybl newydd i Ddosbarth y Babanod sef Ceinwen Lloyd, Sam Lewis a Sion O’Keeffe ac maent i weld yn ymgartrefu’n dda yn ein plith.

Cawsom hwyl a sbri ym mhantomeim ‘Mam, Martyn a’r Wyau Aur’ yn Theatr Felinfach y mis diwethaf. Roedd y perfformiad yma yn bendant at ddant pawb a aeth o’r ysgol!

Hefyd y mis diwethaf aeth disgyblion Blwyddyn 5 a 6 i Ysgol Cwrtnewydd i wyllo perfformiad ‘Merched y Gerddi’ gan Gwmni Arad Goch. Diolch yn fawr am y croeso cynnes a gawsom.

Cylch Meithrin Drefach

Croeso cynnes i’r cylch i’r canlynol – Beca Jones, Luned Jones a Kieran Herbert. Pob hwyl i Sam Lewis, Lilly Smith a Maria Thorley yn eu hysgolion cynradd.

Bu’r cylch yn ymweld â Phentre Bach adeg y Nadolig i gwrdd â Siôn Corn, Sali Mali a Bili Bom Bom. Cafwyd ymweliad gan y dyn pwysig yn y Cylch hefyd ddiwrnod ein Parti Nadolig.

Cofiwch am ein Noson Bingo yn Nhafarn Cefnhafod, Gorsgoch nos Iau, Mawrth 5ed am 7:30. Dewch yn llw.

Cylch Meithrin Drefach

I blant rhwng 2 a 4 oed

Ar agor o ddydd Llun – Iau

9:00 – 11:45y.b.

Cysylltwch â Delyth Jones
07854 091043

C.F.F.I Llanwenog

Wel, mae amser yn hedfan, blwyddyn arall wedi dod i ben. Cyn dechrau’r adroddiad, hoffem fel clwb ddymuno blwyddyn newydd dda i holl ddarllenwyr Clonc.

Llongyfarchiadau hefyd i Gwennan a Siwan, Llysderi ar eu llwyddiant yn eisteddfodau’r mudiad. Daeth stori fer Gwennan yn ail yn Eisteddfod y Sir a cherdd Siwan yn 3ydd yn Eisteddfod Cymru.

Ddiwedd mis Tachwedd, daeth amser y cwis blyneddol unwaith yn rhagor. Braf yw datgelu fod y clwb wedi dod yn drydydd yn yr adran gyffredinol ac yn yr amaeth, ac felly yn drydydd yn y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Ar yr 8fed o Ragfyr, fe deithiodd nifer o’r aelodau i weld panto blyneddol Felinfach. Cawsom noson ddifyr iawn a braf oedd gweld rhai o aelodau’r clwb yn cymryd rhan. Yna, mynd i ddawnsio twmpath yng

nghwmni aelodau Dyffryn Cothi dan arweiniad Erwyd Howells ar y 15fed o Ragfyr. Braf oedd gweld rhieni, arweinyddion a’r aelodau iau a hŷn yn mwynhau’r dawnsio.

Llongyfarchiadau i Geraint Hatcher am ennill y dartiau twrci a gynhaliwyd ar y 12fed o Ragfyr yng Nghefen Hafod. Gobeithio o’dd y twrci’n flasus!

Ar yr 22ain o Ragfyr, bu’r clwb yn brysur yn mynd o amgylch y plwyf yn canu carolau. Fe gasglwyd £1,077 a fydd yn mynd at goffrau’r clwb ac at elusen C.F.F.I Cymru am eleni, sef Diabetes UK.

Cafodd y clwb lwyddiant mawr yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus Cymraeg y sir yn ddiweddar. Dyma’r canlyniadau. O dan 26 oed, fe ddaeth Manon Richards yn gyntaf fel siaradwr a Rhian Bellamy yn fuddugol fel cadeirydd. Daeth Llyr Davies yn 3ydd fel Cadeirydd a Tim Llanwenog A yn gyntaf sef Manon, Rhian, Lyn a Helen. O dan 21oed, daeth Cerys Jones yn 1af fel siaradwr ac Enfys Hatcher yn 1af fel cadeirydd. Y tîm unwaith eto yn fuddugol sef Enfys, Cerys, Steffan a Heilin. Yna o dan 16 oed, daeth Carwyn Davies yn 3ydd fel siaradwr, Bleddyn Jones yn drydydd fel diolchyd a’r tîm sef Carwyn Davies, Bleddyn Jones a Wyn Davies yn gydradd ail. Cafodd y tri thîm dan 14 saffleoedd arbennig o dda hefyd. Felly drwy gyfraniad yr holl aelodau a fu’n cystadlu, daeth y clwb yn fuddugol ar ddiwedd y tair noson o gystadlu. Mae’n amlwg fod siaradwyr o fri yn y clwb. Pob lwc i bawb a fydd yn teithio i Ruthun i gynrychioli’r sir ddiwedd mis Mawrth yng nghystadleuaeth Cymru.

Noswaith o bouncy boxing oedd ar ein cyfer ar y 12fed o Ionawr yn Ysgol Llanwenog. Pwy a ŵyr, efallai fod y Joe Calzaghe nesa yn ein plith. Ar y 19eg o Ionawr fe gafodd y clwb noson yng nghwmni ein llywyddion am eleni, sef Huw a Nans Davies, Bryndolau. Mae’n siŵr bod ein haelodau yn llawer mwy sicr am arwyddion ffordd a symbolau golchi dillad erbyn hyn!

Llongyfarchiadau mawr i Manon Richards a lwyddodd i gael ei dewis i deithio i Kenya ym mis Awst gyda NFYFC. Gobeithio y cei di brofiad gwyh ac edrychwn ymlaen at glywed yr hanes. Llongyfarchiadau i un o arweinyddion y clwb, sef Rhian Thomas ar ei dyweddïad â Gethin Jones. Dymunwn bob hapusrwydd i chi’ch dau.

Felly rydym ar hyn o bryd yn ymarfer ar gyfer cystadleuaeth y Panto. Fe fydd y clwb yn perfformio ar nos Iau y 19eg o Chwefror yn Theatr Felinfach. Ond cyn hynny, rhaid cael noson i ymlacio yn ein cinio clwb blyneddol a gynhelir ar y 7fed o Chwefror. Fe gewch yr hanes i gyd yn y rhifyn nesa.

Llanybydder

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Dylan Davies, 1 Tynffordd, Rhydybont ac Elen Evans o Bancyfelin ar eu dyweddïad yn ystod mis Rhagfyr.

Hefyd, llongyfarchiadau i Rhian Thomas, Gelliern a Gethin Jones, Mynachlog, Talgarreg ar eu dyweddïad hwythau ddechrau 2009. Dymuniadau gorau i chwi eich pedwar i’r dyfodol.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Linda a Noel a’r teulu, Cadwyn Aur ar golli tad, tad yng nghyfraith a thad-cu annwyl ym mherson Wil Rees, o Gynwyl Elfed.

Cydymdeimlir yn ddwys hefyd â theulu’r diweddar Wil Evans, 21 Heol-y-Gaer a fu farw yn ystod y mis.

Cymdeithas Chwiorydd Aberduar

Bu’r Parchedig Eirian Wyn Lewis, Mynachlog Ddu, un o blant eglwys Aberduar, yn y festri prynhawn dydd Iau Tachwedd 27, yn rhannu â ni ei brofiadau amrywiol wrth deithio amryw o wledydd y byd. Yn ystod ei ymweliadau â’r Amerig, ac i Batagonia, mae wedi cyfarfod nifer fawr o bobl ddiddorol – nifer ohonynt yn parhau i siarad Cymraeg, er wedi bod yn alltud o’r hen wlad ers nifer fawr o flynyddoedd.

Diolchwyd iddo am brynghawn dymunol dros ben gan y Trysorydd, Ogwen Evans.

Cyn troi am adref cafwyd paned o de a bisgedi a baratowyd gan Ogwen Evans ac Edith Davies.

Fe fydd y chwiorydd yn cwrdd nesaf ar Chwefror 23, i drafod yr Arwerthiant Blyneddol a fydd yn cael ei gynnal ar Fawrth 18. Agorir y noson gan Marc Griffiths (Tower Cottage gynt).

Diolch

Dymuna Ray Davies, Crug, ddiolch yn ddiffuant am y cyfarchion, cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Roedd yn braf ail gysylltu â chymaint o hen ffrindiau hoffus. Diolch yn fawr iawn a Blwyddyn Newydd Dda.

Hoffai Mrs Lena Williams, gynt o 31 Heol-y-Gaer ddiolch am yr holl gardiau ac anrhegion a gafodd dros y

Nadolig.

Cerdd

Dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol llwyddodd y canlynol yn eu harholiadau cerdd a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar:

Ysgrifenedig Gradd 5 Saxophone gyda theilyngdod - Gareth Davies, Llys Enwyn.

Piano Gradd 1 – Betsan Jones, Highview, Llanllwni gyda theilyngdod.

Piano Gradd 2 – Ruth Davies, Llwyneclyn

Piano Gradd 4 – Meleri Davies, Tynrug-Isaf, Llanwenog gyda theilyngdod.

Llongyfarchiadau i chi gyd.

Gyrfa Chwist

Cynhaliwyd Gyrfa Chwist lwyddiannus iawn yn Neuadd yr Eglwys Llanybydder nos Fercher yr 17 o Ragfyr. Dyma’r gyntaf o dair sydd yn cael eu trefnu gan Jack Jenkins Gelli House.

Enillwyd y sgôr uchaf gan Marged Davies Ffostrasol. Dynion-Cyntaf – Brian James Trelech; Ail Brynmor Morris Llanybydder; Merched – Nancy Davies Llambod; Ail – rhannu rhwng Margaret Jones Llanbed, Beryl Roach Felinfach a Mari Thomas Talgarreg. Rhoddwyd y gwobrwyon gan deulu Morgan Siop y Bont Llanybydder a George Thomas Tymawr.

Talwyd y diolchiadau gan Mair Evans o gangen Llanybydder o’r Gymdeithas Diabetes. Diolchodd i bawb am eu rhoddion at y chwist a’r raffl, am gefnogi’r chwist ac i Jack Jenkins am wneud yr holl drefniadau. Diolchodd hefyd i aelodau cangen leol y Gymdeithas Diabetes am baratoi’r bwyd.

Yn ystod y noson cyflwynodd Jack Jenkins dair siec o £900 yr un i Gymdeithas Brydeinig y Galon, Cancr UK Cymru a Diabetes UK Cymru, sef elw tair chwist Gaef 2007/2008.

Diolchodd swyddogion y tair elusen iddo am y siec ac am ei waith caled.

Gwellhad Buan

Braf yw gweld Tomos Wilson, Maes-y-fro adref o Ysbyty Glangwili yn dilyn ei ddamwain yn ddiweddar.



Rhifyn mis **Mawrth**

Yn y Siopau **Mawrth 5ed**

Erthyglau i law erbyn **Chwefror 23ain**

Newyddion i law erbyn **Chwefror 19eg**

Llanbedr Pont Steffan

Merched Y Wawr



Croesawodd ein llywydd, Janet, ni i'r cyfarfod cyntaf yn 2009. Dechreuwyd trwy ganu cân y mudiad gyda Margaret Jones yn cyfeilio. Braf oedd cael croesawu Rhiannon Jones nôl atom ar ôl llawdriniaeth. Diolchodd Rhiannon am y garden a'r consyrn a ddangoswyd tuag ati gan yr aelodau. Diolchodd Janet i bawb a fu'n diddanu yn Hafan Deg cyn y Nadolig. Cytunodd Ann Lewis a Gwen Jones ymweld ag Hafan Deg y mis yma.. Dewis cwmni wrth y bwrdd cinio oedd thema'r noson. Croesawodd Janet y panelwyr sef y Cynghorydd Odwyn Davies, Llangybi, Mattie Evans, Cribyn ac Andrew Jones, Cwmann. Y cadeirydd yng ngofal y grŵp oedd y cynghorydd Hag Harris. Wrth sôn am Andrew fel un o actorion 'Tân ar y Comin' ar S4C cyfeiriodd Janet at farwolaeth T. Llew Jones, brenin ein llên, a diolchodd am ei gyfraniad amhrisiadwy i Gymru. Bu sgwrsio difyr ymysg y panelwyr am eu gwesteion dethol. Dyma rai ohonynt, Ray Gravell, Shân Cothi, Caryl Lewis, John Roderick Rees, D Jacob Davies ac Elin Jones. Gwnaed y diolchiadau gan Elma Phillips, gan ddiolch am noson ddiddorol a hwylus. Diolchodd hefyd i Nell a Ray am baratoi'r te. Enillwyd y raffl gan Doli Yang. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun 9fed Chwefror. Croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni.

Ysgol Ffynnonbedr

Bu dau dîm yn cystadlu yn y Cwis Llyfrau iaith gyntaf. Derbyniodd y tîm cyntaf farciau llawn a'r ail dîm 152/158. Llongyfarchiadau i Rhys Jones, Leanne James, Sara Evans, Caitlin Page, Kelly Morgans, Hannah James, Gareth Jones, Sara Wyn Evans ac i'r eilyddion Osian Morgan a Rhiannon Davies.



Llongyfarchiadau i'r timau ail iaith ar dderbyn 120/138 a 118/138. Da iawn Daniel Davies, Thomas, Willoughby, Ryan McMullan, Robert Jenkins, Jordan Evans, Ellie Clements, Cara Rutter a Holly Kelly.

Dros y cyfnod diwethaf cawsom ymweliad gan ddau o weinidogion y Cynulliad sef Elin Jones, Gweinidog Materion Gwledig a Jane Hutt, Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

Treuliodd Elin Jones brynhawn gyda ni yn gweld yr ysgol ac yn sgwrsio gyda'r staff a'r plant.

Roedd ymweliad Jane Hutt yn un swyddogol. Ar sail llwyddiant yr ysgol yn y Cyfnod Sylfaen daeth i weld y broses ar waith a thrafod materion perthnasol gyda'r staff. Manteisiodd ar y cyfle, fodd bynnag, i weld y dosbarthiadau eraill yn yr ysgol hefyd ac i fwrw golwg dros y campws yn gyffredinol.

Braf nodi bod nifer o'r plant ym Mlwyddyn 6 wedi cael cyfle i dreulio bore'n y coleg yn ymwneud â phethau Tsieinaidd a mwynhau diwylliant diddorol y wlad honno. Roedd y gweithgareddau'n rhan o ddathliadau'r Flwyddyn Newydd Tsieinaidd. Da yw dweud hefyd fod ein Clwb Tsieinaidd wedi ail ddechrau'n yr ysgol.

Adran yr Urdd

Roedd rhamant yn yr awyr nos Lun Ionawr 12 yn yr Adran. Dangosodd Mrs Dawn Evans i'r aelodau sut i greu cardiau a sut i addurno pensiliau a oedd yn adlewyrchu cariad, yn llawn calonnau a rhosod. Yna, cafodd y plant gyfle i greu cardiau ar gyfer eu cariadon ac i baratoi ar gyfer dathliad Santes Dwynwen. Roedd pawb wedi mwynhau'n fawr ac rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth pobl yn y gymuned sy'n fodlon rhoi o'u hamser i weithio gyda'n pobl ifanc.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 9 yn cael ei gynnal unwaith eto yn neuadd Ysgol Gynradd Ffynnonbedr ac fe fydd Mrs D. Williams yn arwain yr aelodau mewn sesiwn goginio.

Cymdeithas Hanes

Daeth cynulliad da o aelodau a nifer o wynebau newydd eto i'r Hen Neuadd i gyfarfod mis Ionawr. Croesawyd pawb gan Selwyn Walters, y Cadeirydd, cyn iddo gyflwyno'r siaradwr gwadd am y noson - Gerald Morgan. Mae'n adnabyddus fel hanesydd, darlithydd efrydiau allanol o dan Brifysgol Aberystwyth, ac wedi cyhoeddi nifer o lyfrau ar hanes Ceredigion. Testun ei ddarlith oedd "Teulu'r Stedman o Ystrad Fflur". Er bod y teulu hwn wedi bod yn flaenllaw yn hanes Ceredigion, does yna'r un llun ohonynt wedi goroesi na llythyron y gŵyr neb amdanynt. Ond mae'n bosib fod rhywbeth mewn papurau sydd heb eu catalogio cyn belled. Felly rhyw rith o deulu ydyw wrth geisio dadansoddi ei hanes. Wedi dweud hynny, cyfareddwyd yr aelodau gan ddawn dweud Gerald Morgan, a chaed llawer iawn o hanes y Stedmaniaid dros ddwy ganrif, o'r adeg y prynwyd y Fynachlog Fawr gan John Stedman pan ddiddymwyd y mynachlogydd ym 1538 hyd at dranc y teulu pan fu farw Richard Stedman yn 1747, a dim plant i etifeddu'r lle ar ei ôl. Llyncwyd stâd Ystrad Fflur gan deulu'r Powell, Nanteos wedi hyn, teulu a oedd yn perthyn drwy briodas i deulu'r Stedman. Diolchwyd yn gynnes i Gerald Morgan am noson wefreiddiol gan y Cadeirydd. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Chwefror 17eg pan fydd Roger Clive-Powell yn rhoi hanes "Cadwraeth adeiladau yng Ngorllewin Cymru". Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Dymuna Aneurin, Tynffynnon, Maestir ddiolch o galon am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd wrth ddathlu ei ben-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch hefyd am gyfeillgarwch ffrindiau ar hyd yr

amser.

Dymuna Rhiannon Fronowen, Ffordd Maestir ddiolch am y cardiau, galwadau ffon, ymweliadau â'r cartref, a'r anrhegion a dderbyniodd yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforys yn ddiweddar.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y misoedd diwethaf.

Carol, Cerdd a Chân

Nos Sadwrn 20 Rhagfyr 2008 dathlwyd un flynedd ar hugain ers y Carol, Cerdd a Chân cyntaf nôl yn 1987. Mae'r gwasanaeth arbennig yma wedi ei gynnal yn Eglwys hardd Sant Pedr Llambed ers y dechrau ac mae'n rhoi awyrgylch hyfryd a nawws Nadoligaidd sydd yn ein paratoi yn berffaith at wir ystyr Gŵyl y Geni. Estynnodd y Canon Aled Williams groeso cynnes i'r gynulleidfa luosog a ddaeth i gefnogi ymdrech y pwyllgor lleol i godi arian tuag at waith Cymorth Cristnogol. Yr artistiaid eleni oedd Côr Meibion Cwmann a'r Cylch gyda'i arweinydd Mrs Elonwy Davies a'i cyfeilydd Miss Elonwy Pugh, a'r unawdydd poblogaidd Kees Huysman; Helen Davies, unawdydd swynol dros ben gyda'i chyfeilydd Mrs Margaret Jones; Ysgol Carreg Hirfaen a roddodd gymaint o bleser wrth chwarae offerynnau a chanu, a phrif ddisgyblion yr ysgol Uwchradd, Elin Jones, Luned Mair, Russel Pink a Sion Brown yn cymryd at y rhannau arweiniol a'r darlenniadau. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Mair Richards yn gynnes a diffuant dros ben. Cyfeiriodd yn arbennig at y Parch Beti Morris, ein cyn-gadeirydd, am ei hymroddiad ac am ei rhodd haelionus tuag at y noson. Soniodd hefyd am garedigrwydd y Parch Elwyn Jenkins wrth iddo gyflwyno elw ei lyfr 'Pwll, Pêl a Phulpud' tuag at waith Cymorth Cristnogol yn ystod y flwyddyn. Cyfeiriodd a diolchodd yn gynnes i bawb a oedd wedi cymryd rhan yn y gwasanaeth ac i'r porthorion wrth y drws sydd mor barod bob blwyddyn i gynorthwyo gyda'r gwaith. Diolchodd i Hazel Davies am drefnu'r gwasanaeth ac yn arbennig i'r gynulleidfa am gefnogi ein hymdrech bob blwyddyn. Bydd elw'r noson sef tua £600.00 yn cael ei drosglwyddo i Gymorth Cristnogol yn ystod yr wythnosau nesaf. Diolch o galon i bawb, gan gynnwys swyddogion Eglwys Sant Pedr am gael cynnal ein gwasanaeth yno.

Cylch Cinio

Deuddyn, Dr Emyr Jones a'r Bnr. Dafydd Morgan, yr olaf yn ei ddillad o wlad Nepal, a groesawyd gan y

Llanbedr Pont Steffan

Cadeirydd y Bnr. Ieuan Roberts i gyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd ar 8fed Ionawr yng Ngwesty'r Glyn Hebog. 'Byd o Deithio', oedd testun y siaradwyr, yn benodol eu taith gyda'u gwragedd i'r Himalayas yn 2003, sef blwyddyn dathlu gorchest Sir Edmund Hillary a Sherpa Tensing wrth ddringo Everest 50 mlynedd yn ôl. Gyda chasgliad o sleidiau gwych a chyflwyniad llawn hiwmor gydag ambell i sylw tafod yn y boch, tywyswyd yr aelodau ar daith ac antur arbennig gyda golygfeydd mynyddig rhyfeddol. Buom yn Kathmandu, yn hedfan gyda Yeti Airlines i faes glanio Lukla yn uchel yn y mynyddoedd, yn dringo llwybrau serth yn dilyn y criw a'u porteriaid, yn cael cipolwg ar eu profiadau yn gwersylla ac yn ymweld â Namege Bazaar, tref y Sherpa. Diddorol iawn oedd gweld baner Cymru yn chwifio yn yr eira ar babell un o'r siaradwyr ac yntau hefyd yn darllen copi o'r Western Mail yn un o fannau uchaf y byd. Cyrraedd 'Base Camp 1', dros 17,600 troedfedd o uchder uwchben lefel y môr oedd nod y daith. Nid y man mwyaf cofiadwy o safbwynt amgylchedd, mae'n debyg, ond yr oedd ei gyrraedd, bod mor agos at gopa Everest, ei weld mor glir a dychwelyd yn ddiogel yn amlwg wedi cyflawni holl obeithion y pedwarawd am y daith. Cyflwynwyd y diolchiadau am gyfarfod hynod diddorol gan Y Bnr. Eifion Davies.

Noddfa

Mae'r Ysgol Sul wedi ail ddechrau yn dilyn prysurdeb y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Braff oedd gweld 25 o bobl ifanc o Fethel, Caersalem a Noddfa yn cymryd rhan mewn oedfa arbennig i ddathlu'r Nadolig. Teimlwyd naws hyfryd yr ŵyl wrth fynd ar bererindod i Fethlehem mewn pennill a chân gyda phawb o'r lleiaf at yr hynaf yn cyflawni eu gwaith yn rhagorol. Yn ôl yr arfer cynlluniwyd a threfnwyd yr oedfa gan Janet ac fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth diflino ar hyd y flwyddyn cyflwynwyd anrhegion iddi ar ran yr Ysgol Sul gan Elan, Beca a Dafydd. Yn dilyn yr oedfa bu pawb yn mwynhau te parti ardderchog wedi ei drefnu gan Llinos, gyda chymorth y rhieni



eraill, yn Festri Brondeifi. Diolch yn fawr am gael defnydd y festri. Hyfryd oedd cael cwmni 10 o bobl ifanc o Awstralia, Seland Newydd, yr Amerig a'r Ffindir yn Noddfa mewn gwasanaeth arbennig ddydd Nadolig. Roedden nhw ar daith o amgylch y byd a daethant atom i gydaddoli oherwydd eu cysylltiad â Daniel, un o bobl ifanc Noddfa. Ar ddechrau'r flwyddyn bu criw o'r plant yn diddanu'r henoed yn Hafandeg. Cyflwynwyd amrywiaeth o eitemau safonol iawn yn cynnwys unawdau, adroddiadau a grwpiau canu. Roedd y preswylwyr wedi mwynhau'r adloniant yn fawr iawn ac wrth eu bodd yn gwrandao ar y plant. Diolchwyd yn gynnes iddynt am orig bleserus iawn. Cafwyd cyfle wedyn i fwynhau paned ac i sgwrsio â phawb. Ddydd Sadwrn 17 Ionawr, bu criw o'r plant a'u rhieni ac ambell i famgu ar ymweliad â'r Panto blynyddol yn Theatr y Werin Aberystwyth. Roedd pawb wedi joio mas draw gyda chanu, actio a dawnsio proffesiynol dros ben a'r cyfan yn lliwgar iawn ac yn llawn hwyl o'r dechrau i'r diwedd. Cyn hir bydd yn amser ymarfer ar gyfer oedfa'r Ifanc a gynhelir ar 29 Mawrth a'r Gymanfa Ganu a gynhelir eleni yng Nghaersalem gyda Twynog yn arwain – bydd rhaid paratoi yn drylwyr!

Oedfa Eciwmenaidd

Daeth cynulliad teilwng iawn ynghyd i Noddfa nos Iau 22 Ionawr i oedfa eciwmenaidd gyntaf y flwyddyn newydd. Roedd hon yn oedfa arbennig a gynhaliwyd yn ystod yr Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol ar y thema 'Cymoda dy Bobl'. Ar ran Noddfa croesawyd pawb yn gynnes iawn gan John Morgan ac Alun Williams. Braff oedd gweld cynrychiolaeth

Silian

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Owen Williams, Swyn y Coed, Silian ar ei llwyddiant mewn arholiad piano Gradd 8 dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol yn ddiweddar. Rhagorol Owen – dal ati.

Cartref Newydd

Croeso cynnes i Osian Williams a Nia Wyn Jones i Bwlchffin, Silian. Dymuniadau gorau i chi yn eich cartref newydd.

Pentrebach

Rhodd

Yn ddiweddar cyflwynodd Mrs Mary Davies, a'i merch Elaine, siec am £1,750 i elusen Ffagl Gobaith - arian a dderbyniwyd er cof am Mr David Davies, Awel Teifi, Pentrebach, Llanbed. Mae'r cyfanswm anrhydeddus yn dyst i barch cynifer at Mr Davies, a fu'n fet yn ardal Llandysul am flynyddoedd lawer ac yn gynghorydd hefyd.

Cydymdeimlo

Nos Sul, Ionawr 25ain yn Ysbyty Bronglais fu farw Mr Jack Jones, Culmore, priod y diweddar Megan, tad Gwyn a Dinah a thadcu annwyl ei wyrion. Adnabyddir ef o hyd gan ei ffrindiau fel Jack Caerfoel, Cribyn lle bu'n ffermio am flynyddoedd cyn ymddeol i Bentrebach. Roedd Jack yn ŵr tawel, diwylliedig, yn llawn hiwmor ac yn gymydog rhagorol. Estynnir y cydymdeimlad mwyaf dwys gyda'r teulu. Diolch am ei gwmniâeth a'i gyfeillgarwch dros y blynyddoedd.

Diolch

Hoffai Russell, Elin, Shawn, Natalie a Luned, prif swyddogion yr Ysgol Uwchradd ddiolch i'r holl fusnesau a gyfrannodd wobwr raffl tuag at eu 'Snow Ball' a gynhaliwyd ganol Rhagfyr. Fe lwyddodd y chweched dosbarth i godi swm sylweddol iawn o arian tuag at Ymchwil Cancer Cymru. Diolch i bawb am eu haelioni.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Jack a Barbara Jones, 12 Peterwell Terrace ar ddathlu eu Priodas Aur ar Chwefror 14eg.

Gwefannau Cymunedol Lleol:

Ardal Cymunedol Llangybi: www.llangybi.org.uk

Capel Bethel Parcyrrhos: www.bethel.btik.com

Clwb Cledlyn: www.clwb-cledlyn.org.uk

Clwb Moduro Llambled a'r ardal: www.ldmc.org.uk

Clwb Rygbi Llambled: www.clwbrygbillambled.org

Côr Cardi-Gân: www.corcardi-gan.com

Côr Meibion Cwmman: www.corcwmman.btik.com

Côr Merched Côrisma: www.corisma.btik.com

Ffarmers: www.ffarmers.org

Llanllwni: www.llanllwni.co.uk

Llanybydder: www.llanybydder.org.uk

Menter Llambled: www.lampeter.org

Papur Bro Clonc: www.clonc.co.uk

Plwyf Llanwenog: www.plwyflanwenog.com

Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan: www.llambled.ac.uk

Y Ford Gron Llambled: www.lampeterroundtable.org.uk

Ysgol Carreg Hirfaen: www.ysgolccc.org.uk/hirfaen

Ysgol Cwrtnewydd: www.cwrtnewydd.ceredigion.sch.uk

Ysgol Ffynnonbedr: www.fffynnonbedr.ceredigion.sch.uk

Ysgol y Dderi: www.ydderi.ceredigion.sch.uk

Os am ychwanegu at y rhestr, anfonwch ddolen at cadeirydd@clonc.co.uk

GORSAF BRAWF
MOT

GAREJ BRONDEIFI
Heol Llanfair
Llambled
SA48 8JX
Ffôn: 01570 422305
Ffôn Symudol: 07974 422305

PRIFIANI GŴCHU
CEIR PŴTH
AR AGOR
7 DIWRNOD YR
WYTHNOS

Dewch i ein safle newydd am wasanaeth prydlon a chyfeillgar

* Gwasanaethu ac Atgyweirio * Prisiau Cystadleuol am Deiers *
* Ffôn * Batris * Brêcs * Ceir Newydd ac Ail-law ar werth *

Ysgol Cyfun Llanbedr Pont Steffan



Cynhaliwyd Noson Wobrwyo yn Neuadd yr Ysgol nos Iau, Rhagfyr 18fed. Bu'n noson ddymunol iawn a braf oedd croesawu cynifer o ddisgyblion a chyn-ddisgyblion, a'u rhieni i'r ysgol. Y gŵr gwadd oedd Mr Gareth Jones, cyn-brifathro'r ysgol a chyn-gyfarwyddwr Addysg y Sir. Roedd yn bleser ac yn fraint i'w groesawu ef a'i wraig i'r ysgol a chlywsom araith ddifyr a ddiddorol iawn ganddo. Diolchwn iddo am gyflwyno'r tystysgrifau a'r gwobrau.

Yn ystod y noson cawsom glywed Adroddiad y Prifathro a bu ein prif swyddogion Elin Jones a Russell Pink yn cyflwyno uchafbwyntiau'r flwyddyn. Cawsom ein hannerch hefyd gan y dirprwy brif swyddogion Luned Mair, Natalie Moore a Shawn Brown. Diolchwn hefyd i Mrs Elaine Davies, Cadeirydd y Llywodraethwyr, am ei gwaith.

Cawsom ein diddanu gan nifer o ddisgyblion yn ystod y noson, a buont yn dangos eu doniau wrth berfformio eitemau cerddorol o safon uchel. Cafwyd perfformiad graenus a disglair gan Nerys Evans o flwyddyn 13, a fu'n canu 'Hero' gan Mariah Carey. Bu'r Ensemble S.A.T.B, sef Nerys Evans, Elliw Mair (Soprano), Elin Jones, Carys Thomas, Hedydd Davies (Alto), Rhydian Watkins, Chris Ashton (Tenor) ac Aled Wyn Thomas a Russell Pink (Bas) yn canu un o ganeuon Robot Arwyn 'O Nefol Addfwyn Oen'. Clywsom hefyd y parti bois - Jordan Walker, Rory Rebeck, Liam Jones, Jamie Owen, Gethin Jones, Rhydian Watkins, Chris Ashton, Alinur Miah, Philip Chrich ac Aled Wyn Thomas yn canu 'Cyn Oeri'r Gwaed' eto gan Robot Arwyn.

Bu'n noson lwyddiannus a chofiadwy a llongyfarchiadau i bawb a enillodd wobr. Diolchwn i bawb am eu cefnogaeth, ond yn arbennig i Mrs Dianne Evans am drefnu'r noson, staff y swyddfa, Mrs Wenella Evans a Miss Mattie Evans am drefnu'r blodau hyfryd ac i Mr Michael Morris a'r bois yn y cefn am eu cymorth technegol.

Ar Dachwedd 19eg bu aelodau'r Adran Gerdd ar eu hymweliad blynyddol i ddiddanu'r henoed yn eu cinio Nadolig. Cafwyd croeso cynnes a bu'r disgyblion yn perfformio amryw o eitemau unigol ac mewn ensemble. Diolch i'r bobl ifanc yma am roi eu hamser yn ymarfer ac yn gwneud y perfformiadau: Nerys Evans Bl 13; Philip Chrich Bl 13; Russell Pink Bl 13; Hedydd Davies Bl 13; Carys Thomas Bl 13; Aled Thomas Bl 12; Chris Ashton Bl 12 a Elliw Mair Bl 11.

Llongyfarchiadau gwresog i Philip Chrich ac Aled Thomas sydd wedi cael eu dewis yn aelodau o Gôr Cymru, yn dilyn clyweliadau yng Nghaerfyrddin.

Mae Llion Thomas 8D (ffidil), Fiona Messer 10P (ffidil), Chloe Richardson 8D (ffidil) a Gareth Davies 10N (sacsoffôn) wedi bod yn mynychu ymarferion bob nos Wener ar gyfer y Band Chwyth a'r Gerddorfa Ganolradd. Yn dilyn hyn, bu yna gwrs preswyl yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog ac yna cyngerdd safonol iawn yn Ysgol Tregaron ar Dachwedd 10fed. Da iawn chi am eich ymroddiad.

Ar benwythnos yr 28ain o Dachwedd, bu 30 o ddisgyblion yn Ysgol Aberaeron yn derbyn hyfforddiant fel aelodau o Gôr Ceredigion. Cafwyd tipyn o hwyl, yn enwedig yn dysgu'r 'medley' allan o'r sioe 'Grease'. Bl 13 Hedydd Davies; Carys Thomas; Elin Jones; Philip Chrich a Rhydian Watkins

Bl 12 Aled Wyn Thomas; Chris Ashton; Gethin Jones; Lottie Sparks; Alex Llewelyn; Wendy Davies a Caroline Roberts Bl 11 Megan Holt; Beth John; Josh Harrison Little; Kay Hall; Lisa Davies; Annabelle Hollingsworth; Hannah Biden; Carys Thomas a Elliw Mair Bl 10 Siân Davies; Jemma O'Kane; Fiona Messer; Ashley Bell; Sophie Hannaway; Bethan Hardy; Nicola Miles; Althea Sandover a Devion McKenzie

Ar Ragfyr 12fed perfformiodd y bechgyn hŷn yn Neuadd Llwynceyllyn fel aelodau o Gôr y Sir ac hefyd yn y Neuadd Fawr yn Aberystwyth ar Ragfyr 16eg. Da iawn, bois.

Bl 13 Rhydian Watkins; Russell Pink a Philip Chrich

Bl 12 Aled Wyn Thomas; Chris Ashton; Gethin Jones a Steffan Diesner

Bl 11 Josh Harrison Little; Darren Tierney a Ross Bartlett

Bl 10 Gareth Davies; Robbie Smith a Daniel Walters

Prynhawn yr 16eg o Ragfyr aeth rhai o gantorion ac offerynwyr yr Ysgol Iau i'r Neuadd Fawr yn Aberystwyth i weld y disgyblion hŷn yn perfformio. Cafwyd gwledd i'r glust a phleser oedd gweld cynifer o blant Llanbed yn perfformio ar eu gorau.

Bu deg o ddisgyblion blwyddyn 12 sy'n astudio Teithio a Thwristiaeth ac Astudiaethau Busnes ar waith maes i Abertawe ym mis Rhagfyr, er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer eu gwaith cwrs. Cafwyd taith wedi ei thywys o amgylch Stadiwm Liberty sy'n gartref i dîm rygbi'r Gweilch a

thîm pêl-droed Abertawe. Cafwyd cip olwg ar nifer o ardaloedd diddorol gan gynnwys ystafell y gwragedd,



yr ystafelloedd newid, gorsaf heddlu'r stadiwm, yr orsaf ddiogelwch a'r cae ei hun! Roedd cyfle i holi cwestiynau i'r rheolwr marchnata ac i ymweld â siop gefnogwyr y Gweilch a'r Elyrch. Ar ôl llond bola o ginio fe wnaeth y disgyblion ymweld ag Amgueddfa'r Glannau a Chanolfan Hamdden newydd yr LC. Cafwyd cyfle i gael blas ar siopau'r ddinas a'r Ffair Nadolig cyn dychwelyd am adre!

Mae disgyblion bl. 12 Iechyd a Gofal wrthi yn paratoi gwahanol ymgyrchoedd iechyd ac i'w helpu maent wedi bod mewn cynhadledd Iechyd a Gofal yng Nghanolfan Halliwell, Caerfyrddin. Mae'r disgyblion Busnes wedi bod yn datblygu eu sgiliau ymarferol trwy sefydlu busnes eu hunain - 'Desirable Dates'. Maent wedi dylunio a chreu calendr ysgol 2009, sy'n cynnwys rhai lluniau diddorol iawn!

Cafodd Bl. 11 gyfle i fynychu cynhadledd ddeuddydd, gan ddysgu am dechnegau cyfnewid a gwahanol ffyrdd o wneud cais am swydd. Cawsant gyfle i gwblhau CV a ffurflen gais ac ysgrifennu llythyr cais. Buont hefyd yn cael eu cyfnewid mewn ffug gyfnewidiadau. Diolch i bawb a gyfrannodd ac i Gyrfa Cymru am helpu i drefnu'r diwrnod.

Cynhaliwyd amryw o weithgareddau yn ystod yr wythnos hon. Yn gyntaf, cynhaliwyd cystadleuaeth 'Make your Mark.' Yn rhan o'r gystadleuaeth undydd bu rhaid i'r timau ymateb i her benodol a gyflwynwyd iddynt y bore hwnnw.



Enillwyr Bl. 12/13 oedd Alinur Siah a Chris Ashton ac enillwyr Bl. 10/11 oedd Sophie Hannaway, Lisa Thomas, Nicola Miles a Bethan Hardy. Diolch i bawb a wnaeth gystadlu. Hefyd, fe wnaeth nifer o ddisgyblion blwyddyn 10 gynnal gweithgareddau, megis gweithdy drama

a gweithgareddau nodedig, yn rhan o'u gwaith ar fentrau cymdeithasol. Diolch i bawb am eu cymorth.

Ddydd Mawrth, Tachwedd y 25ain bu tîm o bump yn cystadlu yng Nghwis Cenedlaethol Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan. Cynhaliwyd rownd leol Gogledd Ceredigion yn Ysgol Aberaeron, ac ar ddiwedd y bore cyhoeddwyd bod tîm Llanbed, sef: Elinor Jones, Richard Davis, Edward Bransden, Claire Ruysch a Llion Thomas wedi dod yn ail agos iawn. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Llongyfarchiadau i ddau aelod o'r chweched dosbarth am eu llwyddiant yn yr 'UK Senior Maths Challenge'. Enillodd Chris Ashton y Wobr Arian ac Adam Templeman y Wobr Efydd. Ymlaen am yr Aur y tro nesaf bois!

Gwelwyd prysurdeb a brwdfrydedd mawr ar ddechrau tymor newydd wrth i gapteiniaid a swyddogion Creuddyn, Dulas a Teifi ddechrau ar eu paratoadau ar gyfer Eisteddfod yr Ysgol a gynhelir ddechrau mis Chwefror. Pob hwyl i bawb gyda'r ymarferion.

O Ionawr 21ain-23ain, bu Christopher Barker, Rebecca Messer, Charlie King, Daniel Osborne a Zachary Patterson o flwyddyn 7, yn ogystal â Leah Hargreaves a Katie Owen o flwyddyn 12, ar gwrs Cymraeg i ddysgwyr yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Ar y cyd â disgyblion Ysgol Penglais, cafwyd llawer o hwyl yn mwynhau amrywiol weithgareddau'r gwrsyll - o sgîo, gwigbartio a merlota, i drampolinio, adeiladu tîm a chwrs rhaffau. Yn ogystal, cafwyd gweithdy dawns, gweithdy drama ac ysgrifennu creadigol. Cafwyd amser bythgofiadwy a chydweithio da - tridiau buddiol dros ben.

Llongyfarchiadau i Mererid Rees o flwyddyn 9 sydd wedi bod yn mynychu clyweliadau ar gyfer rhaglen ddawns S4C 'Dawnstastig'. Gobeithiwn ei gweld yn ddawnsio ar ein sgrîn cyn bo hir.

Llongyfarchiadau hefyd i grŵp o ddawnswyr o'r ysgol a fu'n llwyddiannus mewn cystadleuaeth ddawnsio stryd yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar. Cynhaliwyd rownd derfynol Cymru yng Nghaerdydd ar Ionawr 18fed, ond chawson nhw ddim gwobr y tro yma. Dyma'r merched a fu'n cymryd rhan:- Sophie Bowden, Mererid Rees, Katy Jones, Samantha Miller, Toni Harding, Amelia Davies, Megan Williams a Lisa Stephens.

Bu Polly Lagdon o flwyddyn 9 hefyd yn perfformio mewn clyweliad ar gyfer y rhaglen deledu 'Britain's Got Talent'. Edrychwn ymlaen at glywed a fu'n llwyddiannus. Da iawn ferched.

Bu ein hathrawes Gemeg, Mrs Nerys Stephens, yn plymio o'r awyr yn ddiweddar er mwyn codi arian tuag at Ffibrosis Systig. Bu'n brofiad gwfreiddiol a bythgofiadwy a llwyddodd i godi dros £790 at yr achos. Dyma gamp arbennig a diolch i bawb a wnaeth gyfrannu.





Bu 45 o ddisgyblion blwyddyn 9 ar daith ddeuddydd i Lundain ddechrau mis Rhagfyr. Prif bwrpas y daith oedd ymweld ag Arddangosfa'r Holocaust yn yr 'Imperial War Museum'. Cafodd y disgyblion glywed hanes goroeswyr yr Holocaust a chael cyfle i drin a thrafod y digwyddiadau mewn gweithdy gydag arbenigwyr o'r amgueddfa. Arhosodd y disgyblion a'r staff mewn gwesty yn Kensington. Defnyddiwyd trenau tanddaearol y 'tube' i deithio o amgylch y ddinas gan ymweld â rhai o'r prif atyniadau, gan gynnwys Picadilly Circus, Sgwâr Trafalgar a Sgwâr Leicester. Fe wnaeth bawb fwynhau siopa Nadolig ar stryd Oxford a chafwyd llawer o hwyl yn siop deganau enwog Hamleys! Diolch i Mr Morris, Miss G Jones, Miss J Wyn, Miss Penny a Miss Lorain am ofalu am y disgyblion.

Dychwelodd y sgiwyr o'u taith sgïo i Zel am See yn Awstria. Cafwyd digonedd o eira a llawer o hwyl. Diolch i'r Adran Ymarfer Corff am drefnu'r daith.

O Siambr Cyngor Sir Gâr

gan Pryfyn



Ychydig cyn i Pryfyn a Pryfen (a'r prifedyn bach) fynd ar eu gwyliau Nadolig, ymddangosodd adroddiad gan un o Bwyllgorau'r Cynulliad ar ddyfodol ysgolion gwledig. A chasgliad y pwyllgor wedi chwe mis o drafod gofalus? Diogelu ansawdd addysg plant mewn ysgolion gwledig ddylai gael y flaenoriaeth. Am ddatganiad syfrdanol! Ond mae gwell i ddod.

Mae'r adroddiad yn nodi bod angen i gynghorwyr o hyn ymlaen gynnal trafodaethau hollol dryloyw a gonest wrth drafod â chymunedau lleol. Am ail ddatganiad syfrdanol! Ac mae rhagor o bethau da yn yr adroddiad hefyd.

Os yw awdurdodau lleol am ddal eu gafael ar ysgolion Cymru, rhaid i gynghorwyr adennill ffydd ac ymddiriedaeth y cyhoedd a bod yn dryloyw a gonest yn hytrach na beio pawb ond nhw eu hunain am eu methiannau nhw eu hunain. Am drydydd datganiad syfrdanol!

Ac ie, Ieuan Goronwy Jones (Annibynnol, Llandeilo) yw'r aelod â gofal am addysg ar Fwrdd Gweithredol Cyngor Sir Gaerfyrddin. Dyma'r cyfaill sy'n gwrthod yn deg â chwrdd â'i etholwyr (yn Llan-y-crwys, Cwmann, Ffarmers, Llansadwrn a mannau eraill) i drafod dyfodol ysgolion gwledig. Nid yw wedi llwyddo yn ystod ei gyfnod ar Fwrdd Gweithredol Sir Gaerfyrddin i gyhoeddi strategaeth o fath yn y byd i addysg gynradd wledig yn y sir.

Y si a glywir gan Pryfyn yw mai cynnig cod ymddygiad safonol oedd holl ddiben y sôn am dryloywder a gonestrwydd yn adroddiad y Cynulliad. Rhyw daro'r post...

Diolch i Fiona Hughes (Llanybydder, Cwm Ann, Pencarreg a Rhydcymerau) ac Eirwyn Williams (Cynwyl Gaeo) am achub y blaen ar yr Adroddiad ac ysgrifennu at aelodau Bwrdd Gweithredol y Cyngor yn gofyn am yr union bethau hyn - tryloywder a gonestrwydd a'r angen am strategaeth ddeinamig ym maes addysg. Ac mae mawr angen amdano, wrth gwrs.

A Ieuan Goronwy Jones yn ddeiliad portffolio, rhaid gofyn eto pam mae'n gwrthod trafod dim byd â rhieni a threthdalwyr Sir Gaerfyrddin ond yn hapus derbyn lwfansau o dros £30,000 y flwyddyn o arian rhieni a threthdalwyr Sir Gâr; yr union rieni a threthdalwyr y mae'n gwrthod trafod dim byd â nhw. Os yw mor amlwg yn esgeuluso ei ddyletswyddau ond yn pocedo'r lwfansau (a'r treuliau), does dim syndod y bydd eleni yn Flwyddyn Newydd Dda i Ieuan Goronwy Jones.

Mae rhieni a threthdalwyr Sir Gaerfyrddin yn haeddu gwell na hyn.

Colofn yr Urdd



Cyfri'r diwrnodau at Eisteddfod 2010

Mae Pwyllgor Ieuenctid Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 wedi cyhoeddi calendr cwl Mistar Urdd sydd ar werth nawr am £5.

Mi fydd yr Eisteddfod gyda ni chwpa a pha well ffordd i gyfri'r diwrnodau at yr wythnos fawr na thrwy fuddsoddi yng nghalendr deunaw mis y Pwyllgor Ieuenctid.

Mae Mistar Urdd wedi bod ar daith o amgylch Ceredigion ac wedi aros i gael tynnu ei lun yn rhai o leoliadau mwyaf adnabyddus y sir.

Katie Ann Briddon, ffotograffydd ifanc o Gross-Inn, Cei Newydd fu'n cadw cwmni i Mistar Urdd wrth iddo drafaelu o le i le a ffrwyth ei gwaith hi welir yn y calendr deniadol a defnyddiol yma.

Rhwng mis Ionawr 2009 a Mehefin 2010 cewch grwydro golygfeydd godidog Ceredigion drwy gyfrwng y lluniau trawiadol a chadw trefn ar eich digwyddiadau ar y daith. Mae'r calendr deunaw mis yn fargen am ddim ond £5. Os hoffech archebu calendr cysylltwch â Nia Davies, 01570 480015.

Digwyddiadau:

Chwefror 6 Talwrn y Beirdd gan y Pwyllgor Llên yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth am 7:30y.h. Meuryn: Tudur Dylan Jones. Timau: Y Cwps, Y Glêr, Crannog, Tanygroes a Talybont. I ddilyn, ocsiwn o eitemau

gan feirdd timau'r Talwrn.

Mawrth 1 Cinio Hwyl Ddewi i godi arian at Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 gan y Pwyllgor Cyhoedduswydd yng Ngwesty'r Plu, Aberaeron. Gŵr gwadd: Dai Jones, Llanilar. Arwerthwr: Dylan Davies. Tocynnau £20, Plant o dan 12 oed £10 ar gael oddi wrth: Nia Davies, 01570 480015.

Ebrill 21 – 24 Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010.

Cystadleuaeth Pêl-Rwyd

Cynhaliwyd cystadleuaeth Pêl-rwyd Cylch Llambled yng Nghanolfan Hamdden Llambled ddydd Gwener, Ionawr 23ain. Cafwyd cystadlu brwd gyda sawl tîm yn brwydro'n galed am y bencampwriaeth. Ddiwedd y dydd Ysgol Y Dderi enillodd. Pob lwc i chi yn y rownd rhanbarthol yn ystod y dyddiau nesaf.

Cystadleuaeth CogUrdd

Yn ystod tymor y Nadolig cynhaliwyd cystadleuaeth CogUrdd yn ysgolion Ceredigion, ac yna bu'r buddugwyr i gyd [12 ohonynt] yn cystadlu yn Ystafell Goginio Ysgol Gyfun Aberaeron ddydd Iau, Ionawr 29ain â'r enillydd oedd disgybl o Ysgol Gynradd Cenarth. Pob lwc yn y rownd nesaf.

Llanfair Clydogau

Ffair Grefftau a Chynnyrch Lleol

Cynhaliwyd y ffair ar Rhagfyr 6ed gyda nifer o stondinau yn cynnwys cynnyrch o bob math a oedd yn addas at y Nadolig, a chrefftau, cardiau a phrintiau a wnâi anrhegion hyfryd. Daeth llawer o bobol i bori ac i brynu, gyda lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan y gwragedd.

Lansio Llyfr 'Hanes Llanfair Clydogau'

Ar Ragfyr 12fed fe lansiodd llyfr 'Llanfair Clydogau - A history of a Cardiganshire parish' wedi ei ysgrifennu gan yr awdur Alan Leech. Daeth tua cant o bobol ynghyd i wrando ar Alan yn siarad am ei lyfr a sôn sut oedd y syniad a'r ysbrydoliaeth wedi dechrau a datblygu. Mae Alan yn dod yn wreiddiol o Sir Gaerhirfryn ond wedi symud i Lanfair, gyda ei wraig Sally, ers 1999. Roedd yn brifathro cyn ymddeol, a mae yn parhau i weithio'n rhan amser ym myd addysg.

Dechreuodd y syniad trwy ddiddordeb Alan yn Eglwys Santes Fair a'i hanes ond nid oedd neb wedi cofnodi'r hanes hwnnw. Datblygodd hynny i fod yn hanes y plwyf wrth i'r plwyfion ymddiddori a chynnig benthyg lluniau, hanesion teuluol, arteffactau o bob math, hen ddillad ac yn y blaen. Rhoddwyd y cyfan at ei gilydd i wneud arddangosfa neilltuol yn Neuadd y Pentref yr Haf diwethaf. Yn ystod y flwyddyn bu Alan yn casglu gwybodaeth mewn llyfrgelloedd ac archifdai yn Aberystwyth, Llanbedd a chyn belled â Llundain. Mae'n llyfr diddorol iawn sy'n dweud hanes hen blas Llanfair a theulu y Johnes' a'u cysylltiadau â'r Hafod; hanes ficer y plwyf, Morgan Williams a fu farw yng ngharchar Aberteifi, a llu o hanesion eraill. Os am gopi cysylltwch â'r awdur ei hun ar 01570 493 390.

Gwasanaeth Carolau

Brynhawn Sul, Rhagfyr 14eg, daeth nifer o bobol y pentre i Gapel Mair i ddathlu'r Nadolig trwy ganu a darllen stori'r Geni. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Dan Griffiths, Pengarn gydag Eleri Davies, Pentre ac Aerwen Griffiths, Pengarn wrth yr organ. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan blant Ysgol y Dderi sydd â chysylltiad â'r pentref dan arweiniad Alwena Williams. Cafwyd canu swynol dros ben gyda solo ar yr organ a'r fflwt. Pleser hefyd oedd cael croesawu'r Cynghorydd Odwyn Davies a Mrs Ann Davies. Cymerodd John Martin, Pentrebannau ran ganolog yn y gwasanaeth trwy siarad â'r plant. Ar ddiwedd y gwasanaeth fe gymerwyd casgliad o £167.00 tuag at elusen Ffagl Gobaith Ceredigion - elusen sy'n rhoi llety a gofal yn y cartref i bobol sydd ag afiechydon terfynol.



Nos Iau, Rhagfyr 18fed, daeth tua pymtheg ohonom ynghyd ar y sgwâr i fynd allan i ganu carolau o gylch ardal fynyddig y pentref. Y nos Lun ganlynol cwrddom eto i ganu, y tro hwn ar hyd heol Llanddewi a Heol Llanfair. Cawsom groeso neilltuol gan bawb, rhai wedi paratoi pwnsh, rhai eraill bisgedi a losin a phawb wedi rhoi yn hael. Ar y nos Lun aeth pawb yn ôl i'r neuadd erbyn 9.00 i gael cawl a mins peis. Diolch i Gwyneth Jones, Noyadd, am baratoi'r cawl ac i bawb a wnaeth y mins pies. Diolch i Arwyn, Lesley, Dai a Ron am ein cludo o amgylch. Y cyfanswm a gasglwyd oedd £600. Trosglwyddwyd yr arian mewn sic i Liz Pugh, cynrychiolydd Ffagl Gobaith Ceredigion, ynghyd â £77 oddi wrth Sefydliad y Merched, pan ddaeth i siarad am waith yr elusen yn Sefydliad y Merched ar nos Iau, Ionawr 22ain. Cafwyd noson agored gyda nifer wedi dod i wrando. Diolch i Eleri Davies a Sally Leech am baratoi lluniaeth flasus dros ben.

Partion Nadolig

Cafwyd parti llwyddiannus i blant y pentref a ffrindiau ar y dydd Llun ar ôl y Nadolig pan ddaeth llawer ynghyd i fwynhau bwyd a gêm. Diolch i bawb a drefnodd y dydd ac a ddaeth â bwyd.

Nos Galan

Daeth tua 70 o drigolion y pentref a'u ffrindiau i'r neuadd i ddathlu, dawnsio a ffarwelio â'r hen flwyddyn, gyda phob un wedi dod â bwyd i'w siario. Roedd y neuadd wedi ei haddurno yn brydferth gyda choeden a llu o oleuadau lliwgar. Diolch i deulu Pentre am y goeden ac i bawb a addurnodd y neuadd. Diolch i Lesley am fwsig drwy'r nos ac Auld Lang Syne i groesawu'r flwyddyn newydd. Cafwyd noswaith fendigedig gyda phawb wedi mwynhau.

Bowlio

Trefnwyd noson lwyddiannus iawn o fowlio dan do gan Dan Griffiths yng Nghlwb Bowlio Llanbedd nos Sadwrn Ionawr 10fed. Roedd pedwar ar ddeg ohonom yn chwarae a phawb wedi dod â lluniaeth ysgafn i'w rhannu. Roedd pob un wedi mwynhau cael y cyfle i fowlio, rhai am y tro cyntaf.

Babi Newydd

Hoffem ddymuno yn dda i Peyton ac Andrea Jones gynt o Fronhaul, Heol Llanfair, nawr yn byw yn Abertawe, sydd newydd fabwysiadu merch fach, Liberty Grace. Fe'i ganed ddydd Nadolig yn Alabama, Yr Unol Daleithiau. Byddant yn

dychwelyd i Abertawe cyn bo hir. Bendith mawr ar y teulu.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Mrs Kathleen Davies, Woodlands gynt, sydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar Chwefror 7fed. Mae Mrs Davies yn dal i fyw yng Nghaerfyrddin.

Gwellhad

Rydym yn dymuno'n dda ac yn meddwl am Ian Evans, Esgairman sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Singleton, Abertawe. Pob bendith arno a gwellhad llwyr.

Cinio Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd ein cinio flynyddol yn y Talbot Tregaron nos Sadwrn Ionawr 25ain. Cafwyd noson o fwyd da, cwmni arbennig a bws i'n cludo yno ac adref. Diolch i Katy James, Pandi, ein llywydd am y flwyddyn nesaf, am y trefniadau a'r cwis i gloi'r noson. Dymunwn bob llwyddiant iddi.

Croeso

Braf yw cael croesawu Meinir, Paul, Matthew a Rebecca Miller i'w cartref newydd yng Nghysgod y Coed, Heol Llanfair. Pob hapusrwydd i chwi. Mae'n braf eich cael yn gymdogion.

Beth sydd nesa'?

Cinio Sant Ffolant ar Chwefror 14eg yn Neuadd y Pentref.

Lleisiau Bro Eirwyn

Sefydlwyd Lleisiau Bro Eirwyn yn wreiddiol ym mis Medi 2007 er mwyn cystadlu yng Ngŵyl Gerdd Dant Ystrad Fflur ym mis Tachwedd 2007. Ar ôl cael cryn foddhad wrth ddod i ymarfer yn wythnosol penderfynwyd ar ddechrau mis Ionawr 2008 ein bod am ddal i gwrdd a dysgu caneuon newydd er mwyn hybu cerddoriaeth yn yr ardal.

Yn ystod 2008 bu'r parti yn canu yng Nghapel Gwyddgrug, Pencader; Tafarn Bach, Pontsian; Neuadd Penrhiwillan, a sgwâr Llandysul. Bu'n canu carolau o amgylch rhai o'r tafarndai lleol ac yng Nghartref Preswyl Awel Deg, Llandysul.

Wrth ganu carolau yn Llandysul ac o amgylch y tafarndai bu'r parti yn casglu arian tuag at yr Ymatebydd Cyntaf (First Responder) yn Llandysul. Trosglwyddwyd swm o £300 i Steve Thomas a Gerwyn Morgan, Cyd-ymatebwyr Cyntaf, yn yr ymarfer cyntaf yn Nhafarn Bach, Pontsian yn 2009.

Arweinydd y parti yw Bethan Evans o Barc-yr-Ynn, Llandysul. Mae aelodau'r parti yn dod o ardaloedd Drefach, Llanybydder; Alltyblaca, Cwmsychbant, Penrhiwillan, Talgarreg, Capel Dewi, Llandysul, Maesllyn, Croeslan, Saron a Llanpumsaint. Os oes unrhyw un â diddordeb i ymuno â pharti merched Lleisiau Bro Eirwyn, mae croeso cynnes i chi ddod i Dafarn Bach, Pontsian bob yn ail nos Iau am 8y.h. Bydd yr ymarfer nesaf nos Iau, 12fed o Chwefror ac am ragor o wybodaeth cysylltwch â Bethan ar 01559 362196 neu Nia ar 01570 480015.

CYNGOR SIR CEREDIGION
PWERDAI CEREDIGION
Cymdogaethau Cymraeg
Cynaliadwy

Theatr Felinfach
Dydd Sadwrn, 7 Chwefror, 2009
9.45 y bore tan 12.45

SEFYDLU PWERDY IAITH,
DIWYLLIANT AC ECONOMI
YMHOB CYMDOGAETH YNG
NGHEREDIGION
**ARWEINIAD
YSBRYDOLIAETH
CEFNOGAETH**

Dylan Iowerth,
Elin Jones AC,
Euros Lewis,
Bronwen Morgan,
Keith Evans,
Rhodri Llwyd Morgan,
Actorion Troed-y-rhiw

I SICRHAU EICH LLE
CYSYLLTWCH Â BETHAN NEU
CAROL (SWYDDOGION CERED)
01545 572350
YMBWERWN!

O'r Cyngorau Bro



Cyngor Bro Llanllwni

Cadeirydd: Eurig Davies, Clerc: Eirlys Davies, Gohebydd y Wasg: Dewi Davies, Cyngorydd Sir: Linda Evans. Cyfarfu'r Cyngor ar 20 Ionawr 2009

Croesawyd y Cwnstabl Rhydian Jones yn wresog gan y cadeirydd. Roedd y cyngorwyr yn falch iawn bod ymweliadau'r plismon cymunedol wedi'u hadfer a diolchwyd iddo am ei gyfraniadau gwerthfawr. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd y Cyngor Sir yn cydnabod nac yn ymateb yn brydlon i lythyron gan y Clerc. Penderfynwyd crynhoi'r ohebiaeth sylweddol roedd y Cyngor Bro yn aros i'r Cyngor Sir ymateb iddi a'i hanfon at Brif Weithredwr y Cyngor Sir gan holi am ei gymorth.

Adroddwyd bod yr arwyddion newydd ger yr ysgol i gofnodi cyflymder cerbydau wedi eu gosod yn eu lle. Nodwyd bod y Comisiwn Archwilio wedi cymeradwyo Cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn a aeth heibio.

Addawyd holi am gymorth y Cyngor Sir i lunio gwefan i'r Cyngor Bro.



Adroddwyd am gyfarfod ychydig cyn y Nadolig rhwng aelodau'r Cyngor Bro â swyddog o'r Adran Briffyrdd i drafod cyflwr heolydd y plwyf. Tywyswyd y swyddog ar hyd y lonydd canlynol: Ffynnonddrain - Gwarcwm; Ffynnonddrain - Cefncoeduchaf; Beilibach - Gwarcwm; Manorafon - Pont Henfaes (A485). Tynnwyd sylw'r swyddog

at rai o'r mannau mwyaf peryglus – un twll arbennig dros chwe modfedd o ddyfnder a llathed o hyd a oedd wedi ei archwilio'n gyson gan swyddogion y Cyngor Sir dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'n ymddangos bod y gwaith o lenwi'r twll hwn wedi mynd yn drech na'r Cyngor Sir.

Cyngor Bro Llanfihangel-ar-Arth

Cadeirydd: Heulwen Lewis, Clerc: Anita Evans, Cyngorydd Sir: Linda Evans. Cyfarfu'r Cyngor ar 17 Tachwedd

Croesawyd y cyfreithiwr Huw Owen i'r cyfarfod. Mae Mr Owen yn cynghori'r Cyngor Bro yn y drafodaeth am berchnogaeth Tŷ Hers Pencader. Y cam nesaf fydd mynd at y Gofrestrfa Dir gyda'r dystiolaeth am y rhent sydd wedi ei dalu i'r Cyngor hwn. Penderfynwyd hysbysu'r Cyngor Sir mai dymuniad y Cyngor Bro yw cadw'r goleuadau stryd ymlaen drwy'r nos.

Cafwyd gwybodaeth gan Mr McEvoy nad oedd yn bosibl gweithredu mesurau i arafu cyflymder y traffig yng Ngwyddgrug am ei bod yn ffordd 'A'. Gellid, sut bynnag, archebu arwydd 'Pont gul' neu 'Ffordd gul'.

Mae'r Cyngor Bro yn derbyn cwynion cyson nad yw ymylon y ffyrdd yn cael eu torri ac o ganlyniad mae'r tyfiant a'r canghennau'n peri anawsterau mawr i drafnidiaeth. Mae'r Cyngor Sir bellach wedi holi am enwau a chyfeiriadau y tiffeddianwyr lle y mae'r problemau.

Derbyniwyd cais am gefnogaeth mewn achosion lle y mae llwybrau troed yn yr ardal wedi eu cau. Cafwyd cefnogaeth y Cyngor Bro yn hyn o beth.

Cyngor Bro Pencarreg

Cadeirydd: Adrian Davies, Clerc: Eric Williams, Cyngorydd Bro a Sir: Eirwyn Williams, Cyngorydd Sir: Fiona Hughes. Cyfarfu'r Cyngor ar 5 Ionawr 2009. Derbyniwyd cais i newid Festri Capel Esgairdawe yn dŷ annedd; nid oedd y Cyngor Sir wedi caniatáu. Roedd ceisiadau i droi tai mas yn lle byw yn Coedmor Fach ac am ladd-dy yn Talfedw wedi'u caniatáu gan y Cyngor Sir.

Adroddwyd bod Tafarn y Ram wedi'i hail ddi a holwyd a oedd modd gwasgu am ei hailagor. Penderfynwyd cymhennu rhai o'r coed yn yr Ardd Goffa. Derbyniwyd cŵyn bod canghennau'r coed yn isel iawn ar yr A485 ger Claret, Pencarreg. Holwyd am osod arwydd yn gwahardd loriau trwm ar 'Sat Nav' rhag teithio o'r A482 ar hyd y lôn o ben 'Hewl Fach' ger Tanfoel i Barc-y-rhos. Holwyd i'r Cyngor Sir ledu'r pafin ger Lleinau er diogelwch y plant sy'n cerdded i Ysgol Carreg Hirfaen. Mae'r heddlu'n ymchwilio wedi i fandaliaid achosi difrod i'r wal ar ochr y pafin o Gwmann i Bont Teifi.

Bydd yr Heddlu a'r Cyng. Sir Fiona Hughes yn cynnal Cymhorthfa Gymunedol yn y Ganolfan Gymunedol ar Feysydd Chwarae Cwmann ar yr ail ddydd Mercher yn y mis, rhwng 6.00 a 7.00 yr hwyr.

Mae'r Cyngor Bro yn gwneud eu gorau glas i bwyso am ragor o waith cynnal a chadw ar heolydd y plwyf. Mae'r cyngorwyr wedi tynnu sylw swyddogion y Sir lawer tro at y diffygion ac wedi cael cyfarfodydd safle gyda nhw i ddangos mor wael yw eu cyflwr.

Cyngor Tref Llambod

Maer: Derek Wilson, Clerc: Eleri Thomas, Cyngorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cyngorydd Sir: Ivor Williams. Cyfarfu'r Cyngor ar 8 Ionawr 2009

Daeth y Cyngor ynghyd er mwyn pennu maint y precept (y dreth leol

a godir gan Gyngor y Dref) am y flwyddyn ariannol Ebrill 2009-Mawrth 2010. Trafodwyd y gyllideb. Gan fod y cyngorwyr yn teimlo y gellid cwrdd â'r holl alwadau o fewn terfynau'r gyllideb a oedd wedi'i pharatoi, penderfynwyd cadw'r precept heb ei newid am y bumed flwyddyn yn olynol, sef 96c yr wythnos i drethdalwyr Band D. Ystyriwyd maint y swm cyfalaf oedd wrth gefn ac adroddwyd y gallai'r Cyngor wynebu costau ychwanegol yn wyneb datblygiadau yn gysylltiedig â Chae'r Bryn, Cae Maesyderi a phrosiectau eraill oedd wedi'u crybwyll yn y gyllideb. Awgrymwyd y gellid cynyddu'r cyfraniadau at elusennau lleol. Penderfynwyd ceisio gwybodaeth oddi wrth Gyngor Ceredigion am y trefniadau am gynnal a chadw cloc y dref.

Cwblhawyd Arolwg Blyneddol Polisi Iaith Gymraeg Cyngor y Dref ar 10 Hydref 2008. Croesewir sylwadau gan aelodau'r cyhoedd ar y polisi diwygiedig. Mae copïau ar gael yn Llyfrgell y Dref, ar wefan y Cyngor sef www.lampeter.org, gan y Clerc (01570 421496) neu lamptc@ceredigion.gov.uk Atgoffir Aelodau'r Cyhoedd am y Fforwm Cyhoeddus a gynhelir yn union cyn cyfarfod Cyngor y Dref. Mae croeso i bawb roi barn ar bwnc o ddiddordeb lleol. Cynhelir cyfarfodydd ar nos Iau olaf y mis. Trefnwyd y cyfarfod nesaf ar 29 Ionawr am 7.30 yn Neuadd y Dref. Cysyllter â'r Clerc os hoffech godi pwnc arbennig cyn dechrau'r cyfarfod. Nodwyd y manylion cyswllt uchod. Mae amserlen cyfarfodydd Cyngor y Dref am eleni ar y wefan.

Cyngor Bro Llanwenog

Cadeirydd: Alun James, Clerc: Wenella Evans, Cyngorydd Sir: Haydn Richards. Cyfarfu'r Cyngor ar 13 Ionawr 2009. Nid oedd buddiannau personol i'w datgelu.

Mae'r cyngor yn disgwyl ymateb i lythyr a anfonwyd gan y Clerc am fagiâu sbwriel du. Mae nifer o gwynion wedi dod i law oddi wrth drigolion y gymuned gan nad yw'r Cyngor Sir yn darparu bagiau du bellach, gan iddynt newid maint y loriau casglu sbwriel.

Cafwyd trafodaeth am oleuadau stryd ar ôl derbyn llythyr am y mater oddi wrth y Cyngor Sir. Maent am ddiffodd y golau o ganol nos tan bump y bore gan fod angen arbed arian yn yr Adran Briffyrdd. Mae pob Cyngor Cymuned yn cael y cynnig i dalu am gadw'r goleuadau fel y maent ar gost o £14.00 neu £45.00 y flwyddyn am bob golau. Disgwylir map y Cyngor Sir sy'n dangos lleoliad y goleuadau cyn trafod eto yn y cyfarfod nesaf.

Trafodwyd precept y flwyddyn ariannol nesaf gan gofio fod y Cyngor eisoes wedi derbyn anfoneb o £737.35 am Etholiad 2008 sydd i'w dynnu o gyllid 2009. Penderfynwyd ar swm o £7,014.28 ar gyfer 2009-10.

Cyngor Cymuned Llanwnnen

Cadeirydd: Richard O Jarman, Clerc: Aneurin R. Davies Cyngorydd Sir: Haydn Richards. Cyfarfu'r Cyngor ar 12 Ionawr 2009

Trefnwyd y Ginio Flynyddol ar Nos Wener 16 Ionawr a chafwyd noson lwyddiannus dros ben. Ymwelodd y Pwyllgor Safle â chae Pine Shop lle'r roedd gwrthwynebiad i'r fynedfa o heol Llambod.

Nid oedd gan y Cyngor wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a oedd gerbron, sef Ysgol Hyfforddi Ceffylau yn y Barn, Llwyn-y-groes a lle i gadw cathod yn Bryngwyn, Maestir. Cytunwyd ar archebiant blyneddol o £3,200 sef yr un swm â llynedd.

Cytunwyd cefnogi sefydlu Coleg Milfeddygol Cymru yn Aberystwyth.

Cytunwyd unwaith eto i dderbyn y swm o £20,000 oddi wrth ddatblygwyr y tai ger Brynteg ac i ddefnyddio'r swm ar y lleoedd agored yn y pentref i ddarparu lle hamdden i'r hen ac i'r ifanc.

Cytunwyd gwasgu ar y Cyngor Sir i roi graean ar heol Capel-y-Groes – Gorsgoch – Synod Inn gan fod bws plant ysgol yn teithio arni a bod defnydd mawr yn cael ei wneud ohoni er mwyn teithio i Llabed ac i Synod Inn.

Cyngor Cymuned Llanfair Clydogau

Cadeirydd: T Arwyn Davies, Clerc: Aneurin R. Davies, Cyngorydd Sir: Odwyn Davies. Cyfarfu'r Cyngor ar 5 Ionawr 2009

Cytunwyd cadw'r archebiant blyneddol fel yr oedd yn 2008 sef £3,000.

Nid oedd y Cyngor yn gwrthwynebu'r materion cynllunio lleol a oedd gerbron ond cytunwyd peidio â newid barn am un cynllun dadleuol a gafodd ystyriaeth o'r blaen. Cytunwyd gofyn i'r Cyngor Sir roi rhagor o flychau i gadw graean ar riwiau serth yr ardal.

Mynegwyd siom bod cwpan a roddwyd gan y plwyf i Sioe Llambod wedi ei golli. Cefnogwyd y bwriad i sefydlu Coleg Milfeddygol Cymru yn Aberystwyth. Cytunwyd ar gais gan un o'r cyngorwyr i wella golwg arwyddion y pentref.

Y gobaith yw cynnwys y cyngorau eraill yn y dalgylch hefyd yn y rhifyn nesaf.

Ysgol Y Dderi

Croeso cynnes i Ms Ingrid Rose sydd gyda ni am y tymor gan gymryd cyfrifoldeb am ddosbarth 5 a 6. Gobeithio y gwnewch chi fwynhau yn ein plith. Croeso hefyd i'r plant newydd sydd wedi ymuno â ni ddechrau'r tymor.

Bu'r plant hŷn yn ymweld â'r henoed yn yr ardal gan ddymuno blwyddyn newydd dda iddynt. Roedd ein ffrindiau wrth eu bod yn gwrandao ar y plant yn canu ac yn chwarae offerynnau, gan rannu sgwrs ac ambell stori gyda nhw hefyd.

Mae'r clwb brecwast yn mynd o nerth i nerth, gyda dros 60 o blant bellach ar y llyfrau. Mae'r plant yn cael dewis o frecwast maethlon, creision ŷd, tost neu ffrwythau. Ariennir y fenter yma gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Rydym wedi cael cyfle i fwynhau dau berfformiad gan gwmni theatr Arad Goch, sef 'Merched Y Gerddi' i blant blwyddyn 5 a 6 a 'Dros y Garreg' ar gyfer plant blwyddyn 1 a 2. Cafwyd gweithdai pwrpasol iawn, a bu plant blwyddyn 1 a 2 yn cydnabod beth yw ffrind da.

Llongyfarchiadau i William Holden, Ashley Squire a Rhiannon Newitt sydd wedi ennill gwobrau

mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan gwmni bwyd Organics.

Rhowch y dyddiadau yma yn eich dyddiadur! Cawl a Chân Bro'r Dderi ar nos Lun 23ain o Chwefror i ddechrau am 7 o'r gloch. Ocsiwn addewidion yn Y Talbot Tregaron, nos Wener 24ain o Ebrill, yr elw tuag at gronfa'r ysgol. Ffair Haf Ysgol Y Dderi dydd Sadwrn 4ydd o Orffennaf.

Cyngor Cymuned

Cyfarfu'r cynghorwyr ar Ragfyr 3ydd gyda'r Cadeirydd y Cyng G. Hicks yn llywyddu. Mae caniatâd cynllunio wedi ei roi i adnewyddu mast y teledu yn Llwynfeilig. Mae modd archwilio y cyfrifon ar ôl gwneud apwyntiad gyda'r clerc. Mae'r cynghorwyr wedi mabwysiadu'r Ddeddf Newydd ar Ryddid Gwybodaeth.

Mae'r cŵn sydd yn baeddu yn peri llawer o broblemau ym mhentref Llangybi. Mae'r mater yn awr yn nwylo'r Warden Cŵn. Mae'n bosib y bydd y goleuadau strydoedd yn cael eu diffodd rhwng hanner nos a 5y.b. Y Cwnstabl Ryan Jones yw'r Swyddog Cymuned – gellir cysylltu ag ef os oes gennych broblem – 0845 3302000.

Cyfarfu'r cynghorwyr ar Ionawr

14eg yn Ysgol Y Dderi gyda'r Cadeirydd y Cyng. G. Hicks yn llywyddu. Gofynnwyd am £1,500 o precept – yr un faint â llynedd. Enwebwyd y Cyng. H. Holgale yn llywodraethwr ar gyfer Ysgol Y Dderi. Derbyniwyd gwybodaeth fod heol Llanfair - Llangybi ar gau ddechrau Ebrill. Yn bresennol yn y cyfarfod roedd cynrychiolydd o Age Concern ac fe gafwyd awgrymiadau buddiol iawn yn y drafodaeth. Mae yna gymorth i'w gael i bobl sydd yn unig - cymorth i siopa a chymorth ariannol, clybiau cinio, cyngor ynglŷn â budd-daliadau a sut i ymdopi â llenwi ffurflenni. Mae'n ymddangos fod llawer o bobl ddim yn derbyn yr hyn y maent yn ei haeddu. Am wybodaeth a chynghor ffoniwch 01545 570055. Aflwyddiannus fu'r cais i'r Adran Briffyrdd roi blaenoriaeth i heol Silian mewn tywydd gaeafol iawn. Penderfynwyd cefnogi ymdrech Mr Penri James, darpar ymgeisydd Plaid Cymru i'r senedd yn Llundain, i sefydlu Coleg Milfeddygol yn Aberystwyth.

Cymdeithas y Pentref

Bu'r aelodau yn ymgynnull ar Rhagfyr 4ydd yn Ysgol Y Dderi, gyda'r Cadeirydd Mrs Janet Evans yn llywyddu. Cydymdeimlwyd â hi yn ei phrofedigaeth ar golli ei mam yn ddiweddar. Diolchwyd i Mr & Mrs Graham Williams am eu gofal am y blodau a'r planhigion dros fisoedd yr haf ac am blannu'r bylbiau.

Mae yna ardd organig wedi ei chreu ger yr ysgol, gardd gymunedol sydd at ddefnydd pawb. Ac os oes unrhyw un am dyfu planhigion, neu hadau mae croeso iddynt ddefnyddio'r twnnel. Cofiwch mai gardd organig ydyw. Os oes amser gan rywun mae angen gwirfoddolwyr. Mae cŵn yn baeddu yn creu problemau yn y pentref ac mae'r mater wedi ei drosglwyddo i'r Warden Cŵn.

Hamdden

Cyfarfu yr aelodau ar Ragfyr 5ed yn Ysgol Y Dderi gyda Mrs Dilys Godfrey yn llywyddu. Y gŵr gwadd oedd Mr Ken Lewis, un a fu yn arolygwr gyda'r heddlu cyn iddo ymddeol. Cafwyd orig ddiddorol a difyr yn ei gwmni pan fu yn hel atgofion am ei yrfa a'r ffordd y bu'n trafod achosion gwahanol o dor cyfraith. Soniodd am y ffordd y mae awdurdod yr heddlu wedi newid yn ystod y degawdau olaf. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch i'r gŵr gwadd gan Mrs Sally Davies. Cydymdeimlwyd â'r rhai a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar. Diolchwyd i'r rhai a roddodd y gwobrau raffl. Enillwyd hwy gan Mrs Brill, Mrs Harries, Mrs Farrow, Mrs Rowena Williams, Mrs Morina

Davies, Mrs Daniels, Mrs Maisie Morgans. I ddiweddu'r cyfarfod cafwyd te a bisgedi wedi eu rhoi gan Mrs Hilda Jones a Mrs Margaret Roberts.

Dathlwyd dyfodiad y flwyddyn newydd yn y Coleg yn Llambled ar Ionawr 9fed. Yno cafwyd lluniaeth blasus a chwmni diddan. Croesawyd pawb i'r ginio gan ddymuno blwyddyn newydd dda iddynt gan y llywydd, Mrs Dilys Godfrey. Ar ôl gwledda cawsom ein diddanu gan ganu swynol a thymhorol Mrs Bethan Evans ac yn gyfeilydd iddi roedd y pianydd dawnus, Mrs Margaret Jones. Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol Y Dderi ar Chwefror 6ed am ddau o'r gloch pryd y disgwylir Mr John Griffiths atom i ddangos lluniau o olion hanesyddol coedwigoedd Ceredigion. Croeso cynnes i bawb.

Merched y Wawr Y Dderi

Y llywydd Lettie Vaughan fu yn croesawu pawb gan ddymuno iddynt oll Flwyddyn Newydd Dda. Ein gwraig wadd oedd Mrs Martlock o Langybi. Cawsom noson ddifyr yn llawn gwybodaeth am wlaen lleol a'r gwahanol ddillad sydd yn cael eu cynhyrchu ohono. Eglurwyd i ni sut y sefydlwyd y fusnes yn Nyffryn Teifi. Mae'n syndod meddwl beth sydd yn cael ei gynhyrchu mor agos i gartref. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch am noson hyfryd gan y llywydd. Derbyniwyd gwahoddiad i ymuno â Changen Merched y Wawr Tregaron i'w cawl Gŵyl Dewi. Rhoddwyd y raffl gan Jennifer Mathias a Mair Spate a fe'u henillwyd gan Eleanor Evans, Deborah Jones, Mair Spate ac Iris Quan. I ddiweddu'r noson cawsom de a bisgedi wedi eu rhoi gan Gwyneth Evans ac Irene Lewis. I'r cyfarfod nesaf ar Chwefror 11eg disgwylir Eifion ac Yvonne Davies i ddangos tipyn o hen hanes Llambled. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Cydymdeimlo

Brawychwyd ardal eang pan ddaeth y sôn nos Iau, Ionawr 22ain am Mr Islwyn Thomas, Maesyfforest. Cydymdeimlir yn ddwys â David ei fab yn ei brofedigaeth lem, annisgwyl ac mor syfrdanol. Cydymdeimlir hefyd â theulu Maeslyn yn eu colled ar golli brawd yng nghyfraith ac ewythr ac â'r holl berthnasau a chyfeillion eraill.

www.clonc.co.uk

Gwefan
Papur Bro Clonc,
yn llawn lluniau a
gwybodaeth,
cyfle i chi gyfrannu,
a chyn rifynnau Clonc.



Hip hip hwre! Daeth tîm pêl-rwyd yr ysgol yn fuddugol yng nghystadleuaeth yr Urdd yng nghylch Llanbed, gan ennill pob gêm. Aelodau'r tîm oedd Ceri Davies, Ffion Quan, Rebecca Miller, Tierney Lloyd, Arianna Morris, Rhodri Evans a Rhodri Edwards. Diolch i Miss Rhian Jones am eu hyfforddi a phob lwc i chi yn y rownd siriol.



Cafwyd amser bendigedig yn dathlu'r flwyddyn newydd Tsieinaidd gyda'n ffrindiau yn y Confucius Institute, Prifysgol Llanbed. Trefnwyd cyngerdd arbennig gydag eitemau megis 'Dawns Y Llew', arddangosfa Tai Chi, Dawns Y Rhuban ac eitemau offerynnol. Braf yw nodi bod disgyblion blwyddyn 3 a 4 Y Dderi wedi bod yn canu cân yn Gymraeg, Saesneg a Tsieinëeg. Dathlwyd blwyddyn newydd yr ychen gyda 'fortune cookies' i bob plentyn â dymuniadau da am y flwyddyn.



CEREDIGION

Cwis y Sir

Cynhaliwyd cwis y sir ar y 27ain o Dachwedd. Bu tipyn o grafu pen ond llongyfarchiadau i'r clybiau canlynol am ddod i'r brig eleni:-

Cwis Cyffredinol – Cydradd 1af Felinfach a Llangeitho; 3ydd Llanwenog

Cwis Amaeth – 1af Trisant; 2il Felinfach; 3ydd Llanwenog

Canlyniadau Terfynol
– 1af Felinfach; 2il Trisant; 3ydd Llanwenog.

Ffair Aeaf

Bu nifer o aelodau yn cystadlu mewn cystadlaethau amrywiol gyda'r mudiad yn Llanellwedd ar y 1af a'r 2il o Ragfyr yn ystod y ffair aeaf. Daeth tipyn o lwyddiant i Geredigion – llongyfarchiadau i bawb! Dyma'r canlyniadau:-

Barnu carcass ŵyn

Dan 26 – Steffan Davies, Llanwenog 2il
Tîm – 1af

Barnu Gwartheg Cigyddion

Yn dilyn y cystadlaethau barnu daeth Ceredigion yn 2il agos – pwynt y tu ôl i'r enillwyr sef sir Drefaldwyn.

Cynllun Menter CFFI Cymru

Yn ystod y ffair, anrhydeddwyd Sioned Jones, C.Ff.I. Troedysraur, gyda thlws a gwobr ariannol o £800 sef y brif wobwr eleni. Mae Sioned wedi trawsnewid hen adeilad ar y fferm deuluol sef Pengallt, ger Llandysul yn 'ysgubor harddwch a sba diwrnod'. Llongyfarchiadau mawr i ti Sioned a dymuniadau gorau gyda'r fusnes i'r dyfodol.

Siarad Cyhoeddus Cymraeg

Cynhaliwyd tair noson lwyddiannus ym Mhrifysgol Cymru, Llanbed ar y 14-16eg o Ionawr, 2009. Cafwyd siarad graenus a darllen huawdl a llongyfarchiadau i'r 176 o aelodau a fu yn cystadlu. Dyma'r aelodau a ddaeth i'r brig:-

Dan 14 – Tîm Pontsian B yn 1af – Siriol Teifi, Guto Thomas a Gwentyth Richards

Cadeirydd a darlennydd gorau – Sioned Thomas, Trisant B

Dan 16 – Tîm Mydroilyn yn 1af – Gwenan Davies, Morgan Davies a Lia Jones.

Cadeirydd gorau – Ffiona Henson, Llanddeiniol A; Siaradwr gorau – Sarah Evans, Caerwedros B; Diolchdydd gorau – Gwenan Davies, Mydroilyn.

Dan 21 – Tîm Llanwenog yn 1af – Enfys Hatcher, Steffan Davies, Cerys Jones a Heilin Thomas. Cadeirydd gorau – Enfys Hatcher, Llanwenog; Siaradwr gorau – Cerys Jones, Llanwenog

Dan 26 – Tîm Llanwenog A yn 1af – Rhian Bellamy, Helen Howells,

Lyn Jenkins a Manon Richards. Cadeirydd gorau – Rhian Bellamy, Llanwenog A; Siaradwr gorau – Manon Richards, Llanwenog A.

Digwyddiadau

Chwefror 16-20 a 23

Cystadleuaeth adloniant y mudiad. Dros wythnos o bantomeim yn Theatr Felinfach. Tocynnau ar werth o swyddfa C.Ff.I. Ceredigion. Am fwy o fanylion ffoniwch 01545 571 333.

Chwefror 24 Y tri panto buddugol yn perfformio yn Theatr Felinfach.

Mawrth 6 Dawns Dewis Swyddogion C.Ff.I. Ceredigion yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth.

Mawrth 13 Rhowch gynnig arni – noson arbennig i gyn-aelodau'r mudiad yng Ngwesty Llanina, Llanarth. Croeso cynnes i bawb – noson gymdeithasol yng nghwmni hen ffrindiau!

SIR GÂR

Ar y 1af a'r 2ail o Fis Rhagfyr aeth nifer o aelodau C.Ff.I Sir Gâr lan i Ffair Aeaf Cymru yn Llanellwedd i gystadlu yng nghystadlaethau C.Ff.I Cymru. Fore Llun bu Owen Davies, C.Ff.I Dyffryn Cothi & Rhian Davies, C.Ff.I Llanllwni yn dangos eu doniau artistig yng nghystadleuaeth 'Gwisgo Coeden Nadolig'. Roedd y gystadleuaeth Magu Llo yn hynod boblogaidd eleni eto gyda phump o aelodau Sir Gâr yn cymryd rhan. Berwyn Hughes, C.Ff.I. Cwmann, Geraint Griffiths, C.Ff.I Dyffryn Cothi, Dylan Jones, C.Ff.I Dyffryn Tywi, Eirwyn Richards, C.Ff.I Dyffryn Cothi, Jenny Davies C.Ff.I Llanllwni oedd y pump. Fe ddaeth Berwyn Hughes, C.Ff.I Cwmman yn ail yn adran yr eidonau a Geraint Griffiths, C.Ff.I Dyffryn Cothi yn 3ydd yn adran y treishedi. Bu Eirwyn Richards, C.Ff.I Dyffryn Cothi yn cynrychioli'r Sir yng nghystadleuaeth trimo oen. Fe wnaeth Sam Joynson, C.Ff.I Llanllwni gystadlu yng nghystadleuaeth 'Shear Magic' sef cynllunio logo ar gyfer gornest gneifio'r byd a fydd yn dod i Gymru yn 2010.

Llongyfarchiadau mawr i bawb a wnaeth gystadlu a diolch yn fawr iddynt ac hefyd i bawb a wnaeth eu cynorthwyo.

Ar Ddydd Sadwrn 17eg Ionawr cynhaliwyd Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I Sir Gâr yn Ysgol Gynradd Nantgaredig.

Bu yna gystadlu brwd trwy gydol y dydd. Cafodd 3ydd Sioned Maskell, Rhian Davies a Daniel Joynson, C.Ff.I Llanllwni. Pob lwc i Rhian Davies, C.Ff.I Llanllwni fydd yn cynrychioli'r Sir yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus adran Iau yng nghystadleuthau lefel Cymru ym mis Mawrth.



Bryste oedd lleoliad y drydedd gyfres traws-gwlad. Rhian Jones yn gorffen yn safle 34 i ferched o dan 13. Yn ras y menywod Caryl Davies 110, Janet Jones 114, a Sian Jenkins 129. Richard Marks yn gorffen yn 128 yn y ras i'r dynion, Carwyn Thomas 157 a Gethin Jenkins yn 245.

Cafodd pump aelod o'r clwb eu dewis i gynrychioli Gorllewin Cymru yn Wrecsam.

Jessica Leitch yn cael ras dda ac yn gorffen yn drydydd ac yn cael medal efydd yn ras y menywod a Caryl Davies yn gorffen yn safle 14. Ras y menywod dros 35, Dawn Kenwright 6ed a Janet Jones 13. Ac yn y ras i ferched o dan 13, Rhian Jones yn gorffen yn 22.

Y dydd Sul canlynol ras Aberystwyth 10k. Jessica Leitch yn cael ras arbennig o dda a hi oedd y ferch gyntaf yn ôl yn adran y merched, mewn amser o 37 munud a 32 eiliadau, 129 - Caryl Davies 50m 54e. 134 - Janet Jones 51m 8e. Yn ras y dynion Carwyn Thomas yn gorffen yn 6ed, 35m 31e ac yn 7

- Glyn Price 35m 38e, 9 - Michael Davies 36m 16e, 18 - Richard Marks 37m 59e, 38 - Huw Price 40m 26e, 45 - Tony Hall 41m 29e, 83 - Andrew Edgell 46m 08e, 103 - Gareth Jones 48m.

Ddydd San Steffan teithiodd y rhedwyr i glwb gwledig Trefach, Crymych lle roedd y ras yn dathlu ei ugain oed. Ras hewl 7 milltir, Glyn Price yn gorffen yn yr ail safle a Carwyn Thomas yn drydydd, Huw Price 8fed, Gareth Jones 18fed a Janet Jones 20.

Dechrau da i'r flwyddyn newydd i'r clwb pan enillodd tîm A ras y Pursuit yn Crymych; aelodau tîm A oedd Huw Price, Michael Davies, Mark Dumsombe, a Carwyn Thomas. Tîm B yn gorffen yn 1leg – Andrew Edgell Gethin Jenkins, Lyn Rees a Haydn Lloyd. A'r tîm merched yn safle 17 - Sian Jenkins, Monica Barlow, Caryl Davies a Janet Jones.

Dydd Sul bu Rhian Jones yn cynrychioli ysgolion Dyfed mewn ras yng Nghaerdydd. Gorffennodd Rhian yn safle 70. Da iawn ti.

Cwmsychpant

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Betty Jones, Delfan ynghyd ag Eifion a'r teulu, Talarwen ar golli brawd ac ewythr sef Wil Rees, o Gynwyl Elfed yn ystod mis Rhagfyr.

Capel y Cwm

Tynnwyd y raffl flynyddol yn noson Coeden Nadolig y plant ddiwedd mis Rhagfyr. Dyma'r enillwyr:

£25 – Dai Richards, Elmo
£20 – Jones, Cornicyll
£15 – Tony Hatcher, Abernant
£10 – Eifion Jones, Talar Wen
£10 – Ifan a Dafydd, Rheol
£10 – Gwen, d/o Brynmerau

Aelodau Newydd

Y prynhawn Sul cyntaf yn 2009, ar ddiwrnod digon gaeafol, croesawodd y Parch. Wyn Thomas bedwar aelod newydd i Gapel y Cwm, sef Hedydd a Catrin Jones, Talar Wen a Deian ac Einir Ryder, Tyngrug-ganol. Roedd y pedwar yn gyn aelodau'r Ysgol Sul yn y Cwm ac yn hen gyfarwydd â phopeth sy'n digwydd yn y Cwm. Croeso cynnes i chwi eich pedwar.

Gwelliant i'r Festri

Yn ystod y mis drwy haelioni y diweddar Mrs Sally Jenkins, Craigle cafodd gwelliannau eu gwneud i Festri'r Capel drwy roi cegin newydd i fewn. Diolch i'r bechgyn a fu wrthi yn cyflawni'r gwaith. Byddai'r diweddar Mrs Sally Jenkins yn bles iawn gweld y gwaith

gorffenedig.

Gwellhad Buan

Ddechrau mis Ionawr pan oedd y tywydd yn rhewllyd, cafodd Lilwen Davies, Brynawel ddamwain gartref a thorri ei phigwrn. Gobeithio erbyn hyn dy fod yn teimlo llawer yn well.

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Einir Ryder, Tyngrug-ganol ar ennill Cwpan Victor Edwards am yr Aelod Mwyaf Gweithgar yng Nghlwb Pontsian yn ystod 2008. Cyflwynwyd y cwpan iddi yng Nghinio Blynnyddol y Clwb yn Llanfynydd ym mis Ionawr.

Siarad Cyhoeddus Cymraeg - C Ff I Ceredigion

Llongyfarchiadau i bawb, boed yn aelod o Glwb Pontsian neu Lanwenog, a fu yn cystadlu yn y gystadleuaeth uchod yn ystod y mis. Da iawn chi a phob lwc eto i'r dyfodol.

TREC MENCAP CYMRU I BATAGONIA

Gan Ieuan Roberts

Fis Mai 2007 y clywais am y trec elusennol i Batagonia yr oedd Mencap Cymru yn ei drefnu ar gyfer Hydref 2008 yng nghwmni Iolo Williams. Ond cymerodd dair wythnos imi godi digon o hyder i sôn wrth Margaret am fy mwriad i fynd. Bwriad y trec oedd cerdded a champio am bum diwrnod ym Mharc Cenedlaethol Los Glaciares, sydd fil o filltiroedd i'r de o'r Wladfa, cael diwrnod yn gweld y morfilod ar benrhyn Valdes, diwrnod yn y Gaiman, Y Wladfa, cyn dychwelyd trwy Buenos Aires. Ni chafodd groeso mawr ganddi am y golygai godi o leiaf £3,500 ond cofrestrais gyda Mencap gan fwriadu codi y rhan fwyaf o'r arian drwy werthu cynnyrch fy hobi, sef cerfio llwyau caru a gwaith turnio coed.

Mae Mencap yn elusen sydd yn cynorthwyo rhai ag anawsterau addysgol o bob oed. Mae'n gweithredu ledled Cymru ac yn berchen ac yn rhedeg cartref Gelllilon, Heol Newydd, Llanbed.

Ar ôl llwyddo i gasglu mwy na'r isafswm, gwneud digon o ymarfer cerdded gyda phac trwm ar y cefn, a chasglu'r gêr pwrpasol, dyma gyfarfod yn Gatwick gyda'r deugain arall a oedd yn cymryd rhan ar yr 16eg o Hydref ac yn hedfan i El Calafate yn ne Patagonia trwy Madrid a Buenos Aires. Nid oeddwn yn edrych ymlaen at yr holl hedfan.

Roedd y rhewfrynau (icebergs) yn arnofio ar Lyn Argentina ger maes awyr El Calafate yn olygfa hudolus a chafwyd ymdeimlad o'r paith wrth yrru mewn bws am dair awr i dref fechan El Chalten a gweld guanacos, rhea, gwyddau yr ucheldir, gwartheg Hereford, defaid Merino a cheffylau ar y tir anial a oedd yn dangos yn eglur effeithiau rhewlifol ond ychydig filoedd o flynyddoedd yn ôl. Ardal sych iawn yw hon gan fod y gwynt yn dod o'r gorllewin dros flynyddoedd yr Andes ac yn gollwng y dŵr i gyd ar y mynyddoedd yn ffurf eira. Maes eira de Patagonia yw'r trydydd mwyaf yn y byd ar ôl Antartica a'r ynys Werdd a'r syndod yw bod yr ardal ond cyn belled i'r de o'r cyhydedd ag yw ardal Paris i'r gogledd ohono.

Cyrraed tref fechan El Chalten a oedd ond wedi ei sefydlu yn 1985 yn wreiddiol i sicrhau na fyddai gwlad Chile yn hawlio'r ardal. Ond gwelodd yr Ariannin ei photensial fel canolfan drecio a dringo mynyddoedd. Mae'n dal fel tref ffin, 'frontier town' gyda strydoedd llwch. Aros dros nos yn hostel Fitzroy cyn cael y cyfan y byddwn ei angen am 5 diwrnod o drecio i mewn i'r bag cefn a dechrau ar y trec ar ôl cinio a cherdded am y mynyddoedd drwy goedwig ffawydd y de, Nothofagus. Cyrraedd y camp cyntaf mewn da

bryd i fynd i weld rhewlif a llyn Torre a gweld dau gondor yn hedfan yn uchel uwch y mynyddoedd. Nifer o bebyll yn y goedwig oedd y camp gyda dim cyfleusterau o gwbl ac ar ôl tamaid o fwyd, dyma fynd i'r sach gysgu gyda'r eira'n cwmpo tu fas. Codi drannoeth wrth i'r wawr dorri am 6.30 a haen o eira ar y llawr, rhoi popeth yn ôl yn y sach gefn, tamaid o frecwast a dechrau cerdded am 8.30. Cael fy nghyfweld gan Iolo a oedd yn gwneud eitem i'w raglen radio, Byd Iolo, tra'n cerdded drwy'r goedwig yn y bore a chael cawod drom o eira yn y prynhawn. Roedd yr ail gamp ger llyn Capri, yn debyg i'r gyntaf a gwelsom adar cara cara, bronfraith austral a deryn to gwddwg rufous a bu rhagor o eira eto dros nos.

Roedd y tywydd wedi gwella'r bore wedyn a braf oedd cerdded mewn ychydig o eira gydag ochr ddeheuol mynydd Fitzroy yn uchel o'n blaen. El Chalten yw ei enw Indiaidd, sef mynydd tân, gan fod y cymylau wastad fel mwg drosto. Ond cafodd yr enw Fitzroy ar ôl capten 'Y Bounty', llong Charles Darwin. Gweld dom puma yn yr eira a chnocell y coed Magellan gyda'i ben coch llachar ar gorff du, cyn cael golygfa wych o rewlif a llyn Piedras Blancas wrth odre Fitzroy. Dod ar draws lwmpyn o bren cnotiog ffawydd y de ac i'r sach cefn ag ef, er na ddylwn. Ond fe wnâi gofnod da o'r gwyliau ar ôl ei durnio. Ymhen naw milltir, cyrraedd camp Piedra del Fraile yn gorwedd wrth lan afon Electrico a gweld bod ystafell gymdeithasol o sinc a tân coed ynddi a bar hefyd – roeddem wedi cyrraedd yr Hilton!

Cliriodd y cymylau dros nos a gostyngodd y tymheredd i 10C yn is na'r rhewbwynt, ac roedd rhai yn oer iawn yn eu sachau cysgu, ac eraill wedi gweld Croes y De, y 'Southern Cross' tra'n gorfod codi ganol nos! Gwawriodd yn fore bendigedig a mewn dim gweld yr haul yn goleuo pinaclau'r mynyddoedd yn oren llachar. Hwn oedd y diwrnod pwysicaf i weld y golygfeydd ar y trec a buom yn ffodus i gael y tywydd o'n plaid. Cerdded i fyny dyffryn Electrico dros nifer o farianau o gerrig a chreigiau a oedd wedi cael eu gadael gan rewlif Marconi a ymestynnai ymhellach i lawr y dyffryn. Cael gorffwys uwch llyn Electrico gyda'i ddŵr glaswyrdd rhewlifol, a gweld y gwynt yn chwythu'r eira ffres oddi ar y pinaclau o'n cwm pas a'r awyr las yn gefndir. Sylwi ar y creiglus, y mwsoglau a'r cnwpfwsoglau ar y llawr a'r cennau duon ar y creigiau ar ffurf ffan, - yr unig fywyd a oedd yno. Dringo ychydig yn galetach nes cyrraedd llyn Polone ar uchder tua 3300 troedfedd a gweld ochr ogleddol mynydd Fitzroy yn disgleirio yn yr haul yn fur o graig igneaidd ryw 8000 troedfedd yn uwch na ni. Yr hyn a'm syfrdanodd

oedd bod y rhewlifoedd ar ochr ogleddol Fitzroy, a oedd yn wynebu'r haul, wedi cilio llawer mwy na'r rhai ar yr ochr ddeheuol y gwelsom y diwrnod cynt a hynny'n dangos effaith gwres yr haul a chynhesu byd eang yn eglur.

Ar ôl cinio, dychwelyd i lawr i'r camp yn gynnwys a chael cyfle i orffwys a gweld perchnogion y lle yn paratoi gwledd ar gyfer y noson honno, sef asado oen. Fe aeth i lawr yn fendigedig gyda sawl can o gwrw a chanu mawr ar ôl hynny. Noson fawr. Roedd cerdded y diwrnod olaf yn hawdd i lawr y dyffryn am 6 milltir mewn glaw ysgafn i gyfarfod â'r bysiau ac yn ôl i El Chalten. Cael cinio yno, cyn y daith bws i El Calafate, hedfan i Drelew, a bws i westy ym Mhorth Madryn.

Y bore wedyn, taith bws i Benrhyn Valdes i weld morfilod cywir y de 'Southern right whale' o borthladd Puerto Piramides ar ochr ogleddol Golfo Nuevo. Maent yn dod i'r fan honno i roi genedigaeth i'w lloi gan ei bod yn gysgodol yma a gwelsom nifer fawr o fuchod a lloi ac ambell darw yn ymddangos wrth neidio'n uchel allan o'r môr cyn gweld eu cynffon wedyn yn suddo i'r dyfnderoedd. Ar ôl cinio arall o asado oen ym Mhunta Delgada, mynd i lawr i'r traeth i weld morfilod trwyn eliffant gyda'u lloi bach a'r teirw yn bygwth ei gilydd yn aml. O'r bws gwelsom dylluan dyrchol, mara Patagonia, ysgyfarnogod, petris Patagonia a cheiliog rhea yn edrych ar ôl nifer fawr o gywion bach. Cyn swper, cael cyfle i gerdded prom Porth Madryn i weld y gofeb i'r Gymraes.

Y bore wedyn, galw yn ardal Y Glaniad ym Mhorth Madryn i weld sawl cofeb i'r ymfudwyr ac i'r Indiaid ac yna cael cip ar weddillion yr ogofau yr oeddent wedi eu creu yn lloches yn y graig feddal ar lan y môr, cyn cychwyn ar ein taith bws i'r Gaiman. Y bwriad oedd treulio'r bore yng Ngholeg Camwy yn y Gaiman ac yna weddill y diwrnod yn y Gaiman a Threlew i gael peth o naws y Wladfa cyn hedfan am Buenos Aires am 11.00 y nos. Ond cawsom siom fawr pan glywsom bod awyren y noson honno wedi ei chanslo ac y byddai'n rhaid mynd am 1.00 y prynhawn



hwnnw. Cyrraedd Coleg Camwy a chael ein gwefreiddio wrth weld y plant Indiaidd â diddordeb am Gymru a'r Gymraeg yn tynnu dagrau i'n llygaidd. Cyflwynwyd iddynt gopi o'r Gwyddoniadur, lamp mwynwyr a llwy garu gennyf fi, ynghyd â nifer o lyfrau Cymraeg. Ond mewn dim o dro rhaid oedd gadael am Buenos Aires.

Aeth nifer ohonom i weld arddangosfa Tango gyda'r nos yn dilyn pryd o stêc, fel y dylai stêc fod, yn fwy na modfedd o drwch gyda haenen dda o fraster, yn toddi yn ein cegau. Mae'r Archentwyr yn gwybod sut i goginio cig gan ddechrau gyda bridiau sydd yn aeddfedu'n araf fel yr Henffordd, ac felly yn llawn blas. Treuliwyd y diwrnod olaf o amgylch y ddinas gan weld cofeb rhyfel y Malvinas, yr Eglwys Gadeiriol ac ardal ddiddorol a lliwgar La Boca a Caminito, a gwneud peth siopa ar gyfer anrheg neu ddwy. Ond rhaid oedd bod yn ofalus rhag drwgweithredwyr – cafodd pedair o'r merched brofiad o ddwyn! Hedfan yn ôl am Gymru fach dros nos.

O edrych yn ôl, roedd yn brofiad enfawr ond mae sawl peth yn serennu i mi.

- Maint y wlad a chymaint ohoni yn anial o gymharu â Chymru.
- Er ehangder y goedwig yn y mynyddoedd, dim ond tair rhywogaeth o goed oedd yno a'r rheiny o'r un teulu
- Cyfarfod â'r athrawon a'r plant yng Ngholeg Camwy
- Gweld y morfilod a'r morloi
- Os am gig, ewch i'r Ariannin
- Yn fwy na dim - rwyf yn gyfarwydd â gweld effeithiau rhewlifant ugain mil o flynyddoedd yn ôl ar dirwedd Cymru ond gwelais y peth yn digwydd yn y presennol o flaen fy llygaidd – gwefreiddiol!



Enw: Sioned Williams

Oed: 23

Pentref: Pentrebach

Gwaith: Cynorthwydd Cyllid i LAS Recycling Ltd

Teulu: Huw, Joy a Rhydian

Unrhyw hoff atgof plentyndod.

Mynd i Key Camp yn Ffrainc pan oeddwn tua 6 gyda sawl teulu arall, chwarae ar y traeth a gwneud Pyramidiau dynol!

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.

Smyrffs.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.

Dod adre un nos Sadwrn yn feddw, cwympo mewn i'r bath a gorfod cael mam i helpu fi allan ac i'r gwely.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.

I edrych bob ochr cyn croesi'r hewl.

Y CD cyntaf a brynast di erioed?

Kylie Minogue Greatest Hits

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?

Person trin gwallt.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?

Ar dop yr Alpau yn barod i sgïo lawr y mynydd gyda'r haul yn gwenu.

Beth yw dy lysenw?

Window.

Y peth gorau am yr ardal hon?

Bod yn agos i'r teulu a ffrindiau.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?

Pan mae Bev wedi cloi drws y Bush ac yn pallu gadel ni i mewn i'r dafarn ar nos Sadwrn!

Pa mor wyrdd wyt ti?

Gwyrdd iawn.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?

Pobl hunanol a chefnogwyr y Scarlets!



Beth sy'n codi ofn arnat?

Bod mewn car gyda Loïuse yn gyrru!

Beth oedd y celwydd diwethaf i ti ddweud?

Fy mod i yn wyrdd iawn!

Unrhyw ofergoelion?

Dweud 'touch wood' ar ôl popeth wrth gyffwrdd a fy mhen.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n gryf?

Mynd i siopa'n ddigon aml a phrynu lot o beth. Fel'ny mae'r cyhyrau'n tyfu!

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?

Ceisio rhedeg yn gyflymach na Donna ar y treadmill yn yr ystafell ffitrwydd bob wythnos.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?

I Fod yn gwrtais i bawb.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.

Marwolaeth Dad-cu wythnos cyn mynd i'r Brifysgol ym Mryste.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.

Egniol, hapus a drygionus.

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?

'Seriously Blonde Sometimes' meddai Carys! Wi'n credu bydde pawb arall yn cytuno gyda hi!

Pa gar wyt ti'n gyrru?

VW Golf.

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?

Y merched i gyd, gallwn ni gael parti yn yr haul bob dydd.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?

Chinese.

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?

250.

Hoff gân ar dy ipod?

Katy Perry – Hot n Cold achos rwy'n gallu dychmygu Louise yn gwneud y symudiadau!

Sawl tecst y dydd wyt ti hala?

Dibynnu – gall fod rhwng 1 a 40.

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?

Gary 'Angelina Jolie' Davies!

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?

Beryl, Cheryl a Meryl dros y Nadolig!

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?

Bydden i eisiau coesau hirach.

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?

Llygaid (glas golau fel rhai dad-cu).

Beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?

Socks a Pants (y ddwy gath) a mhasbort i.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?

Siarad Ffrangeg.

Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?

The Verve – The drugs dont work yn cael ei chanu fel deuawd rhwng Angharad ac Elinor (os fyddan nhw dal yn fyw wrth gwrs)!

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?

Iechyd.

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti?

Teulu a ffrindiau.

Arferion gwael?

Binge drinking!

Unrhyw dalentau cudd?

Rwy'n gallu coginio Cacen Gaws bendigedig!

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?

Diffodd y golau.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?

Dal adre yn gwario arian Dad!

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:

Llyr Thomas, Cwmann

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

		4		1			5
5			9				
8		3	4			7	
		1	3	8			7
7							9
9				6	1	2	
		6			7	3	2
					4		8
3				2		4	

		4		1			5
5			9				
8		3	4			7	
		1	3	8			7
7							9
9				6	1	2	
		6			7	3	2
					4		8
2				3		4	

Diolch i bawb a gysylltodd i ddweud bod gamgymeriad yn Swdocw mis Rhagfyr. Ymddiheuriadau i'r cystadleuwyr i gyd. Dyma ddwy fersiwn o'r un swdocw. Rhowch gynnig ar un o'r rhain. Does dim rhaid i chi gynnig eto os ydych wedi gwneud yn barod gan gywiro'r un y mis diwethaf.

Clwb Cerdded Plwyf Pencarreg

Parcyrhos oedd man cychwyn ein taith flynyddol ddydd Sant Steffan 2008 dan arweiniad arbennig Irfon Williams sydd hefyd yn hanesydd lleol penigamp. Pentre bychan ym mhlwyf Pencarreg yw Parcyrhos gydag afon Eiddig yn rhedeg islaw. Gwyddom fod yma dai a chymdeithas o tua 1700 ymlaen. Gadawsom Barcyrhos a cherdded heibio Capel y Bedyddwyr, Caersalem a adeiladwyd yn 1840. Soniwyd mai afon Eiddig fu'r bedyddfan gwreiddiol. Cerdded ymlaen nes cyrraedd Bridfa Malog a throi i'r chwith i fyny rhiw Pant y Byr. Oddi yma flynyddoedd yn ôl y pibellwyd dŵr i Barcyrhos. I fyny heibio Gellifelen sydd ar ei newydd wedd erbyn hyn tuag at Gellidewi Uchaf lle cafwyd ychydig o hen hanes y fferm. Mae'n debyg fod Daniel Evans yn ffermwr ac yn gludydd nwyddau tua 1820-1835. Enwau rhai o'r gwartheg yr adeg honno oedd Ffans, Fflower, Benwen. Dyma gofnod o'r masnach: Mai 30 1826, Cludiant o Gaerfyrddin i John Thomas, 1 Cask of Powder, 3 Bunches of Iron Rods, 12 Saucepans, 1 Chest of Scrap, 1 Bag Rice, 3 Bars Russian Iron, 1 Bag Logwood. Tachwedd 15 1824, Cludiant o Gaerfyrddin i Thomas Davies, 4 Bars of Iron £8, Cask of Oil £4, Hide of Leather £1-3-6. Samuel, Pyllecrynion 5 llwyth o Galch 2/9d y llwyth. Gorffennaf 27 1830, Cludiant rhyngl derw o Tanlan i Gaerfyrddin dros William Davies Saer i Mr. Walters.

Dal i gerdded i fyny heibio olion Pengaerwen lle gwelsom olion y ffynnon dan y bwthyn bach. Cyrraedd Fraich Esmwyth lle roedd cartref tadcu D. J. Williams, awdur Hen Dŷ Fferm yn byw. Thomas Morgan oedd ei enw ac roedd yn Fedyddiwr mawr ac yn un o sylfaenwyr Eglwys Caersalem. Braf hefyd yw gweld fod Fraich Esmwyth ar ei newydd wedd. Erbyn hyn rydym wedi dringo digon i weld dyffryn Teifi a Sir Aberteifi. Cyrraedd godre'r Gaer Rufeinig ar dir Gellidewi. Gweld olion Cefnheblwyn ar y chwith ac islaw ychydig, gartref Hannah Dafis, Tangaer. Gwneud defnydd wedyn o hawliau tir gofal a charedigrwydd Eiddig a Gwen Jones a cherdded i fyny i'r gaer. Ac oddi yma roedd Irfon yn gallu sôn wrthym am yr olygfa - gogledd Cymru, Sir Gâr a Phenfro. Yna cerdded tuag at Bentaseithin sydd tua 1350 troedfedd uwch y môr, safle cyfarfod arbennig am anghyfiawnder cefn gwlad yn 1840. Cewch fwy o hanes yn llyfr Plwyf Pencarreg gan CFfl Cwmann. Nôl heibio hen fferm Victoria Park a cherdded rhwydd nôl am Barcyrhos. Gweld arwydd ger Erowen fod tŷ newydd i'w adeiladu

a lawr wedyn am Manglas ac hen ysgoldy Rhydygwin lle bu plant yr ardal yn mynd cyn adeiladu ysgolion Plwyf Pencarreg. Y felin yn dawel yn Felinsych a llawer o'r cerddwyr wedi blino ac yn falch o weld mwg y pentref eto. Diolch i'r arweinydd a'r cerddwyr am ddiwrnod hwylus o hanes a sgwrsio.

Cymdeithas Bethel Parcyrhos

Cawsom noson hwylus iawn nos Lun Ionawr 19, pan gynhaliwyd cwis blynyddol yr ofalaeth. Mae gofalaeth y Parch Huw Roberts yn ymestyn o'r Teifi i'r Cothi. Croesawyd y chwe thîm yn gynnes gan yr Is Lywydd, Mrs. Ann Lewis ynghyd â Mr a Mrs Terry Davies, Cwmann a oedd wedi paratoi'r cwestiynau. Dywedodd Mrs. Lewis bod y cwis ar eu seithfed tymor ac mai braf oedd dod at ein gilydd i gymdeithasu. Brwd fu'r cystadlu ac Eglwys Ffaldybrenin a orfu. Cyflwynwyd y Cwpan Her a Rhodd gan Mrs. Huw Roberts a thalwyd y diolchiadau gan y gweinidog a diolch i ferched Bethel am y lluniaeth.

Ysgol Carreg Hirfaen

Ymdeoliad Mrs Harrison a Mrs Williams

Mae Mrs Glenys Harrison a Mrs Margery Williams, athrawon a roddodd wasanaeth arbennig i Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen tros gyfnod maith o flynyddoedd, wedi ymdeol o'u swyddi dysgu ddiwedd tymor yr Hydref, 2008. Yn dilyn eu cyfnod maith yn gwasanaethu'n plant, ac fel arwydd o ddiolch, rydym yn trefnu casgliad er mwyn cyflwyno rhodd fach o werthfawrogiad i'r ddwy mewn cyngerdd a drefnir gan yr ysgol yn hwyrach yn nhymor y Gwanwyn.

Os dymunwch gyfrannu tuag at y rhodd, a wnewch chi ddanfôn eich cyfraniad i'r ysgol mewn amlen ddiogel wedi'i chyfeirio at y Pennaeth erbyn dydd Llun, Mawrth yr 16eg.

Dechrau tymor, dechrau blwyddyn, dechrau cyfnod newydd!

Yn dilyn y siom o orfod cau drysau unedau Ffarmers a Llanycrwys ddiwedd tymor yr Hydref 2008, braf iawn yw croesawu nifer o'r disgyblion i lawr yma i uned Coedmor yng Nghwmmann. Maent oll wedi setlo'n dda, yn mwynhau cwmni ffrindiau newydd ac yn adeiladu ar gyfeillgarwch hen ffrindiau. Er bod yr ysgolion wedi cau yn y ddau bentref, bydd Carreg Hirfaen yn parhau i ddefnyddio'r adnoddau gwybodaeth a geir yn yr ardal a chefnogi'r llu gweithgareddau a geir yno yn ystod y flwyddyn.

Bydd Eisteddfod Gŵyl Dewi'r ysgol yn cael ei chynnal eleni eto yn Neuadd Bro Fanna ddydd Gwener, Chwefror 27ain. Mae croeso cynnes i chi.

Yn dilyn prysurdeb y paratoi yn ystod tymor yr Hydref, roedd cyffro mawr ymhlith y plant, y staff a'r rhieni ar ddechrau'r tymor wrth i'r caban dysgu newydd gael ei ddefnyddio am y tro cyntaf. Mae'r caban yn un ysblennydd, yn rhoi lle ychwanegol i'r disgyblion ac yn darparu amgylchedd lliwgar, hyfryd ar gyfer addysgu plant y Cyfnod Sylfaen.

Bu plant o flwyddyn 3 a 4 ac o flwyddyn 5 a 6 yn cystadlu mewn cwis llyfrau yn ystod y mis. Roedden nhw wedi mwynhau darllen, thrin a thrafod y llyfrau yn fawr iawn. Llongyfarchiadau ichi gyd am wneud yn dda ac yn arbennig i dîm blwyddyn 5 a 6 am fynd drwyddo i gystadleuaeth y sir sydd i'w chynnal yn mis Ebrill. Pob lwc !

Mi gafodd plant Cyfnod Allweddol 2 ddiwrnod prysur ddydd Gwener 23ain o Ionawr. Yn y bore fe aeth tîm pêl rwyd yr ysgol, sef merched o flynyddoedd 4, 5 a 6, i Ganolfan Hamdden Llambled i gynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth pêl rwyd cylch yr Urdd. Fe wnaethon nhw'n arbennig o dda. Brynhawn dydd Gwener fe aeth plant blwyddyn 6 i Ysgol Uwchradd Llambled er mwyn cael rhagor o brofiadau gwyddonol. Cafodd blwyddyn 3, 4 a 5 hefyd gyfle

i ddysgu mwy am wyddoniaeth wrth fynd i Ysgol Gynradd Llanybydder gydag ysgolion eraill y cylch. Maent wedi mwynhau eu profiadau yn fawr iawn.

Ddydd Gwener 9fed Ionawr, bu plant Cyfnod Allweddol 1 yn Theatr Felinfach i weld perfformiad o bantomeim Cymraeg Martyn Geraint, sef "Martyn, Mam a'r wyau Aur". Cafwyd llawer o chwerthin, canu a hwyl a sbri.

Llongyfarchiadau i Daniel Thomas o flwyddyn 4 am ddod yn gyntaf yn y ras rydd yn Gala Nofio'r Urdd yng Ngheredigion yn ddiweddar. Pob lwc iti nawr yn Gala Cymru yn Abertawe.

Clwb 170 – Enillwyr Tachwedd

1 – Gwen Jones, PerryMore, Cwmann, 2 – Jean Thomas, 4 Cwrt Deri, Cwmann, 3 – M. M. Evans, Dan Y Wenallt, Llambled, 4 – Wayne Evans, Anwyllfan, Llanllwni, 5 – Geraldine Hardy, Trewerin, Cwmann, 6 – Marian Roberts, Cyswch, Cwmann, 7 – Dewi Davies, Dolfelin, Tregaron, 8 – Phyllis Price, Brynderi, Cwmann, 9 – Elizabeth Warmington, Falklands, Llambled, 10 – Gwennie Douch, 1 Heol y Fedw, Cwmann.

Enillwyr Rhagfyr

1 – Eirian Jones, Hollies, North Road, Llambled, 2 – D. T. Davies, Brynteify, Cwmann, 3 – Fiona Jones, 13 Heol Hathren, Cwmann, 4 – Irfon Williams, Bryneiddig, Cwmann, 5 – Lena Williams, 39 Heol Hathren,

Cwmann, 6 – Beryl Doyle, Caradog View, Cwmann, 7 - Shirley Northam, 38 Bro Einon, Llanybydder, 8 – Mrs Shaw, Bryngwyn, Gorsgoch, 9 – Jean Davies, 2 Heol y Maes, Pencarreg, 10 – Rosa Lloyd, 8 Heol Hathren, Cwmann.

Enillwyr Ionawr 2009

1 – Eira Williams, Brynmeusydd, Parc-y-Rhos, 2 – Marian Evans, Bronallt, Cwmann, 3 – Yvonne Thomas, Flat 1, Priordy, Llambled, 4 – Mary Jones, 41 A, Stryd Fawr, Llambled, 5 – David John Evans, Blaenbiderfi Isaf, Cwmann, 6 – Edwin Harries, 8 Nant-y-Glyn, Cwmann, 7 – Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann, 8 – Gwenna Evans, Ty Newydd, Llambled, 9 – Rhian Harries, Llain Delyn, Cellan, 10 – Eirian Jones, Hollies, North Road, Llmabed.

Clwb 225 Enillwyr

1 – John Lloyd, Pwllaucrinion, Cwmann, 2 – Elin a Kevin Jones, Caernant, Cwmann, 3 – Gwenda Jones, 47 Heol Hathren, 4 – Marion Evans, Bronallt, Cwmann, 5 – Gwenda Thomas, Tegfan, Cwmann, 6 – Cyril Davies, Brynteg, Llambled, 7 – Eifion Davies, Rhos Welir, Parcyrhos, Cwmann, 8 – Helena Gregson, Werna, Cwmann, 9 – Mr a Mrs Samson, Bryndolau, Pumsaint, 10 – Tommy Price, Gelliwrol, Cwmann.

Diolch

Dymuna Mrs Vivienne Evans, Coed y Waun, Parc y Rhos ddiolch am bob neges a mynegiant o gydymdeimlad a dderbyniodd hi a'r teulu pan fu farw ei mam yn ddiweddar. Bu hyn yn gymorth ac yn gysur mawr iddynt trwy gyfnod anodd. Hoffai Mrs Evans ddiolch hefyd i Dr R. Mathew, Dr Lloyd Jones a Dr Imam am eu hymdrechion diflino yn ystod salwch ei mam.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Evans Ddeunant Hall a'r teulu ar golli ei chwaer Mrs Evans, Llaindeg, Crugybar.

Yn yr un modd estynnwn ein cydymdeimlad â Graham Hope a'r teulu Postgwyn ar golli ei fam, a Mrs Jones, 3 Heol Hathren ar golli chwaer adeg y Nadolig. Hefyd â Mrs Delia Williams, Fronafon ar golli ei chwaer yng nghyfraith, Mrs Evans, Tyncoed Cellan. Gobeithio fod pawb a fu'n sâl dros y misoedd diwethaf ar wellhad erbyn hyn.

Babanod Newydd

Ganed Harri, mab bach i Paul a Ffiona, Llysteifi ac ŵyr cyntaf Eleri Davies, 13 Heol Hathren a Nan Jones, Glynsawel. Yn mis Ionawr ganed Tudur Llwyd, mab bach i Sian a Gethin, Croesor ac ŵyr i

Cwmann

Ann a Ronnie Roberts, Brynview. Llongyfarchiadau i'r ddau deulu a phob bendith.

Diolch

Dymuna Lena Williams, 39 Heol Hathren ddiolch i bawb am y cardiau, yr anrhegion a'r blodau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd nôl yn mis Tachwedd.

Gwellhad

Dymunwn wellhad i Gerwyn Morgan, 12 Heol Hathren sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Treforys cyn y Nadolig. Yn ystod yr wythnos ddiwethaf bu'n rhaid iddo fynd nôl i'r ysbyty oherwydd anhwylder. Brysiwch wella.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Vivienne Evans a'r teulu Coed y Waun ar golli ei mam ychydig cyn y Nadolig.

Eglwys Sant Iago

Fore Sul Rhagfyr 28ain cynhaliwyd gwasanaeth teuluol yn Eglwys Sant Iago pan ddaeth nifer dda ynghyd i ddweud ffarwel a thalu teyrnged i'r Gwir Barchedig Andy Bangor sydd wedi bod yng ngofal plwyf Pencarreg ac eglwysi Cwmann, Pencarreg a Llanycrwys ers dwy flynedd. Bu hefyd yn Archddiacon Ceredigion. Gwelwn eisiau ei arweiniad ysbrydol yn y ddeoniaeth. Cyflwynodd Mr Danny Davies, y warden, siec iddo ef a'r teulu yn werthfawrogiad am ei waith yn yr eglwys gan ddymuno yn dda iddo ar ei ddyrchafiad i swydd Esgob Bangor ynghyd â phob bendith iddo ef a'i deulu yn eu cartref newydd. Cawsom wasanaeth bendithiol a ddarlleniad o'r Hen Destament gan Mr Graham Evans gyda Mrs Ceinwen Evans wrth yr organ. Diolchodd yr Esgob i bawb am eu presenoldeb a'r rhodd a dderbyniodd, hefyd am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd ef a'i deulu yn ystod eu cyfnod hapus iawn yn y Ficerdy yng Nghwmann. Diolchodd yn arbennig i'r ddau warden ffyddlon, Mr Danny Davies a Mr Graham Evans ynghyd â swyddogion yr eglwys am eu cydweithrediad a'u cymorth bob amser. Ar ôl y gwasanaeth daeth pawb ynghyd yng Ngwesty Glyn Hebog lle bu cymdeithasu hwylus wrth i bawb fwynhau cinio blasus. Darllenwyd penillion pwrpasol iawn i'r Esgob gan Mr Graham Evans. Roeddent wedi eu cyfansoddi gan y Parchedig Ganon Winzie Richards. Cawsom deyrnged a diolch gan Mr Danny Davies a'r Parchedig Ganon Winzie Richards, y ddau yn dymuno bendith Duw i'r Esgob a'i deulu i'r dyfodol wrth iddynt ymgartrefu ym Mangor. Cafwyd ymateb o ddiolch twymgalon gan yr Esgob. Diolch

o galon i Ceinwen a Graham am drefnu'r diwrnod mor gymwys. Edrychwn ymlaen yn awr at fynd i'r Gadeirlan ym Mangor ar Ionawr 24ain i'r gwasanaeth gorseddu.

Cyngerdd Sant Iago

Nos Sul 14eg Rhagfyr roedd eglwys Sant Iago yn llawn ar gyfer cyngerdd gan Gôr Tŷ Tawe dan arweiniad Helen Gibbon. Croesawyd y côr gan y Gwir Barchedig Andy Bangor. Yr unawdydd oedd y tenor adnabyddus, Teifryn Rees. Cawsom wledd o ganu ysbrydol a Nadoligaidd dan arweiniad medrus Helen Gibbon a chyfle i glywed ei llais swynol a medrus fel unawdydd profiadol ac adnabyddus ledled y byd. Roedd yr eglwys wedi ei haddurno yn dymhorol iawn ac yn creu naws bendithiol a chynnes iawn a phawb wedi eu gwefreiddio gan leisiau'r côr. Methodd llywydd y noson, sef Mrs Kathleen Watts o Abertawe fod yn bresennol oherwydd salwch ond anfonodd ei dymuniadau gorau a diolch am y gwahoddiad gan ddweud bod ganddi atgofion melys iawn am ei hamser yn yr ardal pan oedd ei thad, y Parchedig D. Lloyd Jones yn ficer yn Cwmann o 1943-1952. Cyflwynodd yr Esgob ferch Mrs Kathleen Watts sydd yn byw yn Ficerdy Silian, sef Mrs Janet Bray i'w chynrychioli yn y cyngerdd a chafwyd araith bwrpasol iawn ganddi yn sôn am ei hatgofion wrth dreulio amser yn y ficerdy fel plentyn gyda'i thad-cu a'i mam-gu. Roedd yn hapus iawn cael dod nôl i'r eglwys ac roedd yn bleser ganddi gynrychioli ei mam yn llywydd y nos. Cyflwynwyd basged o flodau iddi gan Mrs Lena Williams. Gwnaed elw sylweddol tuag at gronfa'r eglwys ac at nyrsys y gymuned, Meddygfa Taliesin, Llambod. Diolchodd yr Esgob i'r Côr ac i'w harweinydd, a oedd yn hefyd yn unawdydd y noson, ac i'r cyfeilydd am gyngerdd mor hwylus a chofiadwy, ac i bawb am eu presenoldeb a'u cefnogaeth. Yna, diolchodd i bawb a fu yn trefnu mewn unrhyw fodd i sicrhau llwyddiant y noson.

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Croeso i Ffion Harries a Iestyn Davies i ddosbarth y babanod. Maent wedi setlo'n dda ac yn hapus iawn gyda eu ffrindiau. Croesawn Dawson Abblett nôl atom. Bu'n byw yn Lloegr am 3 blynedd. Croeso i Miss Ffion Williams sydd wedi dechrau fel cynorthwywraig dosbarth yn nosbarth y babanod ac i Ms Sian Harris sy'n awr yn gynorthwywraig gyda'r Cyfnod Sylfaen. Croeso hefyd i Ms Anwen James sydd yn cynorthwyo yn yr Adran Iau. Gobeithio y byddwch i gyd yn hapus yn eich swyddi newydd.

Mae adran yr Urdd yn ddiolchgar am gefnogaeth yr ardal pan aethant o amgylch i ganu carolau. Casglwyd £126.10 mewn tua awr a hanner. Daeth Rhydian o Wersyll yr Urdd, Llangrannog atom i gynnal noson o gêm. Mwynhawyd y noson yn fawr.

Diolch yn fawr i berchnogion y Swyddfa Bost am eu rhodd o £35, sef rhan o elw eu raffl Nadolig. Mae disgyblion dosbarth y babanod yn cael sesiynau ar ieuchyd, ffitrwydd a lles y tymor yma gyda Mr Islwyn Rees dan gynllun PESS.

Aeth plant blwyddyn 6 i Ysgol Uwchradd Llambod i gael gwers wyddonol gan Miss Mattie Evans.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol:

Mis Rhagfyr:-
£50-20-Tony Lloyd, 3 Bryndulais.
£40-22- Seirian Harries, Yr Hen Felin.
£30-94-Gerwyn Thomas, Crossroads.
£5-17-Jane Lloyd, 3 Bryndulais.
£2.50-181-Alwyn Evans, Brynceirch.
£2.50-36-M.Harrington, Pontddulais Hall.
£2.50-48-Rich & Rob Davies, Bryn Heddwch.
£2.50-173-Mared Harries, Maesnonni.
£2.50-79-Eifion Jones, Hafandeg
Mis Ionawr:-
£10-57-R. Harrington, Pontddulais Hall.
£5-67-Rhian Glasson, Frondeg.
£2.50-78-Mair Davies, Abercwm, Llanllwni.
£2.50-28-Diane Davies, 53 Trewern, Saron, Llandysul.
£2.50-131-Sinead Evans, 29 Bryndulais.

C.Ff.I. Llanllwni

Bu Ifor Jones ac Anwen Jones yn cymryd rhan yn y Lamb Carcase Judging yn Dunbia, Llanybydder ar y 12fed o Dachwedd. Da iawn hefyd i bawb a wnaeth gystadlu lan yn y Ffair Aeaf. Fe aeth Anwen Jones, Jenny Davies, Rhian Davies a Sam Joynson i fyny i gynrychioli'r clwb. Llongyfarchiadau i bawb wnaeth fynd ymlaen i Eisteddfod C.Ff.I. Cymru. Da iawn i Rhian Davies am ddod yn 3ydd yn yr Adrodd Digri ac hefyd i Daniel Joynson am ddod yn 3ydd yn yr adran gwaith cartref, Taith yr Afon.

Ar y 15fed o Dachwedd cymerodd Rhian Davies (Cadeirydd), Sioned Maskell (siaradwraig) a Daniel Joynson (diolchyd) ran yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg. Daeth y tîm yn 6ed allan o lawer o dimoedd a oedd yn cystadlu. Llongyfarchiadau i Rhian Davies am fynd ymlaen i gynrychioli Sir Gâr ar lefel Cymru. Diolch yn fawr i Mrs Yvonne Griffiths am ei dysgu.

Bu C.Ff.I. Llanllwni wrthi yn brysur dros yr haf a'r Hydref yn casglu arian tuag at achosion da drwy'r amryw weithgareddau. Rhannwyd yr arian mewn noson arbennig a drefnwyd yn y Neuadd Gymunedol ar nos Fawrth, Ionawr 20fed pan ddosbarthwyd sieciau fel ganlyn:

Rhoddyd tua £1300 yr un i Nyrsys McMillan ac i Feddygfa Teifi – sef elw'r sioe flynyddol. Dros £600 i Awrtism Cymru – sef elw'r canu carolau a dros £50 i Bapur Bro CLONC – sef casgliad y cyfarfod diolchgarwch.

Yr oedd pob un o'r mudiadau yn ddiolchgar i'r Clwb am eu rhoddion ac yn llongyfarch yr aelodau ar y gwaith da a wnaed dros y flwyddyn.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Steffan Harris, Yr Hen Felin ar ennill llawer o wobrwon yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd yn Adran y Dofednod.

Cydymdeimlo

Wrth i Clonc fynd i'r wasg clywyd am farwolaeth Mrs Peggy Davies, Rhoslyn. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'r teulu oll yn eu galar.

Alltyblaca

Ŵyr Newydd

Llongyfarchiadau i Rayan a Jack Jenkins, Perthi ar ddod yn ddatcu a mamgu unwaith eto, mab bach, Jac, i Eryl a'i wraig Bethan yn Rhydargaeau.

Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Mrs Dilwen George, Awelfryn ei phen-blwydd yn 80 oed ddiwedd mis Ionawr. Gobeithio i chwi fwynhau'r diwrnod.

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn.
Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan.
Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

HYSBYSEBU YN CLONC

“Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro.”
Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach.
£25.00 am chwarter tudalen.
£50.00 am flwyddyn o flociau bach.

Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:

01570 480015 neu
ysgrifennydd@clonc.co.uk

Pencarreg

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Jasmine Davies Glenview Pencarreg ar ennill 2 wobwr gyntaf, 10 ail wobwr a 5 trydydd gwobwr am ganu unawd, emyn a llefaru 8-10 oed mewn eisteddfodau yn 2008.

Adferiad Iechyd

Da yw deall bod Gruffydd John Jones, Derlwyn yn gwella adref yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Llanelli. Mae Gruffydd John yn canmol y gofal y mae'n ei dderbyn gan staff Meddygfa Llanybydder a dymuna ddiolch i bawb sydd wedi bod mor garedig wrtho tra'n gwella o'i lawdriniaeth. Diolch hefyd am y cardiau a'r galwadau ffôn oddi wrth ffrindiau a pherthnasau.

Dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan hefyd i Ioan Williams, Dôlgwm-Isaf ar ôl ei lawdriniaeth yntau. Gobeithio y bydd yntau'n holliach yn fuan iawn a'n dymuniadau gorau iddo.

Calennig

Hyfryd iawn oedd clywed y penillion traddodiadol a'r dymuniadau gorau am Flwyddyn Newydd Dda yn cael eu hadrodd a'u canu gan nifer o blant yr ardal eleni eto. Pleser o'r mwyaf yw'r ymweliadau yma'n flynyddol a gweld y plant yn cael y fath lawenydd ar eu taith o gwmpas y fro. Dyma un o'r penillion calennig gafodd ei adrodd wrth ein drws ni eleni:

Blwyddyn Newydd Dda i chi
Holl deulu llon
Gobeithio cewch chi iechyd
I dreulio'r flwyddyn hon,
A minnau'n groten serchus
Yn derbyn ceiniog goch
'Rwyf ar fy nhraed yn cerdded
Cyn taro un o'r gloch.

Gorsgoch

Ar wellhad

Nid yw Jean Evans, Llwyn-y-gôg wedi bod yn teimlo'n hwylus iawn dros yr wythnosau diwethaf. Gobeithio y byddwch llawer yn well yn glou.

Cwrtnewydd



Tomos Ifan Meredith yn cyflwyno blodau i Miss Doris Williams. Spring Gardens ar achlysur agor arwerthiant blynyddol Capel Seion Cwrtnewydd.

Ysgol Cwrtnewydd

Croesawyd pawb yn ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau Nadolig hyfryd. Croeso cynnes hefyd i Miss Lowri Evans o Faesycrugiau a fydd yn dysgu blwyddyn 3, 4, 5 a 6 tra bod Mr Ward bant. Dymunir gwellhad buan i Mr Ward a gobeithio ei weld yn ôl yn yr ysgol wedi llwyr wella cyn hir.

Llongyfarchiadau gwresog i Miss Hannah Jones, athrawes y babanod, ar ei dyweddidiad â Celt Thomas dros y Nadolig.

Braf oedd cael mynd i weld Pantomeim 'Martyn, Mam a'r Wyau Aur' yn Theatr Felinfach y dydd Gwener cyntaf yn ôl. Cafwyd amser hwylus iawn yng nghwmni Martyn Geraint a'i griw o actorion yn gwrando ar straeon doniol a chanu swynol.

Llongyfarchiadau i Mrs Wendy

Cylch Ti a Fi



Bu'n amser cyffrous iawn i blant bach Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd cyn y Nadolig. Cynhaliwyd sesiynau crefftiau Nadolig lle buodd y plant yn addurno Coeden Nadolig. Cynhaliwyd ein parti Nadolig ar Ragfyr 16 yn Neuadd yr Ysgol a braf oedd gweld y plant yn mwynhau'r te parti a baratowyd. Yn ystod y parti fe ymwelodd y dyn pwysig ei hyn sef Siôn Corn a diolch i Mr. Eryl Jones am ei barodrwydd.

Mae'r Cylch Ti a Fi wedi ail ddechrau ar ôl saib y Nadolig. Mae'r plantos wedi bod yn gweithio pypedau o lwy bren a buont hefyd yn addurno bisgedi gyda phawb yn mwynhau eu bwyta ar ôl gorffen y gwaith addurno.

Mae yna groeso mawr i aelodau newydd ymuno. Rydym yn cyfarfod ar brynhawn dydd Mawrth (tymor ysgol yn unig) o 1.15-3.30yh yn Neuadd yr Ysgol. Am ragor o fanylion cysylltwch gyda'r ysgol ar 01570 424273.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Morfudd a Helen Davies, Bwlch-y-Berllan ar golli mam a mam-gu, sef Mrs Ethel Evans o Gaerfyrddin, un a oedd wedi cyrraedd ei 96 oed.

Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Pam Davies, 4 Heol y Bryn ei phen-blwydd yn 60 oed ddiwedd mis Ionawr. Gobeithio y cawsoch ben-blwydd i'w gofio!

Diolch

Dymuna Gareth a Sulwen Lloyd, Ucheldir ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Mrs Mair Davies, Pantronnen ar wellhad yn dilyn ei arhosiad yn Ysbyty Llanelli'n ddiweddar.

Noson o Fingo

Cynhaliwyd noson llawn hwyl yn chwarae Bingo yn neuadd Ysgol Cwrtnewydd ar nos Wener olaf mis Ionawr gyda Gwyn a Val Jones o Felinfach. Daeth nifer dda ynghyd ac roedd y gwobrau yn hael. Trefnwyd y noson gan Bwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd a diolchwyd i bawb gan y Cadeirydd Dewi Jones.

Mae
Ysgol Cwrtnewydd
yn edrych am
oruchwyliwr amser cinio.
Os oes gennych ddiddordeb
yn y swydd cysylltwch â'r
ysgol – 01570 434273

Oriau gwaith rhwng
12.00 ac 1.00
yn ystod tymor yr ysgol.
Cyflog: £6.28 yr awr.

Clwb Clonc

Chwefror 2009

£25 rhif 114:

Mrs Alice Davies,
Alwyn, Llanwnnen.

£20 rhif 405:

Ieuan Roberts,
Madryn, Rhodfa Glynhebog,
Llambod.

£15 rhif 299:

Mrs Meinir Jones,
Hendai, Cwmann.

£10 rhif 84:

Eurwyn Thomas,
47 Heol-y-Gaer, Llanybydder.

£10 rhif 412:

Elsa Thomas,
9 Llys Myrdin, Caerfyrddin.

£10 rhif 109:

Hanna Llewelyn Davies,
Ger-y-Nant, Drefach.

Llanwnnen

Capel y Groes

Gwasanaeth dydd Nadolig
Am 9.00 o'r gloch fore Nadolig cynhaliwyd gwasanaeth yn y capel. Darllenwyd darnau gwahanol gan Gwyn Jones, Dwynwen Mai, Cerys Potter Jones, Manon Richards a Luned Mair. Cyfeiliwyd wrth yr organ gan Nans Davies a chafwyd anerchiad tymhorol gan y Parch Cen Llwyd. Ar ddiwedd y gwasanaeth casglwyd at waith Cymorth Cristnogol gan Gwyn Jones ac Alan Williams. Bob mis yn y capel fe gynhelir tri gwasanaeth sef am 10.30 ar y Sul cyntaf, 1.30 ar yr ail Sul ac am 3.00 p.m. ar y trydydd Sul sydd hefyd yn Wasanaeth Cymundeb. Croeso cynnes i bawb.

Gwasanaeth i ddiolch am fywyd a chyfraniad y diweddar T Llew Jones.

Yn dilyn y newyddion trist ddydd Sadwrn 10 Ionawr am farwolaeth y Prifardd T Llew Jones, y diwrnod canlynol fe gynhaliwyd oedfa arbennig dan arweiniad y Parch Cen Llwyd yn y capel i ddiolch am fywyd y diweddar T Llew Jones. Cafwyd oedfa fendithiol wrth wrando ar eiriau o'i waith ynghyd â geiriau sydd wedi eu hysgrifennu amdano gan eraill.

Ysgol Sul

Yn ôl yr arfer ar y Sul cyntaf ymhob mis cynhelir gwasanaeth yn y Capel am 10.30 y bore. Ers peth amser yn awr, fel rhan o'r gwasanaethau boreol, mae aelodau'r ysgol Sul yn ymuno â'r gynulleidfa ar ddechrau'r oedfa. O hyn ymlaen, estynnir gwahoddiad i'r gynulleidfa ynghyd â rhieni'r plant ac unrhyw un arall, ddod ar ddiwedd yr oedfa i'r festri i gael cwpaned o de/coffi gydag aelodau'r Ysgol Sul. Bydd yr arian a gesglir yn fisol dros y flwyddyn yn cael ei gyfrannu at waith Cymorth Cristnogol.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Mrs Eva Davies, Ornant sydd wedi treulio sawl wythnos yn Ysbyty Glangwili.

Diolch

Dymuna Euros a Ciss Jones, Tŷ Newydd, Llanwnnen ddiolch am yr holl ddymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad â Mrs Maureen Scalley, Bro Grannell yn ei phrofedigaeth ar golli ei phriod John. Bu farw yn Ysbyty Llanymddyfri ddechrau mis Ionawr.

Cydymdeimlir hefyd â Mrs Ray Thomas, Berllan a theulu Castell Du yn dilyn marwolaeth Mrs Rachel Bayford, gynt o Lanybydder.



Yn ystod mis Rhagfyr cynhaliwyd prynhawn o gystadleuaeth CogUrdd sef cystadleuaeth goginio sy'n cael ei threfnu gan yr Urdd. Bu Mrs Iona Morgan yn beirniadu. Ddiwedd y prynhawn dyfarnwyd mai Ffion Jenkins, Blwyddyn 5 oedd yr enillydd. Da iawn ti Ffion.

Pen-blwydd Arbennig

Ar Ionawr 30ain dathlodd Roy Roach, 5 Bro Llan ei ben-blwydd yn 65 oed. Gobeithio i chwi fwynhau'r diwrnod.

Ysgol Llanwnnen

Fe fu holl ddisgyblion yr ysgol yn gweld Panto 'Lleu' yn Theatr y Werin, Aberystwyth ddydd Gwener, Rhagfyr 5ed. Cawsom brynhawn i'w gofio.

Bore dydd Sadwrn, Rhagfyr 6ed

aeth llond bws mini o staff a ffrindiau'r ysgol am benwythnos i wneud eu siopa Nadolig yng Nghaer a Manceinion. Treuliwyd penwythnos arbennig yng nghwmni ein gilydd.

Ddydd Mercher, Rhagfyr 17eg aeth y disgyblion ynghyd â rhai Cribyn am daith lawr i 'Play Zone' yn Abertawe. Cafwyd dwy awr hwylus yn chwarae a dringo ar yr offer a oedd yno.

Do, fe gafwyd ymweliad gan Siôn Corn eleni eto ar ddiwrnod ola'r tymor.

Bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan yn y Gwasanaeth Carol a Chân yn Eglwys Llanwenog a drefnwyd gan Bwyllgor Apêl Llanwenog a Llanwnnen 2010 y nos Sul cyn y Nadolig.

Ddechrau mis Ionawr croesawyd yn gynnes Lilly Smith a Emily Thorley a ddechreuodd yn nosbarth y Babanod. Hefyd, croeso i Laura Thomas, cyn-ddisgybl sydd wedi dechrau yn nosbarth y babanod yn rhan o'i chwrs Iechyd a Gofal yn Ysgol Gyfun Llambled. Gobeithio eich bod i gyd yn mwynhau yn yr ysgol.

Bu disgyblion Blwyddyn 4 a 5 yn gweld perfformiad Arad Goch o 'Merched y Gerddi' a bu dosbarth y babanod yn gweld 'Dros y Garreg' yn Ysgol Cwrtnewydd. Diolch iddynt am y croeso a diolch i Arad Goch am ddwy sioe o safon uchel.

Yn ystod y mis hefyd bu disgyblion dosbarth y babanod i fyn y Milfeddygfa Steffan yn Llambled. Cafwyd croeso arbennig iawn yno.



Ceris Morgan yn trin gwallt yn eich cartref



Tori a sychu, stello a llwio, ewrio a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.

Prisau rhesymol.
Ffoniwch: 07738 492613
Cwmnann
ond yn barod i deithio'r ardal.

Creative Cove

40A Y Stryd Fawr,
Llambled, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfriliw.

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob
gwasanaeth cyfreithiol
*Apwyntiadau hwyr neu
yn eich cartref*

**W.D.
Lewis
a'i Fab**

Masnachwyr Amaethyddol

☎ 01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont,
Llanbedr Pont Steffan

*Am holl fwydydd a nwyddau
amaethyddol, cysylltwch â ni.*

**WILLIAMS
& BOURNE**

CYFREITHWYR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambled**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG CATERING

Y gwasanaeth arlwygo cyflawn
ar gyfer bob achlysur:

Priodas; Penblwydd;
Bedydd; Angladd;

Cinio Busnes;

Digwyddiadau Maes,

Bwydlenni unigol i ateb
eich gofynion chi - boed yn
fawr neu'n fach

Cyswllt: Mrs Mair Hatcher
Abernant, Llanwenog, Llanybydder, SA40 8UR
☎ 01570 481230 ☎ 07967 559683

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

O gwmpas y byd

Yr Aifft, Arabia, Babylon, Bengal, Cuba, Constantinople, Martinique, Mount Etna, Naples, Novo Scotia, North Pole, Saint Helena, Siberia, Tangiers, Temple Bar, Waterloo ... a phob un ohonyn nhw yn enw sy'n digwydd yng ngorllewin Cymru. A pheth digon cyffredin yw darganfod enwau dinasoedd a threfi a gwledydd tebyg i'r rhain ar ffermydd, ar dyddynnod ac ar gaeau a nentydd ar draws Cymru. Mae'r holl enwau a restrwyd uchod yn digwydd yn Sir Benfro ac mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n perthyn i'r cyfnod tua 1800.

Mae Pennsylvania yn enw sy'n cael ei gysylltu gan amlaf â'r tir a roddwyd i William Penn (1644-1718) yn America bell gan Charles I. Mae'n digwydd yn enw ar ddau gae gwahanol ac ar annedd yn Llanllwni. Roedd Penn ei hun am alw'r dalaith newydd yn America yn New Wales. Ond yn ôl Penn, mynnodd Charles I mai Pennsylvania y dylid galw'r lle. Taerai Penn fod enw'r dalaith wedi ei batrymu ar y gair Cymraeg 'pen.' Ond nid oedd ganddo wrthwynebiad o gwbl i'w gysylltu â Penn, gan fod ei dad yn llyngesydd reit adnabyddus.

Yn nes atom ni yn y rhan hon o'r byd, daeth enwau o dramor megis Pennsylvania a Philadelphia, a'r gweddil rydw i wedi sôn amdany'n nhw, yn llysenwau ar gaeau, nentydd a thai pellennig – yn aml y rheini a oedd yn agos at ffin y plwyf. Yn Llanllwni profodd Pennsylvania'n ormod i'w dreulio a chafodd ei dalfyrnu yn Pensol, a Pensol yw'r ffurf a ffynnodd ar lafar.

Dyw pob enw a drawsblannwyd fel hyn ddim yn dod o bellafoedd byd o bell ffordd. Pentref diwydiannol yw Clydach yn Sir Frycheiniog; datblygodd yn ystod diwedd y 18fed a dechrau'r 19eg ganrif yng nghysgod y diwydiant haearn a glo. Agorwyd Gwaith Haearn Clydach yn 1813. Yr enw ar un rhan o'r pentref, ar lan ogleddol yr afon, oedd 'Cheltenham' – enw a drawsblannwyd, mae'n siŵr, yn sgil dylifiad gweithwyr o fewnfudwyr. 'Ffynnon-y-coed' oedd yr enw brodorol a ddisodlwyd gan 'Cheltenham'. Diflannodd y ddau enw erbyn hyn a'u llyncu gan Clydach.

Yn aml iawn cyfeiria 'Sbain' mewn enw cae at 'Laburnum anagyroides' neu onnen Sbaen, tresi aur sy'n ffurfio rhan sylweddol o glawdd ffin y cae hwnnw. O ganol y 18fed ganrif ymlaen defnyddir yr enw, ar adegau, i ddynodi mannau a oedd yn arbrofi â thyfu cnydau anarferol neu anghyffredin.

Mae Bristol, Charing Cross, Cumberland, Highgate, a Tyburn yn ddyrmaid arall o enwau sy'n ddigon i roi rhagor o flas inni ar y math o enwau sy'n digwydd yng ngorllewin Cymru. Ger Llansawel yn Sir Gaerfyrddin mae Llundain Fechan. Y traddodiad yw mai Dafydd Jones o Gaeo, yr emynydd a'r porthmon, oedd yn gyfrifol am roi'r enw Llundain Fechan ar y ffarm. Ond ofer honni hynny oherwydd mae'r enw Llundain Fechan (1708) yn digwydd ychydig flynyddoedd cyn geni Dafydd Jones (1711-1777). Mae Llundain Fechan ar lan Afon Marlais ac mae Nant Thames yn llifo i honno ger Llansawel.

Prawf o ddychan neu ddigrifwch neu eironi, mae'n siŵr, gawn ni yn Llansawel - galw un o ragnentydd Afon Marlais ar ôl un o brif afonydd gwledydd Prydain.

Ond beth am Aberdâr yng Nghynwyl Gaeo ac Aberteifi ac Abergavenni yn Llangeler? Cawn sôn am yr enwau hynny y tro nesaf.



**GLYN
PHILLIPS**
Saer Coed ac Asiedydd



Ffôn: 01570 470176
Symudol: 07775 694243

FISHERS

ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos lau, Gwener a Sadwrn.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merch.

Cellan, Llambed
01570 422895

T. Emyr Jones
Adeiladwr



Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
☎ 07867 945174

CANOLFAN ADDURNO
AA

A
Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phverus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd
NEHAR
newydd agor yn Llambed



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambed
☎ 01570 422893 / 422175

Gohebiaeth Clonc



Beth yw eich hoff emyn gan Elfed?

Dros yr wythnosau nesaf, bydd y gyfres canu mawl Dechrau Canu Dechrau Canmol yn gwahodd y cyhoedd i ddewis eu hoff emyn gan Elfed, y bardd, pregethwr ac eisteddfodwr o Flaen-y-coed, Sir Gaerfyrddin.

Mae rhestr fer o 12 emyn wedi ei chyhoeddi ar wefan Dechrau Canu Dechrau Canmol, sy'n cynnwys hen ffefrynnau fel Cofia'n Gwlad Benllywydd Tirion, Arglwydd Iesu, Dysg i'm Gerdded, a Rho im yr Hedd.

Mae croeso i bobl ymweld â www.s4c.co.uk/dechraucanu i wneud eu dewis a phleidleisio cyn y dyddiad cau, sef dydd Iau 26 Chwefror 2009.

Bydd cyfle hefyd i ymuno â chriw Dechrau Canu Dechrau Canmol yn Venue Cymru, Llandudno ar nos Wener 27 Chwefror pan fydd y gynulleidfa yn uno i ganu'r deg emyn mwyaf poblogaidd sydd wedi'u dewis. Un o gyflwynwyr y rhaglen, Alwyn Humphreys, fydd yn arwain y cyngerdd. Gallwch sicrhau eich lle wrth gysylltu â 01443 688 505.

Aberystwyth yn llwyfan i benwythnos o gystadlu corawl

Bydd cyfle i fwynhau gwledd o ganu corawl yn y Neuadd Fawr yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ddiwedd Chwefror pan fydd rowndiau cynderfynol cystadleuaeth Côr Cymru 2009 S4C yn cael eu cynnal.

Mae pum rownd gynderfynol wedi'u trefnu ar gyfer y Neuadd Fawr ar benwythnos 20-22 Chwefror gydag un côr buddugol yn mhob categori yn mynd ymlaen i'r rownd derfynol ddydd Sul, 5 Ebrill.

Mae tocynnau ar gyfer y pum rownd gynderfynol ar gael yn rhad ac am ddim gan gwmni Rondo, un ai trwy ffonio 029 2022 3456 neu e-bostio corcymru@rondomedia.co.uk.

"Mae mantais arall o fynychu'r rowndiau cynderfynol, gan y bydd y rhai sydd wedi bod yno yn cael blaenoriaeth wrth ymgeisio am docynnau i'r rownd derfynol ar 5 Ebrill."

Mae cryn dipyn yn y fantol i'r 18 côr yn y rowndiau cynderfynol, gan fod pob côr sy'n ennill ei gategori yn derbyn £2,000 ac yn cael y cyfle i gystadlu yn erbyn pedwar côr arall am deitl Côr Cymru 2009 a'r wobriariannol o £5,000.

Y Corau Ieuencid fydd yn brwydro yn y rownd gynderfynol nos Wener, 20 Chwefror (8.00pm) yw Côr Aelwyd y Waun Ddyfal o Gaerdydd, Côr y Drindod o Gaerfyrddin, Ysgol Gerdd Ceredigion a'r Four Counties Choir o ogledd ddwyrain Cymru.

Bydd dwy gystadleuaeth ddydd Sadwrn, 21 Chwefror gyda'r Corau Plant yn cystadlu o 2.00pm ymlaen a chystadleuaeth y Corau Merched am 8.00pm.

Y corau plant yn y rowndiau cynderfynol yw Ysgol Gerdd Ceredigion; Ysgol y Strade, Llanelli; Côr Llanofer, Cwmbrân; a Chôr Iau Glanaethwy ac yn y categori Corau Merched bydd Cantata o Gaerdydd; Ysgol Lewis i Ferched, Ystrad Mynach; a Flintshire Senior County Choir am y gorau i gyrraedd y ffeinal.

Cawn ddôs dwbl o'r canu gorau ddydd Sul, 22 Chwefror hefyd, gan ddechrau gyda'r Corau Cymysg - Côrddydd, Côr CF1, ill dau o Gaerdydd, Tempus o Sir Benfro a Chôr Eifionydd am 2.00pm. Yna, gyda'r nos am 8.00pm, tro'r Corau Meibion fydd hi, gyda Bois y Castell o Landeilo, Côr Meibion Fflint a Bechgyn Bro Tâf o Gaerdydd ar dân i greu argraff.

Dyma'r pedwerydd tro i S4C gynnal cystadleuaeth Côr Cymru a'r enillwyr blaenorol yw Côr Cywair o Gastell Newydd Emlyn (2007), Serendipity o Gaerdydd (2005) ac Ysgol Gerdd Ceredigion (2003).



SŴP i SWPer

Rydym yn cadw at yr arfer o fwyta'n iach y mis yma. Gan fod Ionawr yn adeg yr ydym yn meddwl am addunedau, un ohonynt yw bwyta'n iach, a beth all fod yn fwy iachus a maethlon ac yn haws i'w baratoi na llond powlen o sŵp.

Medrwcw baratoi digon am sawl powlen a chofio pa mor rhwydd yw cadw peth yn yr oergell am tua 4 diwrnod, neu rewi peth os am ei gadw am fwy o amser.

Medrwcw ei weini hefyd fel cwrs cyntaf sydyn, neu fel cinio canol dydd. Digon o fara i gwblhau'r pryd cysur perffaith.

Cadwch yn gynnes a chysurus.

Hwyl!

Gareth.

Cawl Oren, Moron a Chnau Mwnci.

Cynhwysion

- 500gm (1lb 2oz) o foron wedi'u darnio
- 2 winwnsyn bach wedi'u darnio
- 1 cenhinen wedi'i darnio
- 4 darn o seleri wedi'u darnio
- 2 ewin o arlleg
- 1¼ peint o stoc llysiau
- Sest a sudd un oren
- 100ml o laeth hanner sgim
- 1 llond llwy de o berlysiau cymysg
- 2 llond llwy fwrdd o fenyn cnau mwnci
- Halen a phupur.

Dull

- Twymwch y ffwrn i 200°C, 400°F, Nwy 6.
- Rhostiwch y moron, winwns, cennin, seleri a garlleg mewn tun rhostio am 20 munud.
- Trosglwyddwch y llysiau i sosban ac ychwanegwch y stoc, sudd oren, llaeth a'r perlysiau.
- Dewch i'r berw a mudferwch am 10 – 15 munud. Ychwanegwch y sest a'r menyng cnau mwnci.
- Rhewch mewn peiriant hylifo (liquidiser) nes yn llyfn.

Sŵp Madarch, Ffa, a Phersli.

Cynhwysion

- 2 ewin o arlleg
- 2 winwnsyn mawr wedi'u sleisio
- 4 owns o fadarch wedi'u darnio
- 500ml o laeth hanner sgim
- 400gm o ffa gwyn (butter beans) mewn tun
- Ychydig bersli wedi'i ddarnio
- 2 llond llwy fwrdd o 'fromage frais'
- Pupur a halen.

Dull

- Mewn sosban drom coginiwch yn araf y winwns a'r garlleg nes yn euraidd
- Ychwanegwch y madarch ffres, llaeth a'r ffa gwyn. Mudferwch am 20 munud
- Ychwanegwch y persli ac hylifo'r cyfan.
- Curwch hanner y 'fromage frais' i'r gymysgedd, ychwanegwch bupur ac halen, gweinwch gydag ychydig bersli a 'fromage frais' dros y cyfan.

Sŵp Pannas, Mwstard a Mêl

Cynhwysion

- 1 cenhinen wedi'i darnio
- 500 gm o pannas wedi'u crafu a'u darnio
- 2 winwnsyn wedi'u darnio
- 3 darn o seleri
- 2 ewin o arlleg
- 1¼ peint o stoc llysiau
- 1 llond llwy de o fwstard cyflawn (wholegrain)
- 2 llond llwy de o fêl
- Sudd ½ lemn
- Pupur a halen. Persli wedi ei ddarnio at addurno

Dull

- Rhewch y pannas, winwns, cennin, seleri a garlleg mewn sosban drom gyda'r stoc. Berwch nes bod y llysiau'n feddal (tua 20 munud).
- Gadewch i oeri ac hylifwch. Ychwanegwch y llaeth, mwstard, mêl a'r sudd lemn. Ychwanegwch bupur a halen fel yr hoffwch chi. Gweinwch gydag ychydig bersli dros y cyfan.

Colofn Dylan Iorwerth

Mis papur a'r We ... a Llanbed yw'r lle

Mae'n beth anarferol iawn, ac mae'n digwydd ynghanol Llanbed.

Ynghanol yr holl helyntion ariannol, mae yna gwmni yn creu ychydig o swyddi. Ac wrth i gwmnïau papur newydd ymhobman gael gwared ar newyddiadurwyr, mae hwn yn cymryd rhagor.

Mater o lwc, falle, yn hytrach na rheswm tros frolio, ond mae'n berffaith wir fod Golwg yn tyfu, oherwydd y gwasanaeth newydd fydd yn cael ei lansio ar y We o fewn y misoedd nesa'.

O fewn ychydig, ryden ni'n gobeithio y bydd rhai o'n gweithwyr ni yn symud i mewn i ran o hen adeilad y mart yn Llanbed – y cwmni cynta' i fynd yno – a, rhwng popeth, mi fydd yna rhyw bedair o swyddi newydd yn y dre' a thua saith trwy Gymru.

Gwaith y tîm yna, dan arweiniad hogyn lleol, Ioan Wyn, a'r llenor lleol, Ifan Morgan Jones, fydd creu gwasanaeth newyddion ar y We. Straeon o Gymru a gweddill y byd yn ymddangos yn gyson trwy'r dydd.

Ond, os ydi'r gwasanaeth am fod yn llwyddiant go iawn, mae angen i bob math o gyrff, cwmnïau a mudiadau ddod y tu cefn iddo a chyfrannu ato. Mi fyddai'n grêt gweld ardal Llanbed a Clonc yn cael ei chynrychioli'n gry'.

Y syniad ydi fod lle ar y gwasanaeth i bobl gymryd eu safle bach eu hunain – tudalen neu ddwy i ddweud wrth bawb pwy ydyn nhw ac i roi eu newyddion diwedddara'. Mi allai ysgol wneud, neu glwb chwaraeon neu, wrth gwrs, bapur bro. A'r cyfan yn hawdd a didrafferth.

Cysylltwch os oes gyda chi syniad

Mae yna ffyrdd eraill o gyfrannu hefyd. Os oes rhywun yn sgorio cythrel o gôl neu gais i dîm lleol a bod rhywun wedi tynnu llun neu wneud fideo o hynny, mi allech chi ei anfon i mewn i'w roi ar y gwasanaeth.

Un syniad arall ydi creu lle i eisteddfodau bach. Os bydd Tomi bach neu Tania yn ennill ar yr adrodd dan 12 yn Eisteddfod Capel y Groes, er enghraifft, fe allai mam, neu dad, neu mam-gu anfon y llun a'r newyddion i mewn i bawb gael dathlu.

Fydd pob peth ddim yn digwydd reit o'r dechrau ond mae'r cyfle yno, ac mi fydden ni'n hoffi clywed gan unrhywun sydd â syniad. Beth am wefan fach am ralio, er enghraifft, neu luniau o glwb cerdded ar eu taith ddiwedddara'?

Heb sôn am y Ffermwyr Ifanc, wrth gwrs. Mae gan y rheiny ddigonedd o luniau o bob math o ddigwyddiadau (ac mae rhai yn ffit i'w dangos i'r cyhoedd hefyd!). Ac, i fand ifanc sydd eisie llwyfan i'w gwaith, dyma le i roi trac neu fideo.

Llanbed fydd canol y gwasanaeth newydd yma. A Llanbed o hyd ydi prif swyddfa cylchgrawn Golwg, a fydd hefyd yn datblygu ymhellach ochr yn ochr â'r gwasanaeth newydd.

Cymryd y cyfle

Fydd hi ddim yn hawdd, wrth gwrs. Mae'n syfrdanol faint o newid sydd wedi bod ers i'r gwaith yma ddechrau. Mae'r economi wedi cael ei droi din dros ben a, hyd yn oed yn awr, dw i ddim yn credu ein bod ni'n sylweddoli pa mor ddrwg ydi pethau.

Ond un fantais fawr i'r gwasanaeth newydd ydi ei fod am ddim. Fydd dim rhaid i neb dalu am ddarllen yr holl ddeunydd na hyd yn oed am wyllo clipiau o fideos a rhaglenni teledu. I gwmnïau sydd am hysbysebu, mae hynny yn fendith.

Os bydd pawb yn cymryd y cyfle sydd ar gael i gymryd rhan a chyfrannu, mi fydd y gwasanaeth newydd yma'n torri tir hollol newydd, nid dim ond yng Nghymru ond, hyd y gwyddon ni, yng ngweddill gwledydd Prydain hefyd.

Does yna ddim byd yn union yr un peth – yn cynnig gwasanaeth newyddion proffesiynol, adloniant a'r elfennau cymunedol a chymdeithasol yma. A, thrwy lwc a bendith, yn Llanbed y bydd y cyfan yn digwydd.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partïon



Dôl-Mebyd,
Penacreg,
Llanybydder.

Annwyl Blant,

Sut ydych chi? Gobeithio eich bod chi gyd yn iawn ac wedi mwynhau eich gwyliau Nadolig! Mae'r hen Lincyn Loncyn bach yn fisi iawn yr wythnos hon yn cael gwersi sgelfrio, rhag ofn gawn ni eira a mwy o rew. Mae fy nghefnder Joni Jacos yn dipyn gwell na fi ar hyn o bryd, ond rwy'n ffyddiog y gwnaf feistroli'r gamp cyn ddaw Santa'r flwyddyn nesaf!

Braf oedd gweld bod llawer un wedi rhoi cynnig arni y mis hwn eto. Mae clod mawr yn mynd i Carwyn a Catrin Rosser o Frynteg a Daniel Evans o Silian.

Ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Sara Elan Jones, Araul, Cwmann. Da iawn a llongyfarchiadau mawr i chi gyd. Cofiwch fynd ati i liwio llun y mis nesaf a'i ddanfôn ataf erbyn dydd Llun, Chwefror 23ain.

Cofion cynnes,



Enw:

Cyfeiriad:

Sara
Elan
Jones

**Enillydd
y mis!**

**Toriad
Taclus**

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

**COMPASS
OFFICE
SUPPLIES**

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambod, Heol Tregaron,
Llambod.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035

✉ mwnciffwnci@hotmail.com

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb

Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

Dathlu Llwyddiant o Bob Math



Enillwyd y gystadleuaeth dan 26oed gan dîm Llanwenog. O'r chwith - Rhian Bellamy, hefyd yn ennill cwpan y Cadeirydd Gorau; Helen Howells; Lyn Jenkins a Manon Richards, hithau yn ennill cwpan y Siaradwr Gorau.



Tîm Llanwenog yn ennill y cwpan dan 21oed. O'r chwith - Cerys Jones, enillydd Tarian y Siaradwr Gorau hefyd; Heilin Thomas; Steffan Davies ac Enfys Hatcher a enillodd dlws y Cadeirydd Gorau.



Aled Roberts a Terry Jones o Frigad Dân Llambedydd gyda Simon Western ar ddiwrnod agored gan y gwasanaeth tân yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar.



Cynhaliodd aelodau Grŵp Trafod Amaeth Llanbedd eu cinio blynyddol yng Ngwesty'r Llew Du. Enillodd Graham Uridge ac Iwan Uridge, y cwpan am y clamp silwair a'r cwpan am y cnwd porthiant gorau; Rhys gefn - Rhun Fychan, llywydd; Huw Evans, Tregaron, siaradwr gwadd; Huw McConochie, is-gadeirydd, John Davies, cadeirydd a Gareth Jones, ysgrifennydd.



Bet Davies, aelod o Glwb Bowlio Llanbedd sydd wedi ei dewis yn Llywydd Cymdeithas Bowlio Menywod Cymru, 2009.

CLWB STWFFIO
gwledd **Dathlu Dewi**
yn
Y Coleg
Nos Wener, MAWRTH 6ed 2009, 7 o'r gloch
PRISTOCYN - £17
Tocynnau ar werth yn:
J.H. Roberts a'i Feibion, 7 Stryd Fawr, Llambedydd
Swyddfa Cyfrifiwyr Siartredig PJE, 23 Stryd y Coleg, Llambedydd
neu cysylltwch â Dorian Jones 01570 422678 / 07814 440581
Elw at Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010

Treialon Cŵn Defaid Dan Do
- y cyntaf erioed!

CWRSHIN MEWN CYSGOD

PafiliwnBont, Pontrhydfendigaid

Dydd Sadwrn **21.2.09**
Dechrau am 11yb

£5 Oedolion, plant am ddim
Beirniad: Kevin Evans, Pencampwr Rhyngwladol

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni
☎ 01974 831635
✉ post@pafiliwnbont.co.uk 🌐 www.pafiliwnbont.co.uk

pafiliwnbont

D & C Rallying

Rhif Ffôn 01570 434 244 / 07973 420 664
CEIR - FANIAU - CERBYDAU 4x4

Gwasanaethu ac atgyweirio o bob math
a pharatoi eich car ar gyfer MOT


*** Teiars o bob math * Olew * Filteri * Batris * Brêcs ***

Am bopeth i'ch car, dewch yma aton ni
Tanrhos, Cwrtnwydd, Llanybydder Ceredigion, SA40 9YN

Cyflwyno sieciau hael at achosion da....



Yn yr Ivy Bush, Llanbedd cyflwynwyd sic am £560 gan Dannie Harries a'i ferched (o'r chwith) Jean, Anwen, Yvonne (wyres), Joyce ac Olga er cof am wraig a mam annwyl, sef y diweddar Mary Harries, Gelli, Cwrtnwydd i Hywel Jones, Cadeirydd Cymdeithas Alzheimer, Ceredigion.



Sioned Russell, Trysorydd Capel Brondeifi, Llambled yn cyflwyno sic am £263.56 i Aneurin Jones, Cadeirydd Cangen Llanybydder a Llambed o Sefydliad Prydeinig y Galon tuag at brosiect y Sefydliad, Heart Failure Nurse. Casglwyd yr arian mewn dau wasanaeth ym Mrondeifi adeg y Nadolig. Mae'r sefydliad yn noddi'r nyrs am £125,000 dros dair blynedd.



Yn dilyn Noson Caws a Gwin Côr Corisma, rhannwyd yr elw o £1,400 rhwng Apêl Llambed Eisteddfod Yr Urdd 2010 ac Ambiwylans Awyr Cymru. O'r chwith: Dorian Jones, Carys Lewis, Ann Herbert, Llinos Jones a Ros Davies.



Yn y llun gwelir un o nyrsys Ffagl Gobaith, Liz Pugh, o Landdewi Brefi yn derbyn sic er cof am David Davies, Pentrebach. Mae'r elusen yn gwasanaethu Ceredigion gyfan ac yn cynnig gofal nyrsio lliniarol i bobl â salwch terfynol.



Cyflwynodd Clwb Moduro Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch deledu 32 modfedd i gartref henoed Hafandeg yn Llanbedd. Codwyd yr arian drwy gyfarfodydd Autotests yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.



Lowri Davies yn cyflwyno sic am £1,755 i Ann Edwards yn cynrychioli Ambiwylans Awyr Cymru. Gweler manylion ar dudalen 5.



Lowri Davies yn cyflwyno sic am £2,021 i'r Gwir Barchedig, Yr Esgob Andy John, Ficer Llanyrcrws. Manylion ar dudalen 5.



Bethan Evans, yn cyflwyno sic o £300 i Steve Thomas a Gerwyn Morgan, Cyd-ymatebwyr Cyntaf Llandysul, ar ran Lleisiau Bro Eirwyn.